

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 26 Tachwedd	Clerc y Pwyllgor
2018	0300 200 6565
Amser: 13.30	SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

(Cytunodd y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2018 ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(13.30)
- 2 **Papur(au) i'w nodi**
(13.30 – 13.35) (Tudalennau 1 – 2)
 - 2.1 **Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(Tudalennau 3 – 86)
 - 2.2 **Craffu ar Gyfrifon 2017–18: Gohebiaeth gan Gomisiwn y Cynulliad (20 Tachwedd 2018)**
(Tudalennau 87 – 88)
- 3 **Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ledled Cymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(13.35 – 13.50) (Tudalennau 89 – 112)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
PAC(5)–31–18 Papur 1 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)–31–18 Papur 2 – Ymateb gan Lywodraeth Cymru



4 Gwasanaethau radioleg – adroddiad cryno: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(13.50 – 14.05)

(Tudalennau 113 – 173)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-31-18 Papur 3 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

5 Blaenraglen waith – Gwanwyn 2019

(14.05 – 15.00)

(Tudalennau 174 – 192)

PAC(5)-31-18 Papur 4 – Blaenraglen Waith

PAC(5)-31-18 Papur 5 – Gohebiaeth gan Darren Millar AC ynghylch ward

Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd (6 Tachwedd 2018)

PAC(5)-31-18 Papur 6 – Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau arbennig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (6 Tachwedd 2018)

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/5039>

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018

Amser: 13.15 – 16.04

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Jenny Rathbone AC
Tystion:	Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru Mark Price, Llywodraeth Cymru Stephen Carr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Adrian Crompton – Archwilydd Cyffredinol Cymru Matthew Mortlock Dave Rees
Staff y Pwyllgor:	Meriel Singleton (Ail Glerc) Katie Wyatt (Cyngorydd Cyfreithiol) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)



1 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Briff technegol

- 1.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio technegol ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru gan Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru; Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru; Stephan Carr, Rheolwr Rhaglen Cymunedau Diogelach, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a Mark Price, Cydgysylltydd Rhaglen Cymunedau Diogelach Llywodraeth Cymru.

2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Menter Twyll Genedlaethol 2016–18

- 2.1 Cafodd yr Aelodau eu briffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei adroddiad a chytunwyd i ystyried y materion a godwyd ymhellach, o bosibl fel rhan o ystyriaeth ehangach o drefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus.

3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor
- 3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC a Jack Sargeant AC.

4 Papur(au) i'w nodi

- 4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

5 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (31 Hydref 2018)

- 5.1 Trafododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

Sylwadau i gloi

Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig i gyfarfod yn breifat ar 26 Tachwedd 2018.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Tudalen y pecyn 3

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nick Selwyn oedd rheolwr tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y tîm hwnnw'n cynnwys Steve Frank, Gareth Jones, Euros Lake, Sara Leahy, Martin Gibson, Philippa Dixon a Matt Brushett o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tudalen y pecyn 4

Cynnwys

Nid yw cynghorau'n llwyddo hyd yn hyn i ddod o hyd i ddulliau cynaliadwy o gynorthwyo cymunedau gwledig i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu, ac mae arnynt angen meddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol	6
Ein canfyddiadau	9
Argymhellion	10
Rhan 1 – O ganlyniad i newidiadau cymdeithasol ac economaidd, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd y darperir gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol.	12
Gwelwyd newid demograffig a heriau wrth annog cyflogaeth yn cael effaith ar gynaliadwyedd cymunedau a gwasanaethau.	12
Mae seilwaith gwan a newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau a chyfleusterau allweddol eu darparu wedi cael effaith andwyol ar gymunedau gwledig	14
Yn gyffredinol, mae dinasyddion yn teimlo nad yw gwasanaethau allweddol y cyngor cystal ag yr oeddent o ran argaeledd, fforddiadwyedd, hygyrchedd, addasrwydd a derbynioldeb.	18
Mae cynghorau wedi troi fwyfwy at Drosoglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn arbed arian, ond nid yw hyn wedi bod yn ateb cynaliadwy bob tro.	21

Rhan 2 – Nid yw cynghorau a'u partneriaid yn ymateb yn effeithiol bob tro i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu.	23
Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol i Gymru wledig	23
Mae'r arfer o ddadansoddi data er mwyn deall problemau a chytuno ar atebion addas, yn wan.	25
Nid yw'r cynghorau yn tynnu ar eu cymunedau bob tro i'w helpu i flaenoriaethu eu gwasanaethau a'u darparu	26
Er bod gwaith partneriaeth a chydweithio yn elfennau sydd wedi'u sefydlu ers meitin, ac yn gallu bod yn effeithiol, cyfyngedig yw integreiddiad gwasanaethau.	28
Cydnabyddir bod rheoli ac atal y galw yn hanfodol wrth gynnal gwasanaethau, ond mae'r cynnydd yn hyn o beth yn gymysg	29
Mae ar gynghorau a'u partneriaid angen gwella'u dealltwriaeth o effaith eu penderfyniadau ar bobl o gymunedau gwahanol	31
Rhan 3 – Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar gynghorau a'u partneriaid angen meddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.	33
Atodiadau	37
Atodiad 1 – Methodoleg yr Astudiaeth	37
Atodiad 2 – Diffinio Cymru 'Wledig'	39
Atodiad 3 – Astudiaethau achos arfer da	41
Atodiad 4 – Cwestiynau Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru	47

Nid yw cynghorau'n llwyddo hyd yn hyn i ddod o hyd i ddulliau cynaliadwy o gynorthwyo cymunedau gwledig i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu, ac mae arnynt angen meddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol

- 1 Oherwydd daearyddiaeth, pellter, cost a maint yr her, mae cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus teg a chyfartal, a chynnal darpariaeth arbenigol, mewn ardaloedd gwledig, yn fater heriol. Yn aml, gall traddodiad o gydnerthedd cymunedol cadarn a diwylliant o hunandibyniaeth mewn ardaloedd gwledig, guddio problemau sylweddol. Wrth golli conglfeini bywyd y pentref, megis banciau, ysgolion a Swyddfeydd Post, ac yn sgil mynediad gwan i seilwaith allweddol megis trafnidiaeth gyhoeddus a band eang cyflym, gall fod yn anoddach fyth cynnal gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig.

Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth 'Cymru Wledig':

Nid oes un diffiniad pendant y cytunwyd arno ar gyfer Cymru wledig. Mae'r dosbarthiad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn diffinio tua 20% o boblogaeth Cymru gyfan fel rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. At ddibenion yr astudiaeth hon, ac yn unol â fforwm polisi gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym yn dosbarthu naw awdurdod yn ardaloedd gwledig, 11 o awdurdodau yn rhai lled-wledig, a dau awdurdod yn rhai trefol, nad ydynt yn wledig.

GWLEDIG YN BENNAF

- 1 Sir Gaerfyrddin
- 2 Ceredigion
- 3 Conwy
- 4 Sir Ddinbych
- 5 Gwynedd
- 6 Ynys Môn
- 7 Sir Fynwy
- 8 Sir Benfro
- 9 Powys




LLED-WLEDIG/TREFOL

- 10 Blaenau Gwent
- 11 Pen-y-bont ar Ogwr
- 12 Caerffili
- 13 Sir y Fflint
- 14 Merthyr Tudful
- 15 Castell-nedd Port Talbot
- 16 Rhondda Cynon Taf
- 17 Abertawe
- 18 Torfaen
- 19 Wrecsam
- 20 Bro Morgannwg



CWBL DREFOL

- 21 Caerdydd
- 22 Casnewydd



- 2 Er 2010-11, mae cynghorau wedi wynebu cyfyngiadau ariannol sylweddol. Gwelwyd refeniwiau net o grantiau Llywodraeth Cymru, ardrethi busnes a'r dreth gyngor a gesglir, yn gostwng 7.5% rhwng 2009-10 a 2016-17 (heb gynnwys ffioedd a thaliadau), ac mae hyn gywerth â £529 miliwn¹. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif bod cyni ariannol wedi arwain at dorri gwariant cynghorau dros £1 biliwn mewn telerau go iawn a cholli 25,000 o swyddi ers 2010-11². O ganlyniad i effaith y cyni ariannol ar ddarparu gwasanaethau, mae cynghorau yn wynebu dewisiadau anodd ac mae arnynt angen adnabod modelau gwasanaeth gwahanol a ffyrdd newydd o weithio, er mwyn cynnal gwasanaethau a'u diogelu.
- 3 Dan ei [Rhaglen Lywodraethu 2016-2021](#), un o'r canlyniadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau 'Cymunedau Gwledig Llwyddiannus, Cynaliadwy'. Dan y canlyniad hwn, mae yna dargedau a champau gweithredu penodol i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol³. Yn yr adroddiad hwn, asesir y modd y mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ar gyfer cymunedau gwledig, a'r modd y mae cynghorau'n gweithio gydag eraill. Ystyrir hefyd a ydynt yn cyflawni'r canlynol:
- a gosod blaenoriaethau clir ar gyfer gwasanaethau i gymunedau gwledig ar sail dealltwriaeth o'r anghenion a'r galw;
 - b gwneud y defnydd gorau o adnoddau, trwy ddatblygu modelau newydd, ar y cyd, ar gyfer darparu gwasanaethau megis gwasanaethau porth neu hybiau cymunedol a gwasanaethau ar y cyd er enghraifft;
 - c gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau, cyd-leoli a/neu drosglwyddo a defnyddio asedau;
 - d cefnogi dinasyddion i feithrin cydnerthedd a hunanddibyniaeth; a
 - e ffurfio golwg mwy hirdymor, ar sail lle, ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau.
- 4 Ceir ein dulliau adolygu yn **Atodiad 1**. Ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad **nad yw cynghorau'n llwyddo hyd yn hyn i ddod o hyd i ddulliau cynaliadwy o gynorthwyo cymunedau gwledig i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu, a bod arnynt angen meddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol.**

1 www.walespublicservices2025.org.uk/files/2017/11/Austerity-and-Local-Government.pdf

2 www.wlga.wales/local-government-settlement-the-war-of-attrition-continues-says-wlga

3 Mae Blaenoriaeth 4 yn ymwneud â chyrrff cyhoeddus yn cefnogi prosiectau dan arweiniad y gymuned, hyrwyddo datblygiad sgiliau, creu swyddi, entrepreneuriaeth, ynni cymunedol, trafnidiaeth wledig a mynediad at fand eang. Ffocws Blaenoriaeth 5 yw diogelu tai cymdeithasol mewn cymunedau gwledig trwy roi diwedd ar Hawl i Brynu a pharhau i gefnogi gwaith yr Hwyluswyr Tai Gwledig.

Ein canfyddiadau

- 5 I lawer o bobl yng Nghymru wledig, mae'n lle gwych i fyw ac i weithio. Serch hynny, o ganlyniad i leihad mewn gwariant cyhoeddus ynghyd â newidiadau cymdeithasol ac economaidd, seilwaith gwan a heriau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, mae gwasanaethau yn llai hygyrch ac yn llai effeithiol o gymharu ag ardaloedd trefol.
- 6 Yn **Rhan 1** yn yr adroddiad hwn, archwilir y newid yn wyneb Cymru wledig, ac edrychir ar heriau demograffig wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwasgaredig mewn ardaloedd gwledig. Mae colli conglfeini bywyd y pentref – banciau a Swyddfeydd Post, er enghraifft – a seilwaith gwan, wedi cael effaith andwyol ar gymunedau gwledig.
- 7 Yn **Rhan 2** archwilir y modd y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r her o gynllunio a darparu gwasanaethau yng Nghymru wledig ar hyn o bryd. Gwelwn, yn rhy aml, fod cyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig a threfol yn creu ac yn darparu gwasanaethau sy'n cael eu teilwra ar sail eu cyd-destun trefol. Er bod amrywiadau sylweddol yn yr amgylchedd lleol, dewisiadau polisi a strwythurau gweithredol cynghorau, mae yna symudiad graddol hefyd tuag at gysoni a chanoli ar sail y ddirnadaeth y gellir rheoli costau a chynyddu effeithlonrwydd. Mae cyrff cyhoeddus yn parhau i gynnig 'un ateb i bawb' ac mae hyn yn creu 'anhydraddoldeb gwledig' ac yn ei atgyfnerthu⁴.
- 8 Yn olaf, daw **Rhan 3** i'r casgliad bod ar gyrff cyhoeddus angen cydweithio, yn wyneb lleihad mewn adnoddau, cynnydd yn y galw a heriau cymhleth wrth ddarparu gwasanaethau, er mwyn penderfynu sut i osod blaenoriaethau a sut i ddarparu gwasanaethau llinell flaen os ydynt yn mynd i fodloni anghenion hirdymor dinasyddion. Wrth gwblhau ein hadolygiad, rydym wedi gweld bod cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol ac i ddarparu atebion a fydd yn llwyddo i ddiwallu anghenion Cymru wledig yn well yn y dyfodol. Efen allweddol wrth fynd ati i drechu'r her hon, yw gwireddu gwasanaethau cydlynol ac integredig er mwyn uchafu'r defnydd o adnoddau ac ansawdd y broses o gyflenwi gwasanaethau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen cydgysylltiad a chydweithrediad rhwng darparwyr y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac mae hyn yn cynnwys datblygu hybiau amlbwrpas, traws-sector. Mae ar gyrff cyhoeddus angen gwneud mwy i arfogi dinasyddion a chymunedau i fod yn fwy cydnerth a hunanddibynnol hefyd, wrth i arian cyhoeddus barhau i leihau.

4 Wrth grybwyll anhydraddoldeb gwledig, yr hyn a olygir yw'r anghydbwysedd a'r gwahaniaeth gwirioneddol rhwng ansawdd, hygyrchedd a fforddiadwyedd y gwasanaethau a ddarperir mewn ardaloedd gwledig, a rhai trefol, a'r ddirnadaeth ynghylch yr anghydbwysedd a'r gwahaniaeth rhwng yr elfennau hyn. Trwy fynd ati i gynnig 'un ateb i bawb', mae'n bosibl y mygir unrhyw arloesi, ac y gweithir yn erbyn symudiadau polisi cyfredol tuag at bersonoli gwasanaethau, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol. Trwy gymryd golwg rhy gyffredinol o'r galw am wasanaethau ac anghenion pobl, mae'n bosibl y rhwystrir y broses o dargedu adnoddau sy'n mynd yn fwy a mwy prin, ac mae'n bosibl hefyd y rhwystrir gweithgarwch atal. Gall gyfyngu ar ddewisiadau personol pobl. Nid yw 'un ateb i bawb' yn ddatrysiad i amrywiadau mewn polisi ac anghysondebau rhwng gwasanaethau.

Argymhellion

- 9 Rydym wedi cynnig argymhellion ar gyfer gwelliant, ac maent wedi eu nodi isod.

Argymhellion

- A1 O ganlyniad i newidiadau cymdeithasol ac economaidd, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol. (**Gweler paragraffau 1.2 i 1.16**) **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy:**
- adfywio rhaglenni grant gwledig er mwyn creu strwythurau ariannol cynaliadwy, gyda dyraniadau aml-flwyddyn; a
 - chynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy raglenni cymorth busnes ac addysg oedolion mwy effeithiol, wedi eu targedu.
- A2 Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (**gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31**). **Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:**
- asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a
 - sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gyd-gynhyrwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.
- A3 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (**gweler paragraffau 3.1 i 3.12**). **Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:**
- sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a
 - defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau.

Argymhellion

A4 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (**gweler paragraffau 3.1 i 3.12**). **Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:**

- **weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;**
- **darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;**
- **gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;**
- **annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;**
- **galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a**
- **gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli.**

Rhan 1 – O ganlyniad i newidiadau cymdeithasol ac economaidd, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd y darperir gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol.

1.1 Mae gwasanaethau cyhoeddus yn allweddol wrth gynorthwyo dinasyddion, a'u gwarchod, ac yn draddodiadol mae eu ffocws wedi bod ar ddatrys problemau. Fodd bynnag, mae yna lu o heriau y mae sector cyhoeddus Cymru yn eu hwynebu yn yr 21ain ganrif. Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried goblygiadau'r newid yn wyneb Cymru wledig, gan edrych ar effaith newid i'r boblogaeth, cyflogaeth a thai yn y gorffennol diweddar. Rhown ystyriaeth hefyd i'r her o ran seilwaith wrth geisio darparu gwasanaethau cyhoeddus, a gwasanaethau eraill, i gymunedau gwasgaredig yng Nghymru wledig – ansawdd heolydd, mynediad at fand eang a darparu gwasanaethau allweddol megis banciau a Swyddfeydd Post. Rhown ystyriaeth hefyd i farn dinasyddion am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn lleol a newidiadau diweddar. Yn aml, mae yna gysylltiad rhwng yr heriau hyn, ac maent yn diffinio'r amgylchedd gweithredol y mae cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau ynddo.

Gwelwyd newid demograffig a heriau wrth annog cyflogaeth yn cael effaith ar gynaliadwyedd cymunedau a gwasanaethau.

Mae cymunedau gwledig yn heneiddio'n gyflymach a chyfradd creu tai newydd yn arafu, fwy nag yn rhannau eraill o Gymru.

1.2 Yn sgil newidiadau demograffig, mae yna fwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan straen, megis gofal cymdeithasol, wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu. Yn ogystal, oherwydd diboblogi a chymdeithas sy'n heneiddio mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, mae gwasanaethau lleol yn dod yn llai ymarferol. Mae gan ddemograffeg Cymru wledig ac, yn benodol, y nifer cynyddol o bobl hŷn, oblygiadau ar gyfer y dyfodol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus – er enghraifft mwy o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol a thai. Rhwng 2012 a 2016, mae pob un o'r naw cyngor sy'n rhai gwledig yn bennaf wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl dan 18 a chynnydd yn nifer y bobl dros 65. Er y bydd pob ardal wledig yn gweld cynnydd yn nifer yr aelwydydd yn eu hardal erbyn 2035, bydd wyth o'r naw awdurdod lleol sy'n rhai gwledig yn bennaf yn gweld aelwydydd newydd yn ffurfio ar raddfa lai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae Daffodil⁵ yn darogan y bydd y duedd hon yn parhau am yr 20 mlynedd nesaf.

5 System we-seiliedig yw Daffodil. Datblygwyd gan Institute of Public Care ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae'n tynnu ynghyd yn un lle yr wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn cynllunio gwasanaethau gofal, cymorth a thai yn y dyfodol.

Mae'r diffyg swyddi â chyflogau da, ac anhawster creu a chynnal cyflogaeth, wedi annog pobl ifancach i symud i ffwrdd.

- 1.3 Yn ein dadansoddiad, tynnir sylw at y ffaith fod economi Cymru wledig yn gwneud yn dda mewn rhai agweddau. Gwelwyd mwy o gynnydd yng nghyfradd gyflogaeth awdurdodau sy'n rhai gwledig yn bennaf er 2007-08 o'u cymharu â rhannau eraill o Gymru, ac yn yr holl ardaloedd gwledig (ac eithrio Ceredigion) ar lefelau sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Ar y cyfan, mae llai o bobl yng Nghymru wledig yn economaidd anweithgar, yn ddi-waith neu'n cael budd-daliadau lles, o gymharu ag ardaloedd eraill o'r wlad⁶.
- 1.4 Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae Cymru wledig yn wynebu rhai heriau economaidd sylweddol. Gall fod yn anodd datblygu a chynnal economi sgiliau uchel, gan fod y farchnad lafur yn gymharol fach ac yn aml gall fod yn anodd sicrhau gweithlu â'r sgiliau cywir i ddenu buddsoddiad o'r tu allan. Mae busnesau newydd yn llai amlwg mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol. Er bod chwech o'r naw awdurdod sy'n rhai gwledig yn bennaf wedi gweld mwy o fusnesau'n cael eu creu nag sydd wedi cau yn ystod 2016, mae cyfradd y twf wedi bod yn lleihau'n raddol ers 2013 a gwelwyd gostyngiad yn nifer y mentrau busnes actif fesul 10,000 o'r boblogaeth yn wyth o'r naw awdurdod sy'n rhai gwledig yn bennaf rhwng 2008 a 2016.
- 1.5 Ym mwyafrif cymunedau Cymru, gwelwyd enillion wythnosol gros cyfartalog (cymedrig) yn cynyddu ers 2012, ond mae gan saith o'r naw awdurdod sy'n rhai gwledig yn bennaf gyflogau wythnosol cyfartalog sy'n is na'r cyfartaledd i Gymru gyfan ac, yn Sir Benfro, mae enillion wedi gostwng⁷. Wrth gymharu, mae gan Gymru wledig enillion is ac mae'r bwlch rhwng y siroedd â'r enillion cyfartalog isaf ac uchaf yn cynyddu.

6 www.nomisweb.co.uk/articles/1048.aspx

7 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/averageweeklyearnings-by-welshlocalareas-year>

- 1.6 I raddau helaeth mae economi Cymru wledig yn dueddol o fod yn bobl hunangyflogedig a busnesau llai. Yn 2016-17, roedd lefelau hunangyflogaeth yn y naw awdurdod sy'n rhai gwledig yn bennaf yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Dim ond un awdurdod arall (Torfaen) sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru⁸. Dengys y data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cyfran uwch o'r gweithlu wedi'u cyflogi mewn busnesau micro (rhwng 1 a 9 o gyflogeion) a bach (rhwng 10 a 49 o gyflogeion) yng Nghymru wledig o gymharu â rhannau eraill o'r wlad⁹. Er enghraifft, yn 2017, gweithiai 40.1% o'r gweithlu ym Mhowys mewn busnesau micro o gymharu â 13.8% yng Nghaerdydd.
- 1.7 Dengys ymchwil fod pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o gael gwaith am dâl isel, cyflogaeth ansicr neu waith mewn cwmnïau llai o'u cymharu â'u cywerth mewn ardaloedd trefol. Her benodol i bobl ifanc yw anhawster wrth symud ymlaen yn eu gwaith oherwydd crynodiad cwmnïau bach, sy'n cynnig cyfleoedd cyfyngedig i bobl ifanc uwchraddio'u sgiliau a symud ymlaen. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu 'gwithio' i ffwrdd o ardaloedd gwledig oherwydd diffyg cyfleoedd a chyflogau is, a'u bod yn cael eu 'tynnu' tuag at ardaloedd trefol am fod gwell cyfleoedd swyddi yno, cyfleoedd i symud ymlaen yn eu gwaith a chyflogau uwch¹⁰.

Mae seilwaith gwan a newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau a chyfleusterau allweddol eu darparu wedi cael effaith andwyol ar gymunedau gwledig

- 1.8 Rhagofynion allweddol wrth greu cymunedau gwledig cynaliadwy yw sicrhau rhwydwaith o heolydd o ansawdd da, sydd wedi eu cysylltu'n dda, trafndiaeth gyhoeddus reolaidd a rhad, tai fforddiadwy, gwasanaethau cyhoeddus a phreifat hygyrch a gwasanaeth band eang rhagorol. Mae'r blociau adeiladu hyn yn cysylltu pobl at y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen fel eu bod yn gallu ffynnu a thyfu. Serch hynny, codwyd pryderon gan ddinasyddion a holwyd gennym, fod sylfeini bywyd gwledig, sef pethau sy'n cyfrannu i sicrhau bod eu cymuned yn lle gwych i fyw ac i weithio, ynghyd ag effaith toriadau mewn gwariant cyhoeddus ac ansicrwydd economaidd parhaus, wedi newid eu cymunedau dros y blynyddoedd diwethaf, ac nid er gwell bob tro.

8 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography>

9 www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/bulletins/ukbusinessactivitysizeandlocation/2017

10 www.dera.ioe.ac.uk/15199/1/Barriers-to-education-employment-and-training-for-young-people-in-rural-areas.pdf

Mae seilwaith trafnidiaeth gwan wedi effeithio ar allu dinasyddion i gael mynediad at gyfleusterau, gwasanaethau a gwaith.

- 1.9 Er bod ansawdd heolydd ledled Cymru yn gwella, awdurdodau yng Nghymru wledig sydd â heolydd o'r ansawdd isaf¹¹. Mae awdurdodau gwledig hefyd yn rhychwantu swmp rhwydwaith heolydd Cymru, a hynny'n anghyfrannol, gyda 66.3% o'r heolydd yn y naw awdurdod sy'n rhai gwledig yn bennaf. Dywedodd tua 56% o Gynghorau Tref a Chymuned wrth ymateb i'n harolwg fod heolydd mewn cyflwr gwael, ac adleisiwyd y canfyddiad hwn gan 31% o ddinasyddion a lenwodd ein holiadur.
- 1.10 Dengys ymchwil gan Campaign for Better Transport fod mwyafrif y cynghorau yng Nghymru wedi cynnal neu gynyddu buddsoddiad rhwng 2010-11 a 2016-17 ond, serch hynny, roeddent wedi gostwng eu gwariant ar lwybrau bysiau lleol £5.1 miliwn (24%). Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Mhowys, lle cynyddodd y gyllideb tua £690,000 a gwelwyd y toriad mwyaf yng Ngwynedd, lle'r oedd lleihad o dros £1 miliwn yn y gyllideb¹². Nododd y rheiny a ymatebodd i'n harolygon ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned fod yna lai o argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus o gymharu â'r gorffennol ac roeddent yn ofni y byddai'r dirywiad hwn yn parhau. Nododd dinasyddion mai Powys, Sir Fynwy a Cheredigion yw'r ardaloedd â'r drafnidiaeth gyhoeddus leiaf hygyrch. Yn yr un modd, tynnodd Cynghorau Tref a Chymuned ledled Cymru sylw at ddirywiad yn argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus gyda 50% o'r rheiny a ymatebodd yn dweud bod gwasanaethau wedi lleihau yn eu cymuned.

Mae dinasyddion yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a'u defnyddio oherwydd gwasanaeth band eang gwael.

- 1.11 Mae band eang cyflym iawn yn hanfodol i ddefnyddwyr a busnesau. Gall helpu gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion, a chefnogi cyrff cyhoeddus i newid sianeli gwasanaethau fel ei bod yn haws i ddinasyddion gael mynediad a'u defnyddio. Gall hefyd gynyddu effeithlonrwydd a sicrhau arbedion. Mae gwasanaethau digidol hefyd yn caniatáu i fusnesau ddarparu cyfleoedd i gyflogeion weithio'n hyblyg fel eu bod yn gallu gweithio o gartref a chael mynediad o bell i systemau'r cwmni, gan arbed costau a gostwng olion troed carbon.

11 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Lengths-and-Conditions>

12 www.bettertransport.org.uk/sites/default/files/research-files/2010_final_buscuts.pdf

- 1.12 Gwan yw seilwaith band eang y Deyrnas Unedig, ac mae gan Gymru'r cysylltiadau band eang gwannaf yn y Deyrnas Unedig. Ardaloedd gwledig Cymru sydd â'r mynediad gwannaf at wasanaethau. Mewn dadansoddiad o dros 63 miliwn o brofion cyflymder band eang ledled y byd, datgelwyd mai'r Deyrnas Unedig sydd yn yr 31ain safle, gyda chyflymder cyfartalog o 16.51 Mbps¹³. Mae saith o'r deng ward ym Mhrydain Fawr sydd â'r cyflymder lawrlwytho cyfartalog isaf, yma yng Nghymru ac yng Ngwynedd, Powys, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro¹⁴.
- 1.13 Mae canfyddiadau ein harolwg o Gynghorau Tref a Chymuned yn adleisio'r casgliadau hyn. Soniodd nifer o ymatebwyr am gyflymder gwael band eang cyflym iawn a thrafferthion parhaus wrth geisio cael mynediad at wybodaeth, llenwi ffurflenni a chyflwyno ceisiadau. O ganlyniad i wasanaeth band eang gwael, mae argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau yn llai, yn hytrach na'u bod yn well, yn enwedig gan fod cyngorau yn cynyddu'r gwasanaethau ar-lein a ddarperir ganddynt.

Mae cau banciau a Swyddfeydd Post wedi cael effaith andwyol ar lawer o gymunedau Cymru

- 1.14 Yn sgil twf gwasanaethau ar-lein a symudol, gwelwyd llai a llai o fanciau a Swyddfeydd Post. Mewn ymchwil gan Which amcangyfrifir bod 93 o fanciau wedi cau ers 2015¹⁵. O'r rhain, gwelwyd 50 o fanciau yn cau yn y naw awdurdod lleol gwledig, 36 mewn awdurdodau lleol gwledig/trefol cymysg a chwech yn ardaloedd yr awdurdodau trefol. Ym Mhowys, gwelwyd y nifer fwyaf yng Nghymru yn cau. Collwyd 11 o fanciau ers 2015. Yn yr un modd, mae darpariaeth y Swyddfeydd Post wedi lleihau ledled holl gymunedau Cymru ers 2007¹⁶. Mewn ymchwil gan Deloitte¹⁷ a Move your money¹⁸, tynnwyd sylw at y ffaith fod y mwyafrif o achosion o gau gwasanaethau yn digwydd yn yr ardaloedd hynny sy'n dibynnu fwyaf ar ganghennau banc a Swyddfeydd Post ac sydd fwyaf tebygol o ddiodeff effaith andwyol yn sgil eu cau. Er enghraifft, mae Deloitte yn categoreiddio nifer o ardaloedd yng Nghymru wledig fel 'cymunedau gwledig sy'n dirywio' a fydd yn gweld gwasanaethau pellach yn cau oherwydd 'llai o niferoedd yn defnyddio'r gwasanaethau a llai o alw am gynnyrch a gwasanaethau ariannol'.

13 Fe arfer, mynegir cyfraddau data cysylltiadau Rhynggrwyd cyflym, preswyl, modern, fel megabits yr eiliad (Mbps). www.docs.google.com/spreadsheets/d/1A8LDcCLY3HN5Oqys6VxB0ug8xgroDADVIA2BeAF_tSM/edit#gid=0

14 www.researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06643/SN06643.pdf

15 www.which.co.uk/news/2017/04/mapped-the-482-bank-branches-closing-in-2017/

16 Adroddiad Rhwydwaith Post Office Limited 2017; a www.researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN02585/SN02585.pdf

17 www2.deloitte.com/content/dam/Deloitte/uk/Documents/financial-services/deloitte-uk-bricks-and-clicks.pdf

18 www.drive.google.com/file/d/0BxHxIVSxtvx2YYRtLTZDdkI0a0E/view

Cafwyd anawsterau wrth geisio datblygu tai mewn rhai ardaloedd gwledig ac wrth geisio cael mynediad atynt.

- 1.15 Mewn ardaloedd gwledig, mae mwy o bobl yn berchen ar eu cartrefi nag sy'n eu rhentu. Yn y naw awdurdod lleol sy'n rhai gwledig yn bennaf, mae lefel y perchen-breswylwyr yn gyfwerth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, neu'n fwy na hynny, ond, ar y cyfan, mae lefelau tai cymdeithasol – a rentir gan gymdeithas tai neu gyngor – yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru . Yn ogystal, mae prisiau tai yn gyffredinol uwch mewn ardaloedd gwledig na chymunedau trefol. Er enghraifft, ym mis Mai 2018, cofnododd chwech o'r naw sir sy'n rhai gwledig yn bennaf, brisiau gwerthiant cyfartalog a oedd yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef £148,894²⁰. Mewn blynyddoedd diweddar, mae nifer y tai newydd a adeiladwyd yng Nghymru wledig wedi bod yn statig gan fwyaf, ond ym mhedwar o'r naw awdurdod sy'n rhai gwledig yn bennaf – Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Phowys – mae'r nifer o anheddau newydd a adeiladwyd wedi lleihau²¹.
- 1.16 Wrth ymateb i'n harolwg, tynnodd dinasyddion sylw at argaeledd tai, yn enwedig ar gyfer pobl ifancach, diffyg tai fforddiadwy a'r cynnydd mewn prisiau tai, fel problemau sydd ar gynnydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi awdurdodau i greu swyddi Hwyluswyr Tai Gwledig²² i gynorthwyo gyda datblygiad tai mewn cymunedau gwledig. Er gwaethaf y buddsoddiad yn y rôl bwysig hon, ni welwyd unrhyw gynnydd arwyddocaol yn y cyflenwad o dai fforddiadwy newydd ac mewn adroddiad diweddar tanlinellwyd mai 'y penbleth y mae pawb sy'n gysylltiedig â phrosiect yr Hwylusydd Tai Gwledig ynddo, yw bod cyflenwi tai fforddiadwy yng nghefn gwlad ar raddfa isel o hyd'²³.

19 <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-localauthority-tenure>

20 <https://www.gov.uk/government/publications/uk-house-price-index-wales-may-2018/uk-house-price-index-wales-may-2018>

21 <http://gov.wales/statistics-and-research/new-house-building/?lang=en>

22 Mae Hwyluswyr Tai Gwledig yn gweithio gyda chymunedau gwledig i adnabod angen lleol am gartrefi fforddiadwy ac yna'n gweithio gyda'r gymuned leol i ddod o hyd i gyfle addas i ddatblygu tai.

23 <http://rhewales.co.uk/images/user/Evaluation%20Rural%20Housing%20Enablers%20Wales%20Final%20Report%202014.pdf>

Yn gyffredinol, mae dinasyddion yn teimlo nad yw gwasanaethau allweddol y cyngor cystal ag yr oeddent o ran argaeledd, fforddiadwyedd, hygyrchedd, addasrwydd a derbynioldeb.

- 1.17 Credai'r dinasyddion a holwyd gennym fod gwasanaethau'r cyngor wedi dirywio yn y pum mlynedd diwethaf. Yn ôl 43% o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg o ddinasyddion, mae gwasanaethau'r cyngor wedi gwaethygu dros y pum mlynedd diwethaf, o gymharu â 39% a ddywedodd nad oeddent wedi newid. Dim ond 10% sy'n dweud bod gwasanaethau wedi gwella. Dywed 24% fod gwasanaethau'r cyngor yr oeddent yn eu defnyddio wedi dod i ben a dywed 10% fod gwasanaethau wedi eu cyfyngu erbyn hyn. Dywedodd ychydig o dan hanner y dinasyddion a ymatebodd i'r arolwg fod gwasanaethau'r cyngor y maent yn eu defnyddio yn anfforddiadwy iddynt.
- 1.18 Er iddynt gydnabod bod angen i bethau newid, mae gan ddinasyddion ymateb cymysg i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae ychydig dan hanner yn agored i'r syniad o annog cymunedau i redeg y gwasanaethau eu hunain, yn enwedig y rheiny mewn grwpiau oedran ifancach. Serch hynny, mae trigolion yn derbyn bod angen darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol yn y dyfodol ond roedd tua saith o bob deg o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg am weld gwasanaethau'r cyngor yn cael eu darparu fel y maent yn cael eu darparu nawr.
- 1.19 Gyda mwy a mwy o gyfyngu ar gyllidebau, mae dinasyddion yn llai positif wrth sôn am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus. Dim ond 29% sy'n cytuno y bydd eu cyngor lleol yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y dyfodol, ond mae mwyafrif y dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg yn amharod i dalu mwy o'r dreth gyngor. Mae'r Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd i'n harolwg yn cefnogi'r casgliadau hyn, yn enwedig wrth grybwyll fod cost gwasanaethau'r cyngor wedi cynyddu a bod lleihad mewn hygyrchedd ac argaeledd.

Arddangosyn 1: effaith newidiadau mewn gwasanaethau ar ddinasyddion a chymunedau yng Nghymru wledig.

Mae dinasyddion a chynghorwyr tref a chymuned wedi gweld lleihad mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wledig.

Sylwadau gan Ddinasyddion ynghylch newidiadau i wasanaethau cyhoeddus



Sylwadau gan Gynghorwyr Tref a Chymuned ynghylch newidiadau i wasanaethau cyhoeddus

'Canran isel o bobl yn defnyddio'r rhyngwrwyd a thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig.'

'Pobl hŷn a phobl ifanc dan anfantais am fod diffyg cyfleusterau'n lleol ac maent yn gorfod dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus, sy'n aneffeithlon ac yn anfynych.'

'Wedi cau gwasanaethau llyfrgell, mae wedi dod yn anoddach i bobl dalu eu treth gyngor a'u rhent am eu tŷ cyngor.'

'Pobl heb eu cludiant eu hunain ac yn methu â chyrraedd y gwaith ar amser ar drafndiaeth gyhoeddus. Bysiau ysgol yn aml yn hwyr. Pobl ifanc yn chwilio am waith ond nid yw eu rhieni'n gyrru felly nid yw'n hawdd mynd i'r gwaith. Ni allant fforddio teithio neu ni allant deithio ymhell i'r gwaith. Diffyg gwasanaethau bws, dim fferyllfa, dim meddyg lleol, dim llyfrgell, erbyn hyn mae byw yng nghefn gwlad yn golygu cael eich torri i ffwrdd i raddau llawer yn fwy, yn enwedig i bobl sy'n sâl neu'n oedrannus.'

'Rhaid i'r rheiny sy'n ddi-waith deithio ymhellach i gael cymorth; pobl ac arnynt angen cyngor e.e. menywod sy'n cael eu cam-drin yn y cartref, pobl ifanc, y rheiny sy'n gaeth i sylwedd... maent yn gorfod teithio ymhellach i gael cyngor a chymorth, ac nid yw trafndiaeth gyhoeddus yn rhad nac yn hygyrch iawn.'



Mae cynghorau wedi troi fwyfwy at Drosglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn arbed arian, ond nid yw hyn wedi bod yn ateb cynaliadwy bob tro.

- 1.20 Gyda llai o arian ar gael i gynnal asedau allweddol – er enghraifft neuaddau cymuned, caeau chwarae ac ystafelloedd newid – mae cynghorau'n cau neu'n gwerthu asedau cymunedol er mwyn mantoli'r cyfrifon. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r cyfleusterau hyn yn aml yn elfen allweddol o fywyd y pentref, ac maent yn gymorth i gymunedau ffynnu a goroesi. Yn hytrach na chau amwynderau, un opsiwn y gall cynghorau ei ystyried yw Trosglwyddo Asedau Cymunedol²⁴. Mae'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn dangos pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn cefnogi ac yn annog cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain ac i warchod gwasanaethau.
- 1.21 Gwelsom fod mwy o asedau cymunedol yn cael eu trosglwyddo. Dywedodd pump ar hugain y cant o'r rheiny a ymatebodd i'n harolwg o Gyngorau Tref a Chymuned eu bod wedi bod ynghlwm â throsglwyddo gofodau agored, 19% mewn trosglwyddo neuadd bentref neu gymuned, 9% mewn safleoedd bysiau, ac roedd 2% wedi ymwneud â'r broses o drosglwyddo goleuadau stryd. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r cyngor wedi trosglwyddo 55 ased, gan gynnwys wyth canolfan gymunedol a naw llyfrgell, i reolaeth y gymuned ac mae'n cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol. Yn ôl ymchwil gan Locality²⁵, mae yna nodweddion cyffredin ymhlith y cyrff cyhoeddus sy'n dda am drosglwyddo asedau. Yn benodol, arweiniad cefnogol o ansawdd da, gyda phrosesau byr o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer goruchwyllo a chymeradwyo achosion. Yn allweddol, mae llwyddiant trosglwyddiad wedi'i seilio ar gyfrifoldeb a rennir; gan y cyngor sy'n trosglwyddo'r ased, ond hefyd gan y grŵp cymunedol a'r corff sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb.

²⁴ Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn golygu trosglwyddo perchenogaeth neu reolaeth tir ac adeiladau ac mae'n gyfle i gyrff cyhoeddus gynnal gwasanaethau a helpu cymunedau gwledig i ddatblygu mwy o hunanddibyniaeth.

²⁵ <http://locality.org.uk/services-tools/support-for-community-organisations/ownership-and-management-of-land-and-buildings>

- 1.22 Rydym yn bryderus nad yw cynghorau yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau trosglwyddiad llyfn a chreu etifeddiaeth gynaliadwy. Er enghraifft, gallai'r cynghorau wneud mwy i feithrin gallu yn eu cymunedau er mwyn iddynt allu mabwysiadu asedau a'u cynnal yn llwyddiannus. Dim ond saith cyngor sy'n rhoi cymorth i grwpiau cymunedol a'r rheiny y gellir trosglwyddo asedau iddynt o ran meithrin gallu, hyfforddiant, mentora a chymorth ariannol, ac o'r rhain mae pedwar ohonynt yn rhai gwledig yn bennaf. Dim ond 15% o'r Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd i'n harolwg ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros ased a dderbyniodd ryw fath o gymorth ariannol gan eu cyngor, a dim ond 10% gafodd gymorth ar ôl trosglwyddo. Gyda mwyafrif yr asedau a drosglwyddwyd, mae'r Cynghorau Tref a Chymuned yn cymryd yr ased ymhob ffydd ac yn aml yn teimlo bod yn rhaid iddynt dderbyn yr ased hyd yn oed os nad oes ganddynt y sgiliau, y gallu neu'r adnoddau i gynnal yr ased.
- 1.23 Yn aml, nid oes digon o fanylder ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar drosglwyddo asedau mewn templedi achos busnes a pholisïau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, ac, yn benodol, ni roddir digon o sylw, na sylw digon manwl, i'r angen i ddangos eu bod yn iach yn ariannol a bod ganddynt hanes o lwyddo. Dim ond pum cyngor sy'n dangos y ffordd at ganllawiau arbenigol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol gan Lywodraeth Cymru ac eraill ar gyfer grwpiau cymunedol. Yn aml, nid oes gofyn i ymgeiswyr nodi sut y bydd y gwasanaethau a ddarperir yn newid neu beth fydd effaith trosglwyddo'r ased ar warchod a hybu'r Gymraeg. Gwelir yn rhy aml fod cynghorau'n cynnig 'un ateb i bawb' ac nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng maint yr ased i'w drosglwyddo. Yn gyffredinol, cynghorau sy'n cychwyn ac yn annog y trosglwyddo, ond nid yw'r risgiau ynghlwm â chymryd ased yn cael eu cyflwyno mewn ffordd dryloyw bob tro. Yn aml, nid yw cynghorau'n gofyn am achos busnes ac nid oes ganddynt asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i gefnogi'r trosglwyddiad.
- 1.24 Gweler ein hadroddiad manylach ar [Drosglwyddo Asedau Cymunedol](#).

26 Yng Nghanllawiau Arferion Gorau Llywodraeth Cymru, ceir gwybodaeth dda ac adnoddau defnyddiol i annog cynghorau i gydweithio â grwpiau cymunedol i feithrin gallu ac i sicrhau bod modd trosglwyddo'n llwyddiannus: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/160310-community-asset-transfer-env2.pdf>.

Rhan 2 – Nid yw cynghorau a'u partneriaid yn ymateb yn effeithiol bob tro i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu.

2.1 Yn yr adran flaenorol, rydym wedi tynnu sylw at yr anawsterau y mae cynghorau a'u partneriaid yn eu hwynebu, ac y mae arnynt angen eu goresgyn, wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig. Nid bwlch ffisegol neu ddigidol yn y seilwaith yn unig y mae'r pentrefi yn eu hwynebu; maent hefyd yn wynebu bwlch cymdeithasol a chyhoeddus. Er mwyn adnewyddu Cymru wledig mae ar gyrrff cyhoeddus angen cydweithio'n strategol ac yn ddoeth er mwyn deall y bylchau hyn a rhoi sylw iddynt. Ni all asiantaethau unigol ddatrys y problemau ar eu pennau eu hunain. Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn adolygu'r modd y mae cynghorau a'u partneriaid yn bwriadu cefnogi a chynnal eu cymunedau gwledig yn y dyfodol, trwy waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn adolygu ansawdd asesiadau angen, effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth, effaith ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion wrth osod blaenoriaethau a chymau gweithredu, a'r dull o gydweithio ac integreiddio gwasanaethau. I ddwyn yr adran hon i fwcl, ceir asesiad o'r modd y mae cyrrff cyhoeddus yn gwerthuso effaith wrth benderfynu ar ddewisiadau yn y dyfodol.

Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol i Gymru wledig

2.2 Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y 'Ddeddf') mae trefniadau partneriaeth yng Nghymru yn newid. Mae creu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gymorth i gryfhau'r cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus. Mae gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gwblhau asesiadau llesiant ac adnabod meysydd lle y gall y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael y mwyaf o effaith ar y cyd (tuag at nodau llesiant) trwy gydweithio. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, felly, yn cynnig y cyfle i symud o gynllunio fel sefydliadau niferus a gweithio yn unigol, i greu strategaethau sengl ar sail lle.

- 2.3 Nodwyd rhai dulliau gweithredu cadarnhaol sy'n creu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a fynegir yn dda. Er enghraifft, mae Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol Sir Fynwy²⁷ yn cydnabod y cymunedau gwahanol yn y sir yn ogystal â'r ffordd y mae diwallu anghenion, a'r galw, yn amrywio, yn benodol i gymunedau lleol ac yn gofyn am ymatebion gwahanol. Serch hynny, wrth gymharu, mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i gynnig un ateb i bawb, ar sail cymhwysra cyffredinol a modelau cyflenwi canolog. Gwelir nifer o ddiffygion mewn Cynlluniau ac Asesiadau Llesiant wrth ystyried ardaloedd gwledig. Gwelir yn rhy aml eu bod yn gynllun i wneud cynllun, ac nad ydynt wedi symud ymlaen o ddadansoddi'r sefyllfa gyfredol, tuag at osod cydweledigaeth ar sail camau gweithredu i sicrhau gwelliannau. Yn y Cynlluniau Llesiant a archwiliwyd gennym, roedd y camau gweithredu yn eangfrydig iawn, ac yn aml nid yw'n glir pwy fydd yn gwneud beth, neu sut y bydd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn gwella o ran pa mor ddigonol, hygyrch, ar gael, fforddiadwy neu dderbyniol y maent.
- 2.4 Ni ddatblygir yn ddigonol y cyfleoedd i gydweithio ac i integreiddio gwasanaethau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau, neu ni eir ar drywydd y cyfleoedd hyn. Er iddynt gydweithio mewn blynyddoedd diweddar, nid yw partneriaid allweddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi egluro'r hyn y maent wedi'i ddysgu hyd yn hyn trwy edrych i weld beth sy'n gweithio'n dda a pham y mae'n gweithio'n dda. Nid oedd yr Asesiadau Llesiant a archwiliwyd gennym yn ystyried gwariant yn y dyfodol a'r cyfleoedd i gronni cyllidebau. Yn ogystal, gwelir yn aml nad yw'r Asesiadau'n rhoi sylw digonol i allu gwasanaethau, effeithiau gwaith atal, opsiynau ar gyfer gwelliant a gwybodaeth ar wariant a chyllidebau.
- 2.5 Nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn llwyddo bob tro i asesu galluoedd gwasanaethau cyfredol nac i adnabod cyfraniad posibl y sector preifat a'r trydydd sector. Mae mentrau cymdeithasol yn cynnig ateb i'r her o fynd i'r afael â gwasanaethau gweddilliol, a hwnnw'n ateb a arweinir gan y gymuned. Maent yn opsiwn arbennig o bwysig y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gefnogi, ond gan fwyaf ni roddir ystyriaeth i'w rôl. Wrth gwrs, mae yna risgiau neu heriau wrth sefydlu neu gynnwys mentrau cymdeithasol – cymysg yw'r hanes o lwyddo ac mae cynghorau wedi colli amser ac arian yn ceisio'u cefnogi.

27 <https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s13975/180418%20Draft%20Social%20Justice%20Strategy%20V5%20Appendix%20A%20180502.pdf>

- 2.6 Serch hynny, gyda mwy a mwy o bwysau ar y pwrs cyhoeddus, ac ymrwymiad gan y rheiny sy'n llunio polisïau i gynllunio gwasanaethau ar sail anghenion dinasyddion, mae'n glir fod gan y sector preifat, y trydydd sector a mentrau cymdeithasol ran bwysig a chynyddol i'w chwarae. Maent yn cynnig yr hyblygrwydd i ffrwyno ac i wella ansawdd, ac i arloesi, ond mae ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus angen integreiddio gwasanaethau yn y man lle cânt eu darparu, er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf addas a'i gefnogi, boed hynny o'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.
- 2.7 Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lawer i'w wneud er mwyn gwella perthnasoedd gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Dim ond 11% o Gynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd fod ganddynt berthynas weithio dda gyda'u Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, o gymharu â 66% o ymatebwyr a deimlai fod ganddynt berthynas dda gyda'u cyngor. Dywedodd bron traean o'r ymatebwyr o blith y Cynghorau Tref a Chymuned nad oeddent yn deall rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r arfer o ddadansoddi data er mwyn deall problemau a chytuno ar atebion addas, yn wan.

- 2.8 Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio data er mwyn deall yr heriau y mae arnynt angen rhoi sylw iddynt ac er mwyn adolygu eu perfformiad yn y gorffennol. Mae rhai o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin – hefyd yn cydweithio ac mae ganddynt ganllawiau llesiant a grëwyd ar y cyd, Fframwaith Methodoleg ar y Cyd, ac maent yn rhannu adroddiadau, data a gwybodaeth yn weithgar. Mae sawl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynllunio i fapio'r holl wasanaethau ac asedau cymunedol – er enghraifft Sir Benfro, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Bro Morgannwg – i adnabod y ffordd orau o ddefnyddio asedau a darparu gwasanaethau yn y ffordd orau bosibl, ar y cyd. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, Powys a Chonwy a Sir Ddinbych strategaethau gwybodaeth i wella'r modd y maent yn casglu dada ac yn ei ddadansoddi.

- 2.9 Serch hynny, daethom ar draws rhai gwendidau cyffredin yn y dulliau gweithredu cyfredol hefyd. Ni nodir yr achosion wrth wraidd problemau mewn cymunedau gwahanol, oherwydd yn aml caiff data eu casglu, eu rheoli a'u dadansoddi yn unigol a/neu ar lefel sirol yn unig. Yn aml, yn sgil hyn, nid yw sefydliadau'n llwyddo i weld yr heriau gwahanol mewn ardaloedd gwledig amrywiol. Mae cynghorau yn cydnabod nad yw eu data yn gadarn, a'u bod yn gyfyngedig, ac nad oes ganddynt y sgiliau na'r capasiti i wneud y defnydd gorau o ddata.
- 2.10 Prin y gwelir sut y mae cyrff cyhoeddus yn deall natur amrywiol eu cymunedau gwledig. Er enghraifft, yn yr Asesiadau a'r Cynlluniau Llesiant hynny sy'n crybwyll materion gwledig, mae seilwaith yn faes cyffredin lle mae angen gweld gwelliant, ond prin yw'r camau gweithredu penodol yn y Cynlluniau i wella'r seilwaith, er enghraifft gwella ffyrdd a llwybrau beicio, integreiddio trafniadaeth gyhoeddus ac ehangu rhwydweithiau band eang.

Nid yw'r cynghorau yn tynnu ar eu cymunedau bob tro i'w helpu i flaenoriaethu eu gwasanaethau a'u darparu

- 2.11 Wrth gynnwys partneriaid a'r cyhoedd i ddatblygu ac i deilwra'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ac yn eu cael, gellir sicrhau dewis eang o fuddion: i gyrff cyhoeddus, i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig, ac i'r gymdeithas yn ehangach. Wrth ymgysylltu â grwpiau allweddol ar gam cynnar, gellir teilwra dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn fwy ystyrlon a defnyddiol i'r bobl sy'n eu defnyddio, ac, o ganlyniad, yn mynd i gael effaith fwy cadarnhaol. Gall cyfathrebu ac ymgysylltu'n dda hefyd ysgogi diddordeb ac annog mwy o bobl i fod yn rhan o'r broses o deilwra gwasanaethau a'u darparu.
- 2.12 Mae sawl Asesiad Llesiant yn nodi'r potensial ar gyfer cyfalaf cymdeithasol a gwirfoddol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yn cydnabod bod llawer o bobl yn barod i wirfoddoli, ac mae'r ffocws ar annog cyfalaf cymdeithasol yng Nghynllun Llesiant Sir Fynwy yn gryfder penodol y gellid adeiladu arno. Mae canfyddiadau ein harolwg o ddinasyddion yn tynnu sylw at fuddion posibl cyfalaf cymdeithasol, gyda thua hanner y bobl a arolygwyd yn agored i'r syniad o annog cymunedau i redeg gwasanaethau eu hunain, yn enwedig y rheiny mewn grwpiau oedran ifancach (61% o bobl ifanc 16-34 oed).

- 2.13 Yn aml, mae gwaith ymgysylltu yn digwydd trwy sianeli sydd wedi'u sefydlu. Er enghraifft, wrth geisio trechu unigrwydd ac ynysu mewn ardaloedd gwledig, roedd y cyfraniad cymunedol yn cynnwys digwyddiadau traddodiadol, ymgynghori ar-lein a rhai ymgyrchoedd sylfaenol yn y cyfryngau cymdeithasol. Lle mae ymgysylltiad ar waith, mae'r ffocws ar faterion untro gan amlaf, yn hytrach na gyrru newid sylfaenol yn y dull gweithredu. Nid oes ymdrech reolaidd i fynd ar drywydd ffyrdd eraill o ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd; er enghraifft, defnyddio rhaglen o arolygon wedi eu targedu ar gyfer croestoriad cynrychiadol o'r gymuned, postio arolygon allan yn rheolaidd gyda biliau'r dreth gyngor neu ohebiaeth arall, ac archwilio themâu cyffredin mewn gohebiaeth a chyswllt cymunedol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- 2.14 Ceisiodd sawl corff cyhoeddus ymgysylltu'n well â'r cyhoedd trwy ddatblygu safonau a dulliau gweithredu corfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a canllawiau a phecyn cymorth mewnol tîm ymgysylltu canolog Cyngor Sir Gwynedd i gefnogi gwasanaethau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau, a'i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd dan egwyddorion Ffordd Gwynedd.
 - b sefydlodd Heddlu Dyfed Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 'safonau rhagoriaeth gwasanaethau cwsmeriaid' ac maent yn monitro'r modd y darperir eu gwasanaethau yn eu herbyn. Mae hyn yn sicrhau bod modd i'r gwasanaeth roi sylw i broblemau wrth iddynt ddod i'r amlwg.
 - c ar y cyd â phrosiect Lleisiau Cymunedol Medrwn Môn (menter trydydd sector), mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig wrth adolygu gwasanaethau. Yn ogystal, mae Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori'r cyngor hefyd yn mapio dulliau ymgysylltu er mwyn pennu beth sy'n gweithio a pham y mae'n gweithio, i ddarparu adnoddau pellach sy'n cefnogi gweithgareddau ymgysylltu perthnasol.
 - ch dull ymgysylltu cymunedol Cyngor Bro Morgannwg, sy'n defnyddio offeryn mapio cymunedol, er mai dim ond mewn pedair cymuned yr oeddent wedi gwneud hyn adeg ein hadolygiad, ac nid oedd wedi cael ei estyn allan i bob cymuned yn yr ardaloedd gwledig.
 - d y rhaglen LEADER a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annog grymuso trwy ddatblygu strategaethau lleol a dyrannu adnoddau. Ar hyn o bryd, mae yna 18 Grŵp Gweithredu Lleol yng Nghymru sy'n rhychwantu wardiau cymwys mewn 21 ardal Awdurdod Lleol²⁹.

²⁹ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/leader/?lang=en>

- 2.15 Neges gref a chdir gan ddinasyddion yw nad yw cynghorau'n cyfathrebu eu gweledigaeth ynghylch gwasanaethau'r dyfodol yn dda gyda chymunedau, er mwyn i bobl wybod beth fydd ar gael, a'r rôl y gall y gymuned ei hun ei chwarae. Nid yw mwyafrif y trigolion wedi cael y cyfle i leisio'u barn. Yn ein harolwg o ddinasyddion, gwelwyd nad yw mwyafrif yr ymatebwyr (83%) wedi llenwi holiadur nac wedi cael eu holi am eu barn ar y gwasanaethau y maent wedi eu defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 2.16 Mae ein canfyddiadau'n awgrymu nad yw Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu defnyddio er mwyn deall angen, ac mae hyn yn peri pryder o ystyried eu cysylltiadau cryfion at fywyd y pentref mewn llawer o ardaloedd anghysbell a gwledig iawn yng Nghymru. Prin yw'r rheiny sy'n dweud bod eu hawdurdod lleol neu eu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgynghori â nhw er mwyn deall anghenion trigolion. Dim ond 30% o'r Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd i'n harolwg oedd wedi cyfrannu at weithgarwch ymgynghori i adnabod anghenion lleol yn eu hardal, a dim ond 7% oedd wedi cyfrannu wrth osod blaenoriaethau eu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn yr un modd, dywedodd nifer o'r rhanddeiliaid a holwyd gennym nad yw ymgysylltiad â'r sector preifat a'r gymuned fusnes yn effeithiol bob tro.

Er bod gwaith partneriaeth a chydweithio yn elfennau sydd wedi'u sefydlu ers meitin, ac yn gallu bod yn effeithiol, cyfyngedig yw integreiddiad gwasanaethau.

- 2.17 Gwelsom fod mwyafrif y cyrff cyhoeddus yn cydnabod nad oes ganddynt y capasiti, yr adnoddau na'r sgiliau i ymateb i anghenion cymunedau gwledig a'u bod yn gwybod bod arnynt angen gwneud pethau'n wahanol a gweithio gydag eraill. Mae yna gymunedau gwasgaredig ledled rhannau helaeth o Gymru wledig, ac mae ffocws newydd gan y Ddeddf ar ddarparu gwasanaethau ar y cyd i roi sylw i anghenion. Yn sgil y ddau beth hyn, disgwylir gweld cydleoli, gwaith partneriaeth, a chydweithio yn dod yn fodel safonol ar gyfer darparu gwasanaethau, ac yn gatalydd ar gyfer integreiddio gwasanaethau.
- 2.18 Er bod cynghorau yn cydnabod gwerth cydweithio a gweithio mewn ffordd integredig, nid ydynt yn llwyddo bob tro i drefnu ac i gydlynu eu gwaith mewn ffordd sy'n defnyddio eu harbenigedd yn y ffordd orau neu'n gwireddu'r buddion a ddaw yn sgil integreiddio. Yn hytrach, mae cyrff cyhoeddus yn parhau i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau eu hunain, heb edrych ar yr her ehangach o gael gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio mewn ardal.

- 2.19 Er enghraifft, mae cyrff cyhoeddus yn parhau i weithio mewn adeiladau ar wahân ac i redeg eu gwefannau eu hunain gyda'u gwybodaeth eu hunain am eu gwasanaethau a'u gweithgareddau. Mae yna weithgarwch mapio ar waith, ond nid ydyw wedi ehangu i gynnwys adolygu'r modd y darperir gwasanaethau presennol, er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer cydleoli ac integreiddio. Yn aml, mae cydweithio'n seiliedig ar gyfle, neu berthnasoedd untro, ac nid ydynt yn cael eu gyrru gan newid neu gynllunio ar sail lle.
- 2.20 Yn gyffredinol, mae gwasanaethau brys (yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân) yn ei chael yn haws gweithio gyda gwasanaethau brys eraill, ond nid ydynt yn llwyddo cystal i ddylanwadu ar waith partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill. Yn yr un modd, mae cynghorau'n ei gweld yn haws ymgysylltu â rhai cyrff a chytuno ar gydfllaenoriaethau wrth weithredu, er enghraifft cymdeithasau tai, o gymharu â chyrff eraill fel byrddau iechyd. Mae yna bosibilrwydd i drefniadau rhanbarthol reoli effeithiau'r newid ym mhatrymau'r galw am wasanaethau, trwy rannu ac integreiddio adnoddau ac arbenigedd sy'n dod yn fwy a mwy prin. Mae ein canfyddiadau'n cydfynd â chanfyddiadau'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, lle nodwyd nad yw patrwm cyfredol y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn addas at y dyfodol, a lle pwysleisir bod arnom angen newid³⁰.
- 2.21 Gwelsom gyd-fentrau da mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft Canolfan Deuluol Ardal Wledig Gogledd Sir y Fflint, iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng nghymuned wledig Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a'r Her Iechyd yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mentrau untro yw'r rhain gan fwyaf, ac nid newid sylfaenol yn y modd y darperir gwasanaethau, gan rannu cyllidebau ac adnoddau, integreiddio swyddi a lleoliadau lle cyflwynir gwasanaethau.

Cydnabyddir bod rheoli ac atal y galw yn hanfodol wrth gynnal gwasanaethau, ond mae'r cynnydd yn hyn o beth yn gymysg

- 2.22 Mae atal galw diangen am wasanaethau, ac angen y gellid ei osgoi, yn cynnig gwerth da am arian. Gall rheoli'r galw fod yn fan cychwyn da i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt geisio sicrhau cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Er mwyn i hyn weithio, mae arnynt angen cydweithio, meddwl yn fwy hirdymor a mewnwediad i'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau, gan gofleidio ffyrdd newydd o weithio³¹.

30 <https://gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewen.pdf>

31 Yn Atodiad 10 i'n hadroddiad ar **reoli'r galw-digartrefedd**, ceir egwyddorion clir i helpu llywio'r arfer o reoli galw, a gellir defnyddio'r egwyddorion hyn wrth ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

- 2.23 Ar hyn o bryd, ffocws gormod o'r gweithgarwch atal mewn ardaloedd gwledig yw dulliau 'untro' i ostwng y galw neu atal ceisiadau am wasanaeth. Er enghraifft, yn aml mae'r gwasanaethau wedi'u lleoli mewn prif ardaloedd trefol neu drefi mwy o faint, a gall hyn olygu nad yw pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell yn eu defnyddio oherwydd eu lleoliad a diffyg trafndiaeth. Ar bapur, ymddengys bod gwasanaethau'n hygyrch ac wedi'u llunio i ateb yr angen, ond mewn gwirionedd, nid yw cymunedau gwledig mwy gwasgaredig yn eu defnyddio.
- 2.24 Cyfyngiad cyffredin arall yn y gweithgarwch atal a adolygwyd gennym, yw ei natur fyrdymor. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchiad o'r cylchoedd cyllid a'r grantiau blynyddol. Yn yr un modd, oherwydd gwendid wrth werthuso'r dewis eang o fentrau, a diffyg wrth rannu'r hyn a ddysgwyd o brosiectau, mae yna beryglon i gynaliadwyedd prosiectau atal, oherwydd dyblygir problemau ac, o bosibl, ymdrechion hefyd. Yn aml, yn unol â chyfrifoldeb statudol corff cyhoeddus, caiff gwasanaethau eu cynllunio i leihau risgiau, ond prin y bydd canolbwyntio ar hyn yn eu galluogi i roi sylw i'r galw. Gall gweithwyr proffesiynol labelu defnyddwyr gwasanaethau, a diffinio eu hanghenion, ond wrth wneud hyn ni welir problemau sylfaenol. O ganlyniad, mae'r galw'n cynyddu cyn cyflwyno ymyriad, am fod cyrff cyhoeddus yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros roi sylw i faterion yn ôl ac ymlaen.
- 2.25 Rhan arall yr hafaliad ar gyfer y galw, yw'r cyflenwad, ac mae argaeledd staff cymwys yn faes lle mae gwasanaethau dan fwy a mwy o straen. Clywsom gan sefydliadau cenedlaethol y buom yn siarad â nhw, fod problemau recriwtio athrawon ysgol gynradd cymwys, meddygon teulu, cynllunwyr a gofalwyr Cymraeg eu hiaith. Oherwydd prinder diffoddwyr tân ar alwad, mae yna botensial fod diffyg adnoddau yn rhai o'r gorsafoedd mewn ardaloedd gwledig. Ar hyn o bryd, mae dros 400 o swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad ledled tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru.
- 2.26 Gwelsom rai dulliau cadarnhaol lle mae sefydliadau'n atal y galw ac yn cynyddu mynediad at wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n defnyddio'u gwiriadau diogelwch yn y cartref, "Diogel ac Iach", ac archwiliadau masnachol yn seiliedig ar risg, i helpu pobl mewn cymunedau gwledig. Yn yr un modd, prosiect Gwarchod Ffermydd Heddlu Dyfed Powys, sef prosiect plismona yn y gymdogaeth â ffocws gwledig, yr ydym yn ei nodi fel arfer da yn **Atodiad 3**.

- 2.27 Mae dulliau eraill o atal a rheoli'r galw yn edrych ar ddatblygu mwy o hunanddibyniaeth ymhlith dinasyddion, gyda chyrff cyhoeddus eisiau rhoi'r gallu i bobl i roi sylw i'w problemau eu hunain. Yn aml, tanlinellir hunanddibyniaeth fel elfen sy'n greiddiol i fywyd gwledig, ac mae yna ddirnadaeth fod cymunedau gwledig yn fwy cydnerth ac arnynt angen llai o gymorth, o'u cymharu ag ardaloedd trefol. Mae hyn yn bwysig am fod ardaloedd gwledig yn aml yn cael eu darlunio ar ddau begwn, fel ardaloedd sy'n dirywio ac yn segur ar un llaw, neu ardaloedd hardd a hunangynhaliol ar y llaw arall.
- 2.28 Prin yw'r awdurdodau sy'n profi'r ddirnadaeth hon, ac maent yn tynnu sylw at ffrydiau gwaith allweddol cydnerthedd cymunedol, gwirfoddoli a datblygu cyfalaf cymdeithasol. Er enghraifft, mae rhaglen Dyfodol Sir Fynwy yn cynnwys gweledigaeth ar lefel uchel, sy'n cynnwys newid y ffocws o ddarparu'n uniongyrchol, i alluogi cymunedau a grymuso dinasyddion i wneud mwy drostynt eu hunain. Serch hynny, fel y nodwyd yn Rhan 1 yn yr adroddiad hwn, mae yna heriau yn codi wrth geisio creu cymunedau sy'n fwy hunangynhaliol wrth i broffil y boblogaeth wledig heneiddio ac wrth i bobl ifanc barhau i allfudo a phobl hŷn barhau i fewnfudo,³² ac wrth golli ymgysylltiad neu 'frwdfrydedd' mwy hirdymor gwirfoddolwyr gan eu bod yn gwneud gormod neu'n gorfod dewis ymrwymadau eraill.

Mae ar gynghorau a'u partneriaid angen gwella'u dealltwriaeth o effaith eu penderfyniadau ar bobl o gymunedau gwahanol

- 2.29 Mae'r ffordd y mae cynghorau'n ceisio deall a dangos effaith, neu effaith bosibl, eu penderfyniadau a'u gwasanaethau ar ddinasyddion, yn amrywio. Mae mwyafrif y cynghorau'n cynnal asesiadau risg/effaith ar gyfer y Ddeddf Hawliau Dynol, Cyfreithiol, Cydraddoldeb, y Gymraeg, er enghraifft, wrth weithredu polisiau a chynlluniau newydd neu wrth adolygu dogfennau cyfredol. Serch hynny, maent yn dueddol o ystyried gwasanaethau ar raddfa'r cyngor yn ei gyfanrwydd, ac nid ydynt yn edrych ar anghenion gwahanol y cymunedau gwahanol. Yn ogystal, prin yw'r enghreifftiau a welsom o gyrff cyhoeddus yn defnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru wrth adolygu neu ddatblygu gwasanaethau (gweler **Atodiad 4**). Yn rhy aml, gwelir mai canlyniad hyn yw dadansoddiad eang lle nad yw'r gwahaniaethau'n cael eu hadnabod neu lle maent yn cael eu hanwybyddu.

32 Gweler <http://www.wales.nhs.uk/healthtopics/populations/ruralhealth>

- 2.30 Yn gyffredinol, nid oes gan gynghorau'r data na'r dystiolaeth i farnu effaith eu gwaith ar gymunedau gwledig gwahanol, nac i adnabod yr hyn sy'n gweithio a sut y gallant wella. Mae cynghorau sydd ag ardaloedd trefol mwy o faint, a chymunedau gwledig gwasgaredig, yn wynebu her benodol yn sgil y dull 'un ateb i bawb' o gasglu tystiolaeth a gwerthuso. Wrth ganolbwyntio ar ddata ar raddfa sirol, er mwyn adnabod angen a chraffu ar berfformiad, ni cheir y manylder y mae arnynt ei angen i deilwra gwasanaethau at y cymunedau gwledig gwahanol.
- 2.31 Nid yw llawer o sefydliadau'n gweld materion gwledig fel maes polisi ar wahân. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny yr ydym wedi eu categoreiddio fel cynghorau gwledig/trefol cymysg. Mae effaith newidiadau i'r gwasanaeth yn mynd ar drywydd dull 'un ateb i bawb' sy'n canolbwyntio ar hwylustod darparu gwasanaethau o ganolfannau mwy o faint. Ymhellach, gan nad yw cynghorau sydd â chyfuniad o ganolfannau trefol mwy o faint a chymunedau gwledig gwasgaredig wedi defnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru i'w helpu i deilwra'r cyd-destun, gall hyn arwain at ormod o bwyslais ar angen trefol ac atebion trefol.
- 2.32 O ganlyniad, nid yw rhai cynghorau'n canolbwyntio ar ardaloedd gwledig fel ffrwd polisi neu gyflenwi, er bod ganddynt gymunedau ac ardaloedd gwledig helaeth. Er enghraifft, er bod cyrff cyhoeddus megis Castell-nedd Port Talbot yn deall yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu ar draws eu cymunedau gwahanol, gan fwyaf mae partneriaid ym maes gwasanaethau cyhoeddus wedi blaenoriaethau gwaith y dyfodol ym mhrif ardaloedd trefol Castell-nedd, Aberafan a Phort Talbot. Mae swyddogion ac aelodau yn cydnabod efallai nad yw blaenoriaethau ar gyfer yr ardaloedd hyn yn addas ar gyfer cymunedau mwy gwledig a chymunedau'r cymoedd.

Rhan 3 – Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar gynghorau a'u partneriaid angen meddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.

- 3.1 Mae arnynt angen newid y modd y caiff gwasanaethau eu darparu ar gyfer cymunedau, pentrefi a threfi yng Nghymru wledig. Yn sgil toriadau sylweddol mewn arian cyhoeddus, mae ffocws cynghorau wedi bod ar dorri talpiau cyfain oddi ar gyllidebau a gostwng gwasanaethau anstatudol. Serch hynny, mae mwy a mwy o gynghorau'n gweld nad yw 'mwy o'r un peth' yn ymateb hirdymor cynaliadwy.
- 3.2 Mae cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru yn eu hannog i feddwl eto am y model gwasanaethu cyhoeddus lleol. Mae partneriaethau rhanbarthol fel partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n rhychwantu Cyngor Sir Ceredigion a Phowys, yn dod â busnesau lleol, arweinwyr academaidd a llywodraeth leol a chenedlaethol, at ei gilydd, i greu gweledigaeth ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae symud y gwaith trosglwyddo at gyrrff rhanbarthol yn seiliedig ar y farn bod ymateb integredig mwy systematig i broblemau yn bosibl ac yn ddymunol. Mae hefyd yn cefnogi integreiddio rhai gwasanaethau lleol, symud buddsoddiad i ffwrdd oddi wrth fodel gwasanaeth ymatebol tuag at atebion sy'n fwy ataliol ac yn fwy seiliedig yn y gymuned.
- 3.3 O'r dystiolaeth a geir o'n hadolygiad, gwelir na all cynghorau ddatrys problemau Cymru wledig yn effeithiol ar eu pennau eu hunain. Mae ar wasanaethau cyhoeddus angen cydweithio â'i gilydd a'u cymunedau ac mae arnynt angen gwneud pethau'n wahanol. Er mwyn gwireddu hyn, mae ar gynghorau a'u partneriaid angen meddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol, gan gydweithio i feithrin gallu, cyfalaf cymdeithasol ac annog cymunedau a dinasyddion i wneud mwy drostynt eu hunain. Mae'n rhaid i gydleoli ac integreiddio ddod yn fodolau gweithredu safonol hefyd wrth symud ymlaen.
- 3.4 O ystyried hyn, mae dull sy'n seiliedig ar le yn fan cychwyn da, wrth feddwl am y ffordd orau o deilwra'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus o'r newydd. Mae dull gweithredu o'r fath yn symud y drafodaeth i ffwrdd oddi wrth lawer o ddrysau unigol, ar wahân, tuag at un drws, neu borth, at yr holl wasanaethau cyhoeddus. Wrth fabwysiadu dull gweithredu o'r fath, mae'r dinesydd a'r gymuned wrth galon cynllun y gwasanaeth, oherwydd mae'n galluogi cyrrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar yr unigolyn ac anghenion yr unigolyn, yn hytrach na ffiniau sefydliadol neu broffesiynol.

- 3.5 Mae'r model hwn yn gweddu'n dda i ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig ar adeg o gynt ariannol, oherwydd mae'r gost o rannu swyddfeydd yn is, a'r cyfle i gadw gwasanaethau yn uwch. Wrth weithio fel system gyhoeddus sengl sy'n seiliedig ar le, mae yna gyfle hefyd i ganolbwyntio'n gliriach ar ganlyniad, gan fod dewis eang o ffactorau yn dylanwadu ar ganlyniadau ac yn gofyn am ymateb integredig i'w gwireddu³³.
- 3.6 Mae dull gweithredu system gyfan hefyd yn cydnabod bod gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau anghenion niferus yn aml iawn, a bod arnynt angen mewnbwn sawl gwasanaeth cyhoeddus er mwyn rhoi sylw iddynt. Mewn ymchwil gan Dîm Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus Manceinion Fwyaf³⁴, gwelwyd bod 48 o ddinasyddion unigol a oedd eisiau cymorth gan gyrff cyhoeddus wedi cyflwyno 1,235 o geisiadau neu alwadau am gymorth, rhyngddynt, gyda chyfartaledd o 26 y cleient. Gyda modelau traddodiadol ar gyfer darparu gwasanaethau, lle mae pob asiantaeth yn gweithio'n annibynnol, ac, yn aml, gwasanaethau gwahanol yn yr un asiantaeth yn gweithredu'n unigol, mae'r cyfrifoldeb ar y dinesydd i geisio dod o hyd i ateb, ac mae i fyny i'r unigolyn i lywio trwy'r system gwasanaethau cyhoeddus. Gall hyn arwain at gynnydd yn y galw, yn ogystal â phroblemau sy'n dirywio ac yn dod yn fwy costus i'w datrys, oherwydd efallai nad yw'r dinesydd yn gwybod at bwy i fynd am gymorth, ac efallai nad yw'n cael y cymorth y mae arno'i angen ar yr adeg pan fo'n bosibl datrys y problemau.
- 3.7 Councils and their partners should explore different system perspectives, including citizens, and ask what we need to support public bodies and people to contribute to improving outcomes³⁵. Research also suggests that to do this you need to understand the key perspectives within a local system (people and organisations); the role they can play in achieving positive change; and the collaborative local infrastructure needed to enable them to work towards shared objectives in the context of place³⁶. Our review has identified that there is potential to support a more sustainable future if councils and their partners shift to a place-based approach and think differently in designing services to respond to the needs of rural Wales. To make place based working a reality we have identified four key strands of work and these are set out below:


33 Mae gwaith Canadian Centre for Community Renewal yn fan cychwyn da i gyrff cyhoeddus sy'n mynd ar drywydd dull gweithredu sy'n seiliedig ar le. Mae eu pecyn cymorth cymunedol manwl o'r enw **Community Resilience Toolkit: A Resource for Rural Renewal and Recovery** yn ganllaw systematig i gryfhau cydnerthedd cymunedol. Ffocws y pecyn cymorth hwn yw cynorthwyo sefydliadau – cymunedol, statudol a phreifat – i ddeall cysyniad cydnerthedd, cwblhau asesiad i adnabod y bwch mewn cydnerthedd a allai fodoli mewn ardal benodol, a helpu sefydliadau i lunio darlun o gydnerthedd cymunedol.

34 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/588237/Integrated_place_based_services_Academy_seminar_slidepack_310117.pdf

35 Collaborate CIC, Chwefror 2017.

36 <https://www.jrf.org.uk/why-we-need-build-social-capital-cities>

3.8. **DULL GWEITHREDU STRATEGOL SY'N SEILIEDIG AR LE** – mae cynghorau a'u partneriaid yn cydnabod maint y broblem y maent yn ei hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru wledig, ond nid ydynt mor glir ynghylch yr hyn y maent yn mynd i'w wneud i oresgyn y broblem. Yn sgil hyn, mae ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus angen datblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol sy'n fwy uchelgeisiol a gobeithiol, gan dynnu sylw at y pethau da ynghylch cymunedau gwledig, a nodi cyfleoedd ymarferol i wella llesiant pobl. Un ffordd o wireddu hyn yw sicrhau bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda phartneriaid a dinasyddion lleol i greu gweledigaeth sy'n seiliedig ar le, ac i nodi sut y bydd partneriaid lleol yn integreiddio ac yn darparu gwasanaethau ar y cyd. Dylai'r dull gweithredu adeiladu ar y Cynllun Llesiant Lleol, gan nodi cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arni ynghylch anghenion cymunedol hirdymor; y weledigaeth gymdeithasol ac economaidd ar gyfer lle, gyda chydflaenoriaethau i roi sylw i'r heriau y cytunwyd arnynt; a mapio'r gwasanaethau, y rhwydweithiau a'r cyfleusterau a allai fod ar gael i gydleoli ac integreiddio gwasanaethau.



3.9. **CYDWEITHIO AC INTEGREIDDIO'R BROSES O DDARPARU GWASANAETHAU** – hyd yn oed os ydynt dan bwysau, mae ar gynghorau angen darparu gwasanaethau yng Nghymru wledig o hyd, a chyfrifoldeb cyrff cyhoeddus yw dod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithlon a chyfleus (i ddinasyddion) o gyflawni hyn. Mae arnynt angen newid eu ffordd o feddwl a derbyn nad yw gweithredu ar eu pennau eu hunain yn ymarferol bellach. Er mwyn gwneud hyn, bydd arnynt angen symud at gyd-ariannu ac, o bosibl, cyfaddawdu ar bwyntiau darparu modelau gwasanaeth, a symud at greu hybiau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus integredig.

- 3.10. From the customer perspective multi-service hubs are a good option as they are convenient 'one-stop shop' and can become community focal points thereby enhancing social capital. They need to be multi-purpose, cross-sector and reflect local needs in terms of what they provide, hosting a range of partners and public services. Hubs can also extend the use of local assets and offer the potential to act as gateways to public services operating either as:
- Service hubs with a public sector focus – run by a council, housing association or other public sector organisation, bringing together different services under one roof.
 - Community hubs run by community organisations – with different projects, activities and services, often run with a high level of involvement from the local community to fill gaps where public services have disappeared – for example supporting the work of credit unions.



3.11. **RHOI SYLW I FYLCHAU YN Y SEILWAITH** - mae Cymru wledig yn wynebu heriau sylweddol o ran seilwaith. Rydym yn cydnabod nad llywodraeth leol sydd â'r prif gyfrifoldeb o roi sylw i'r bylchau hyn bob tro, nad yw'r cynghorau'n gallu ymdrin â nhw ar e pennau eu hunain a bod angen cymorth a chefnogaeth gan eraill. Serch hynny, gall y cynghorau a'u partneriaid gymryd rhai camau penodol. Er enghraifft:

- a) cefnogi rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus integredig gan alinio rhwydweithiau bysiau a beicio gyda gwasanaethau trenau;
- b) cynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio 'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy fuddsoddi mewn seilwaith a sgiliau digidol (gweler yr enghraifft o arfer da lle mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn Hybu Cysylltedd Diwifr mewn ardaloedd gwledig yn **Atodiad 3**);
- c) hybu a chodi ymwybyddiaeth ynghylch estyn y seilwaith allan e.e. Cyngor Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn gwella sgiliau trwy eu prosiect Gwynedd Ddigidol³⁷; a
- ch) chefnogi'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol trwy adnabod pa asedau sy'n addas i'w trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae arnynt angen ei wneud.



3.12. **CEFNOGI HUNANGYMORTH MEWN CYMUNEDAU GWLEDIG** - gyda llai o arian a llai o allu i ddarparu'r holl wasanaethau a oedd ar gael yn draddodiadol, mae ar gynghorau a phartneriaid angen newid eu ffordd o weithio ac annog cymunedau a dinasyddion i wneud mwy drostynt eu hunain trwy:

- a) wella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, cefnogi gwirfoddolwyr ac annog pobl i gamu ymlaen;
- b) cefnogi mentrau cymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol trwy adnabod opsiynau ar gyfer sefydliadau sydd eisoes yn bodoli a sefydliadau newydd;
- c) datblygu canllawiau, pecynnau cymorth a rhwydweithiau sy'n cefnogi datblygiad cynllunio trefi/pentrefi ar sail lle a chreu cynlluniau lle mewn cymunedau a dan arweiniad y cymunedau hynny;
- ch) darparu allgymorth cymunedol, wedi'i deilwra, er mwyn annog a chefnogi cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain; a
- d) gwella a chydabod rôl cynghorau tref a chymuned a gweithio gyda hwy a'u cefnogi er mwyn iddynt allu gwneud mwy.



37 www.citizenonline.org.uk/digitalgwynedd

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr Astudiaeth

Roedd methodoleg ein hadolygiad yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad o'r wybodaeth a'r arfer a gynhwyd ar gyfer yr archwiliad.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau gwledig trwy fod yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o sioeau sir lleol yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg ac ar Ynys Môn.
- Dadansoddiad manwl o ddata a dynnwyd o StatsCymru, Hwb Meincnodi Uned Ddata Llywodraeth Leol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, NOMIS, Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a Chofrestrfa Tir EM.
- Adolygiad o lenyddiaeth a gyhoeddwyd, gan gynnwys adroddiadau ac ymchwil sylfaenol gan Arsyllfa Wledig Cymru, y Comisiwn Cymunedau Gwledig, Move your Money, Better Transport, Deloittes, Cownteri Swyddfa'r Post Cyf, Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru, BDRC Continental, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a DEFRA.
- Dadansoddiad o sampl o Gynlluniau ac Asesiad o Lesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Arolwg o 711 o Gyngorau Tref a Chymuned, er mwyn nodi'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth reoli, cynnal a datblygu gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig, ynghyd â pha mor dda y maent yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac yn gweithio mewn partneriaeth â nhw mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol. Cawsom ymatebion gan 355 o gyrff.

- Arolwg ansoddol o 750 o ddinasyddion i ddarganfod i ba raddau y mae llywodraethau lleol yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn deall canfyddiadau cyhoeddus o ran llunio gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig. Cafodd fframwaith cwestiynau'r arolwg ei lunio i gysylltu ag ymchwil flaenorol i wasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig, yn benodol adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru, 'Coping with Access to Services'³⁸, a gyhoeddwyd yn 2007, sy'n nodi pum dimensiwn pwysig o ran darparu gwasanaethau mewn lleoliadau gwledig: digonol, hygyrch, ar gael, fforddiadwy a derbyniol.
- Cyfweiliadau â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyrff y trydydd sector, Tai Cymunedol Cymru, y Gronfa Loteri Fawr, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, sefydliadau academiaidd, busnesau asiantaethau'r llywodraeth.
- Gwaith maes manwl yn Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg, Awdurdodau'r tri Pharc Cenedlaethol, Heddlu Dyfed Powys ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd ein gwaith maes yn cynnwys cynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws â swyddogion ac aelodau, ynghyd ag ymgysylltu â phartneriaid lleol.

³⁸ www.walesruralobservatory.org.uk/sites/default/files/12_CopingAccessServices.pdf

Atodiad 2 – Diffinio Cymru ‘Wledig’

Nid oes un diffiniad pendant y cytunir arno ar gyfer ardal wledig yng Nghymru, ac roedd hyn yn anhawster allweddol wrth edrych ar y maes gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng dau gategori – cyd-destun llai gwasgaredig a chyd-destun mwyaf gwasgaredig – a rhwng tri math o anheddiad.

O fewn y cyd-destun Llai Gwasgaredig y mae’r canlynol:

- **Trefi Mawr:** sydd â phoblogaethau o 10,000 o bobl, o leiaf, gan gynnwys Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, ar hyd arfordir Gogledd Cymru, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam;
- **Trefi Bach:** anheddau o lai na 10,000 o bobl yn yr ardaloedd sydd â’r poblogaethau dwysaf, er enghraifft Dinbych a Threfynwy – a hefyd ardaloedd ar ymylon y trefi o amgylch yr anheddau mawr; ac
- **Eraill:** pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig yn yr ardaloedd llai gwasgaredig

Yn y cyd-destun mwyaf gwasgaredig y mae’r canlynol:

- **Trefi Mawr:** anheddau â phoblogaeth o 10,000 o bobl, o leiaf – Caergybi, Y Drenewydd, Aberystwyth a Chaerfyrddin;
- **Trefi Bach:** yn yr ardaloedd â’r poblogaethau llai dwys, gyda llai na 10,000 o bobl; ac
- **Eraill:** pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig yn ardaloedd mwyaf gwasgaredig Cymru

Yn ôl dosbarthiad Llywodraeth Cymru, mae bron i 20% o boblogaeth gyfan Cymru yn byw mewn ardaloedd sy’n cael eu categoreiddio’n gyffredinol fel ardaloedd gwledig. O blith y trigolion gwledig hyn, dim ond 30% sy’n byw yn y trefi mawr neu fach mwyaf gwasgaredig; mae’r mwyafrif (70%) yn byw naill ai mewn ardaloedd llai gwasgaredig ‘eraill’ neu yn yr ardaloedd mwyaf gwasgaredig (Llywodraeth Cymru, 2015).

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2014, caiff yr ardaloedd hyn eu rhestru fel rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig ar sail incwm, ac mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd gwledig yn profi llai o dlodi ac amddifadedd nag ardaloedd trefol yng Nghymru. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried nifer o ffactorau wrth fesur amddifadedd. Mae'n nodi Ynys Môn, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili fel y siroedd â'r nifer uchaf o achosion o amddifadedd gwledig yng Nghymru.

Mae fforwm polisi gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnwys naw cyngor (Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro a Phowys gyda chynrychiolaeth o Barciau Cenedlaethol Cymru). Yn hwyr yn 2015, cyhoeddodd y fforwm gyfres newydd o flaenoriaethau³⁹, sy'n canolbwyntio ar dri maes allweddol – Cenedlaethau'r Dyfodol; Ein rhwydweithiau; ac Ein llefydd.

39 Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Maniffesto Fforwm Gwledig CLILC ar gyfer 2015-2020 <http://www.wlga.gov.uk/download.php?id=6257&l=1>

Atodiad 3 – Astudiaethau achos arfer da



Dull gweithredu strategol sy'n seiliedig ar le

Powys – mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus broses gadarn ar gyfer adolygu data ac mae fformat adroddiadau'r asesiad o lesiant yn hygyrch iawn ac maent yn cael eu croesgyfeirio gyda'r ffynonellau data diweddaraf. Ceisiwyd cyngor annibynnol i sicrhau ansawdd y data. Caiff peth o'r data eu cymharu â chynghorau o du allan i Gymru, er enghraifft tipio anghyfreithlon, a gyda rhanbarthau eraill yng Nghymru gan gynnwys cynhyrchu ynni mewn ffordd gynaliadwy. Sefydlwyd llyfrgell ymchwil sy'n gartref i bapurau ymchwil a gwybodaeth ar faterion gwledig, a chyfeirir at hyn wrth benderfynu ar yr ymatebion posibl yn ei Gynllun Llesiant cyntaf. Mae Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sgorio effaith pob canfyddiad allweddol yn erbyn y saith nod llesiant ac yn nodi a ydynt yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lesiant. Mae'r Asesiad yn defnyddio dewis eang o ddata lleol a chenedlaethol er mwyn dadansoddi trais a cham-drin domestig, materion iechyd y cyhoedd, cyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion gwledig, lleoliadau a darpariaeth llety addas i bobl hŷn, cysylltedd band eang ac effaith troseddau seibr ar fusnesau gwledig lleol. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn lle gwell i gydlynu unrhyw gamau gweithredu'n fwy effeithlon.

Bro Morgannwg – sefydlwyd y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn 2004 ym Mro Morgannwg ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i ddatblygu prosiectau a syniadau arloesol fydd yn creu buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor i'r ardal. Y nod yw grymuso unigolion i chwarae rhan weithgar yn nyfodol eu cymunedau. Adeiladodd prosiect Mapio Cymunedau Gwledig Creadigol ar ganfyddiadau dadansoddiad trechu tlodi a gomisiynwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol y Fro gynt, a ddaeth i'r casgliad mai ardal Sain Tathan ym Mro Morgannwg, yn gyffredinol, sy'n profi'r lefelau uchaf o dlodi ac amddifadedd o'i chymharu ag ardaloedd gwledig eraill y Fro. Mae'r dull gweithredu hwn yn ceisio gweithio gyda chymunedau i adnabod yr Asedau Cymdeithasol, er enghraifft, grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unigolion, yn ogystal ag Asedau Ffisegol gan gynnwys Canolfannau Cymunedol, mannau agored a busnesau mewn cymuned. Treialodd y cyngor y defnydd o'r dull o fapio mewn tair cymuned yn y Fro Wledig yn Sain Tathan, Gwenfô a'r Rhws. Mae'r broses fapio wedi dod â phobl at ei gilydd ar draws y cymunedau hynny ac wedi arwain at adnabod yr hyn sy'n bwysig i'r cymunedau hynny. Yn Sain Tathan, un o'r prif flaenoriaethau a nodwyd gan y gymuned oedd gwella mannau chwarae i blant. Ffurfiodd grŵp lleol o drigolion grŵp cymunedol i fynd i'r afael â'r angen hwn, ac maent yn gweithio gyda swyddog datblygu chwarae'r cyngor i gynyddu eu gwybodaeth am ddarparu gweithgareddau chwarae yn yr ardal ac mae'r gwirfoddolwyr yn cael eu mentora'n anffurfiol i'w cynorthwyo i ddatblygu darpariaeth chwarae yn yr ardal.

Heddlu Dyfed Powys – mae strategaeth plismona gwledig Heddlu Dyfed Powys 2017-20 yn nodi'r gwaith sy'n cael ei gynllunio i wella mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r heddlu'n datblygu ac yn cefnogi cynlluniau gwyllo gwledig, ac yn cynyddu nifer y Cwnstabiliaid Arbennig a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn cymunedau gwledig. Mae Cwnstabiliaid yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwy hygyrch gan eu bod wedi eu lleoli mewn cymunedau gwledig ac yn rhannu cyfleusterau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn defnyddio stondinau a phebyll a godir yn y fan a'r lle mewn sioeau haf a digwyddiadau. Cyflwynwyd nifer o gyfrifon Twitter ar gyfer timau plismona lleol hefyd. Mae swyddogion yr heddlu a staff cymorth yn cael hyfforddiant ar lefel uwch i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd i ymdrin â throseddau gwledig; mae hyn yn angenrheidiol oherwydd natur gymhleth rhai troseddau gwledig. Mae yna Gydlynnydd Troseddau Gwledig sy'n cefnogi'r swyddogion hyn.

Creodd yr Heddlu Fforymau Troseddau Gwledig hefyd ar gyfer y sir, ac maent yn dod â chynrychiolwyr undebau ffermio, cydlynwyr Gwarchod Ffermydd, grwpiau cymunedol yng nghefn gwlad ac awdurdodau lleol at ei gilydd. Mae'r fforymau hyn yn cynorthwyo i feithrin hyder wrth adrodd ynghylch troseddau, dod o hyd i atebion ar y cyd a gwella'r gallu i gyfnewid gwybodaeth a chudd-wybodaeth er mwyn sicrhau bod modd targedu troseddwyr a throseddoldeb gyda ffocws arbennig. Mae Strategaeth Troseddau Gwledig Heddlu Dyfed Powys hefyd yn amlinellu'r heriau gwledig penodol y mae Heddlu Dyfed Powys yn eu hwynebu, a'r adnoddau y bydd yn eu cyflwyno i weithredu'r strategaeth wledig. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu i wella gweithgarwch atal, canfod a gorfodi, rhannu cudd-wybodaeth a gwaith ar dawelu meddwl y cyhoedd.



Cydweithio ac integreiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – unodd Tîm Cymorth Cymunedol yr Awdurdod gyda Llywodraeth Cymru, y tri gwasanaeth brys, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Galw Gofal Care Connect, a Gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru er mwyn cynnig cyngor integredig ar iechyd a diogelwch ac ymateb i bobl hyglwyf sy'n baglu yn eu cartrefi. Cafwyd atgyfeiriadau gan ysbytai, meddygon teulu ac aelodau'r teulu, gofawyr a'r bobl eu hunain. O ganlyniad, parhaodd y galw am wasanaethau 'r Tîm Cymorth Cymunedol arbenigol i dyfu ers cychwyn y fenter, sy'n anelu at gynorthwyo pobl yn eu cartrefi eu hunain, ym mis Awst 2016. Gwelwyd dros fil o bobl yn elwa ar gymorth y Tîm Cymorth Cymunedol ers lansio'r cynllun peilot yn Sir Ddinbych a Chonwy. Roedd y cynllun yn gymorth i leihau nifer y bobl y bu'n rhaid iddynt fynd i'r ysbyty, gan ostwng y straen a'r galw am wasanaethau ambiwlans a meddygol. Erbyn hyn, mae'r cyllid ar gyfer y prosiect wedi dod i ben ac nid yw ar waith mwyach.



Rhoi sylw i fylchau yn y seilwaith

Cyngor Sir Caerfyrddin – mae menter Ddiwifr yn hybu cysylltedd ac adfywio cymunedol yn nhrefi a phentrefi gwledig Rhydaman, Porth Tywyn, Caerfyrddin, Llanymddyfri, Sanclêr a Hendy-gwyn.

Cefnogir y prosiect gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi derbyn nawdd grant ac wedi cyflwyno cais llwyddiannus ar ran Grŵp Gweithredu Lleol Grŵp Cefn Gwlad gan sicrhau nawdd o £120,000 gan y cynllun LEADER cenedlaethol. Nawr, mae cynghorau tref, busnesau, sefydliadau ac unigolion yn gallu cael mynediad at adnoddau hyfforddi ar-lein digidol i gefnogi datblygiad sgiliau digidol. Mae'r fenter hefyd yn cynnwys Wi-Fi lleol sy'n rhad ac am ddim. O ganlyniad, mae cyfleoedd newydd yn cael eu creu ar gyfer swyddi, prentisiaethau, lleoliadau gwaith a gwirfoddolwyr digidol.

Trosglwyddo Asedau Cymunedol – nodwyd gennym fod yr awdurdodau canlynol wedi datblygu dulliau da o drosglwyddo asedau cymunedol:

- Rhondda Cynon Taf wedi datgan bod yna nifer o asedau nad oes arno eu hangen (y cyfeirir atynt fel 'Asedau Gwerth Cymunedol'). Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys canllawiau, templedi ar-lein, disgrifiad manwl o'r adeiladau ac un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth, a hynny oll gyda'r nod o helpu i sicrhau proses drosglwyddo lefn.
- Mae Cyngor Sir Powys yn hysbysebu asedau tir ac adeiladu a allai gael eu trosglwyddo, o bosibl. Mae ffurflenni datganiad o ddiddordeb i'w cael ar-lein, yn ogystal â thempled o achos busnes sy'n annog dealltwriaeth fanwl ac a rennir o risgiau'r prosiect.
- Mae gan Gyngor Bro Morgannwg becyn cymorth cynhwysfawr sy'n cynnwys canllawiau a thempledi, ac sy'n cyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth bellach a chyllid posibl.

Ceredigion – y Trosglwyddodd Cyngor Sir Ceredigion y cyfrifoldeb am redeg gwasanaethau Canolfan Hamdden Tregaron i grŵp cymunedol lleol. Sefydlwyd y broses yn dilyn gwaith a wnaed gan Fwrdd Ad-drefnu Gwasanaethau Hamdden y Cyngor, a nododd fod Canolfan Hamdden Tregaron yn addas i'w throsglwyddo i'r gymuned – proses a adwaenir fel Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Yna, gofynnodd y Cyngor am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer darparu gweithgareddau chwaraeon o'r ganolfan hamdden. Mae Hamdden Caron Leisure yn grŵp o wirfoddolwyr o Dregaron a'r cyffiniau a ddatganodd ddiddordeb mewn rhedeg y ganolfan hamdden, a hynny yn dilyn ymgynghoriad manwl â defnyddwyr, unigolion nad oeddent yn defnyddio'r ganolfan, a chlybiau chwaraeon yn yr ardal. Mae les 30 mlynedd wedi'i lofnodi rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Hamdden Caron Leisure erbyn hyn. Mae'r Ganolfan Hamdden bellach yn gweithredu fel canolfan gymunedol ar gyfer gweithgareddau hamdden a chwaraeon, gyda chlybiau chwaraeon newydd yn ymuno. Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu rhai gwasanaethau o'r ganolfan hamdden ac mae'n bwriadu datblygu mwy o wasanaethau allgymorth a sesiynau galw heibio yn y dyfodol.



Cefnogi hunangymorth mewn cymunedau gwledig

Mae Cyngor Sir Dyfnaint yn defnyddio'i ddata i feithrin cydnerthedd cymunedol mewn ardaloedd gwledig. Mae'n bwysig deall cydnerthedd cymunedau lleol er mwyn i gynghorau allu targedu cymorth a chefnogaeth at y mannau lle y mae'r mwyaf o angen amdanynt, ac er mwyn i bobl mewn cymunedau gwledig allu eu helpu eu hunain. Mae Cyngor Sir Dyfnaint yn darparu golwg ar-lein ar gydnerthedd cymunedol ar gyfer pob un o gymunedau Dyfnaint, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata cenedlaethol a lleol, a gyfunwyd gyda gwybodaeth o arolwg #WeAreDevon 2016, ac arolwg Community Insight Survey 2017. Mae'r sgôr cydnerthedd cymunedol sy'n deillio o hyn yn cael ei integreiddio i amrywiol fesurau cenedlaethol a lleol er mwyn dangos gwydnwch cymunedau yn Nyfnaint. Mae hyn yn creu deialog rhwng cyrff cyhoeddus, ac yn symud cynllun gweithredu yn ei flaen er mwyn cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr, ac adfer ar ôl digwyddiadau mawr, er enghraifft tywydd eithafol a newidiadau economaidd.


Yn ôl amcangyfrifon DeVA (Devon Voluntary Action) mae yna 31,255 o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser. Mae'r Cyngor yn cysylltu pobl a gwirfoddolwyr at y sefydliadau hynny y mae arnynt angen cymorth. Cefnogir ymdrechion y Cyngor gan ganolfan gyngor annibynnol ar-lein a elwir yn Pinpoint. Mae Pinpoint yn dangos y ffordd at filoedd o wasanaethau a grwpiau cymunedol ledled Dyfnaint www.pinpointdevon.co.uk. Mae dros 500 o grwpiau cymunedol wedi eu cofrestru a gall pobl ddod o hyd i ddewis o gymorth ar sut i barhau i fyw bywydau annibynnol, dod o hyd i waith, gwirfoddoli, gwella llesiant personol a meithrin cydnerthedd personol.

Caffi Cletwr, Tre'r Ddôl, Ceredigion - Gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ceredigion, mae Caffi Cletwr yn datblygu dull cymunedol o ddarparu gwasanaethau allweddol a threchgu nifer o faterion y mae'r gymuned wledig yn eu hwynebu ym mhentref Tre'r Ddôl a'r cyffiniau. Cymuned fechan o ryw 600 o drigolion yw Tre'r Ddôl, a dros y blynyddoedd caewyd ei siop leol, ei heglwys a'i hysgol gynradd. Pan yr oedd yn edrych fel petai'r caffi lleol yn mynd i gau hefyd yn 2009, cafodd grŵp cymunedol lleol gymorth grant gan Gyngor Sir Ceredigion, Y Gronfa Loteri Fawr, yr Undeb Ewropeaidd a busnesau fel Santander a Sefydliad Laura Ashley, i brynu'r busnes ac i ddatblygu caffi a siop newydd wrth galon y pentref.

Mae Caffi Cletwr yn esblygu o hyd, ac mae cyfeiriad ei ddatblygiad yn dibynnu'n llwyr ar anghenion y gymuned leol. Mae'n ymdrechgu'n gyson i fapio anghenion y gymuned er mwyn alinio'r ddarpariaeth mor agos â phosibl at ddymuniadau'r trigolion. Arweiniodd hyn at ddatblygu mentrau sy'n ymdrin â materion fel y rheiny y mae cymunedau gwledig ledled Cymru yn eu hwynebu.

- Mae Caffi Cletwr yn llawer mwy na chaffi. Yn sgil cau asedau cymunedol eraill, mae'r ganolfan gymunedol egniol hon yn bwynt ffocws lle gall pobl gyfarfod neu alw heibio. Cynhelir digwyddiadau a rhoddir gostyngiadau penodol ar de a choffi i drigolion oedranus, er mwyn annog y rheiny na fyddai'n gweld neu'n siarad ag unrhyw arall drwy'r dydd fel arall, i ddod allan o'r tŷ.
- rhyngweithiad wyneb-yn-wyneb cyfyngedig â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio Caffi Cletwr fel man casglu ar gyfer bagiau gwastraff ac ailgylchu i ddinasyddion, ac mae ei lyfrgell symudol yn galw yn y caffi'n fisol, gan uchafu rôl y Caffi fel hwb cymunedol. Defnyddiodd Heddlu Dyfed Powys Gaffi Cletwr hefyd trwy gynnal sesiynau galw heibio gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn y caffi.
- tloidi tanwydd: Mae Caffi Cletwr yn trefnu ac yn hwyluso syndicet cymunedol er mwyn i ddinasyddion brynu tanwydd olew i gynhesu eu cartrefi. Lle y gallai'r dinasyddion fod yn gorfod prynu mwy o swmp o danwydd gan gwmnïau, yn flynyddol, fel arall, mae'r syndicet yn galluogi dinasyddion i brynu llai o danwydd, sy'n fwy fforddiadwy iddynt, dair neu bedair gwaith y flwyddyn, trwy glwb tanwydd y Caffi. Trwy brynu swmp o olew, llwyddwyd i sicrhau gostyngiadau i drigolion hefyd.
- diffyg swyddi i bobl leol: Rhwng y caffi a'r siop, mae Caffi Cletwr yn cyflogi wyth aelod o staff cyfwerth amser llawn. Mae hyn yn cynnwys rheolwr a rheolwr cynorthwyol yn y siop a thri chogydd yng nghegin y caffi. Yn ogystal, mae yna 50 o wirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'r fenter ac yn cynorthwyo gyda thasgau rheolaidd neu'n helpu trefnu digwyddiadau cymunedol yn y Caffi.

Atodiad 4 – Cwestiynau Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru

- 
- 1 A fydd eich polisi'n effeithio ar argaeledd gwasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill yn yr ardal wledig?
 - 2 A fedrech chi gyflwyno'r polisi yr ydych yn cynnig ei weithredu trwy allfeydd gwasanaethau presennol? Er enghraifft, ysgolion, banciau, a meddygfeydd
 - 3 A fydd cost ychwanegol wrth weithredu eich polisi mewn ardaloedd gwledig?
 - 4 A fydd y polisi'n effeithio ar anghenion teithio neu hwylustod a chost teithio i gymunedau gwledig?
 - 5 A yw'r polisi'n dibynnu ar gyfathrebu gwybodaeth i gleientiaid?
 - 6 A fydd y polisi'n cael ei gyflwyno trwy'r sector preifat neu trwy bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat?
 - 7 A yw'r polisi'n dibynnu ar seilwaith i'w weithredu, a allai olygu bod cymunedau gwledig dan anfantais? Er enghraifft, Band Eang, TGCh, priffyrdd a chyfleustodau
 - 8 A fydd y polisi'n effeithio ar fusnesau gwledig, yn enwedig busnesau hunangyflogedig a busnesau micro ac ar y Trydydd Sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol lleol?
 - 9 A fydd y polisi'n effeithio'n benodol ar ddiwydiannau tir-seiliedig ac felly ar economïau gwledig a'r amgylchedd?
 - 10 A fydd y polisi'n effeithio ar y rheiny sydd ar gyflogau isel neu mewn swyddi rhan-amser neu dymhorol?
 - 11 A fydd y polisi'n targedu pobl dan anfantais sy'n byw mewn ardaloedd gwledig?
 - 12 A fydd y polisi'n dibynnu ar fudiadau lleol i'w weithredu?
 - 13 A yw'r polisi'n dibynnu ar adeilad newydd neu safle datblygu?
 - 14 A fydd y polisi'n effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig?
 - 15 A fydd y polisi'n effeithio ar bobl sy'n dymuno cyrraedd cefn gwlad a defnyddio cefn gwlad fel lle ar gyfer hamdden a mwynhad?

Ceir enghraifft o'r asesiad cyflawn ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nick Selwyn oedd rheolwr tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y tîm hwnnw'n cynnwys Steve Frank, Gareth Jones, Euros Lake, Sara Leahy, Martin Gibson, Philippa Dixon a Matt Brushett o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tudalen y pecyn 52

Cynnwys

Mae awdurdodau lleol wedi bod yn defnyddio cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn gynyddol er mwyn arbed arian, ond rhaid iddynt arwain at atebion cynaliadwy	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	8
Rhan 1 – Mae'r awdurdodau mwyaf effeithiol yn ymgymryd â dull gweithredu strategol, gan gydweithio â phartneriaid i'w galluogi i drosglwyddo asedau	9
Rhan 2 – Mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda chymunedau er mwyn meithrin eu gallu a'u sgiliau i allu ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau a'u rheoli yn y dyfodol	19
Rhan 3 – Yn aml, mae ar grwpiau cymunedol angen cymorth parhaus gan awdurdodau lleol yn dilyn trosglwyddo ased, ond mae hyn yn amrywio	26
Appendices	31
Atodiad 1 – Methodoleg yr Astudiaeth	31
Atodiad 2 – Diffinio Cymru 'Wledig'	32
Atodiad 3 – Rheoli risgiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol – hunanwerthusiad	33

Mae awdurdodau lleol wedi bod yn defnyddio cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn gynyddol er mwyn arbed arian, ond rhaid iddynt arwain at atebion cynaliadwy

- 1 Mae'r ddogfen hon yn ategu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddarparu Gwasanaethau i Gymunedau Gwledig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018¹. Mae'n amlygu ac yn crynhoi canfyddiadau'r astudiaeth sy'n ymwneud yn benodol ag achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol.
- 2 Mae'r ddogfen hon yn adnodd dysgu ar gyfer awdurdodau lleol i'w helpu i wella'r modd y maent yn ymdrin ag achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol mewn ardaloedd gwledig, er bod y dulliau a amlygir gennym hefyd yn berthnasol i awdurdodau mewn ardaloedd trefol. Yn yr un modd, mae rhai o'r astudiaethau achos 'trefol' sy'n amlygu arfer da, ac a nodir yn yr adroddiad drwyddo draw, yn berthnasol i ardaloedd 'gwledig'.

Gall Trosglwyddo Asedau Cymunedol chwarae rhan bwysig wrth helpu i gynnal cymunedau gwledig

- 3 Gall perchenogaeth gymunedol ar dir neu adeiladau lleol helpu i greu gwytnwch hirdymor a chefnogi cymunedau i ffynnu. Yn achos cymunedau gwledig, mae llawer o fanteision o ran lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn deillio o ddefnyddio mannau ac adeiladau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae yna fuddion i awdurdodau lleol hefyd gan fod cyfyngiadau ariannol parhaus a hirdymor yn golygu na all awdurdodau ddarparu gwasanaethau yn yr un modd ag yn y gorffennol. Gall dull cydweithredol, hirdymor, wedi'i reoli'n dda o drosglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol greu effeithlonrwydd ar gyfer awdurdodau gan sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cael eu cynnal mewn cymunedau.
- 4 Mae colli 'conglfeini' cymunedol, er enghraifft banciau a swyddfeydd post, yn ychwanegu at yr her o gynnal gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig, yn enwedig gan fod llai o arian ar gael i'r awdurdodau lleol ar gyfer cynnal asedau allweddol tebyg i neuaddau cymunedol, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd, a'u bod yn cau neu'n gwerthu'r asedau hyn er mwyn mantoli'r gyllideb. Mae'r asedau cyhoeddus hyn yn aml yn elfennau allweddol yng nghyfansoddiad cymuned gwledig, ac mae eu rôl fel canolbwyntiau cymunedol gweithredol yn aml yr un mor bwysig â'u pwrpas fel adeiladau lle caiff gwasanaethau'r awdurdod eu darparu. O ganlyniad, mae ymagwedd awdurdodau lleol at Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn aml yn arwydd o'r modd y maent yn cefnogi ac yn annog cymunedau gwledig i oroesi a ffynnu fel lleoedd hyfyw i genedlaethau'r dyfodol fyw a gweithio ynddynt.

1 [Dolen gwe i'r adroddiad a gyhoeddwyd](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisiau effeithiol i gefnogi'r broses drosglwyddo, ond, yn wahanol i Loegr, nid yw nifer yr asedau a drosglwyddir gan awdurdodau yn hysbys.


- 5 Amlygir y sail gyfreithiol ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru yng nghyhoeddiad y **Gweithgor Asedau Cenedlaethol**, Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru – Canllawiau Arferion Gorau, dyddiedig Mawrth 2016². Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i waredu tir mewn amryw o ffyrdd. Mae yna amgylchiadau lle gall awdurdod lleol waredu ased am bris sy'n is na'r gwerth marchnadol llawn o dan ddarpariaethau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) Rhagfyr 2003 (o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).
- 6 Mae amcangyfrifon gan Rural England yn dangos bod cyfanswm y trosglwyddiadau mewn ardaloedd trefol yn Lloegr yn 1,222 erbyn 2018, a bod tua 500 o asedau wedi cael eu trosglwyddo mewn ardaloedd gwledig. Amcangyfrifir bod cyfanswm gwerth yr asedau a drosglwyddwyd yn £1.2 biliwn. Nid oes yna ddata cymharol wedi'u casglu yng Nghymru i ddangos nifer neu gwerth ariannol yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

2 Gweler gov.wales/community-asset-transfer/best-practice-guide

Ein canfyddiadau

- 7 Mae pob adran o'r adnodd hwn yn nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â Throsglwyddo Asedau Cymunedol ac yn ystyried rhai opsiynau ac atebion i oresgyn yr heriau hyn.
- Mae **Rhan 1** yn nodi elfennau allweddol dull strategol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol, ynghyd â'r polisiau a'r systemau y mae ar awdurdodau eu hangen i gefnogi'r broses o drosglwyddo asedau.
 - Mae **Rhan 2** yn ystyried yr heriau gweithredol sydd ynghlwm wrth gefnogi cymunedau i ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau. Rydym yn archwilio'r modd y gall awdurdodau lleol feithrin gallu yn eu cymunedau er mwyn i'r rheiny sy'n cael yr asedau allu ysgwyddo cyfrifoldeb amdanynt a'u cynnal yn llwyddiannus yn y dyfodol, a hynny yn y ffordd orau posibl.
 - Mae **Rhan 3** yn edrych ar y gefnogaeth a gynigir gan awdurdodau lleol yn dilyn y trosglwyddiad. Mae rhai o'r heriau a'r diffygion cyffredin sy'n codi wrth reoli'r ased hefyd yn cael eu hystyried.
- 8 Mae'r awdurdodau lleol mwyaf llwyddiannus yn gweithredu ar sail system gyfan wrth Drosglwyddo Asedau Cymunedol, gan ystyried anghenion a gallu hirdymor y cymunedau ochr yn ochr â llwybr trosglwyddo clir o'r dechrau i'r diwedd. Mae hyn yn arwain at ddefnyddio ased cymunedol mewn modd cynaliadwy er budd y gymuned. Mae **Eitem 1** yn nodi rhai o'r camau allweddol y dylai awdurdodau lleol eu cymryd er mwyn cyflawni hyn a symud o rôl 'gwneuthurwyr' i rôl 'galluogwyr'.

Eitem 1 – gweithredu ar sail system gyfan i Drosglwyddo Asedau Cymunedol



Argymhellion

9 Mae ein hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u nodi isod.

Argymhellion

- A1 Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cyngorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. **At hynny, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.**
- A2 Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. **Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:**
- **nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cyngori ac atal;**
 - **gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;**
 - **nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;**
 - **sicrhau bod eu polisiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a**
 - **cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.**

Rhan 1 – Mae'r awdurdodau mwyaf effeithiol yn ymgymryd â dull gweithredu strategol, gan gydweithio â phartneriaid i'w galluogi i drosglwyddo asedau

- 1.1 Yn yr adran hon, rydym yn ystyried y ffordd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol mewn modd strategol i feddwl a gweithredu mewn ffordd wahanol er mwyn cynnal a diogelu gwasanaethau.

Heriau

- 1.2 Gall datblygu dulliau strategol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol fod yn anodd o ystyried yr amrywiaeth o ffyrdd y gall awdurdodau drosglwyddo ased, ynghyd â'r amrywiad eang o ran y mathau o asedau sy'n cael eu trosglwyddo. Mae **Eitem 2** yn crynhoi'r rhwystrau allweddol i'w goresgyn wrth hyrwyddo trosglwyddiadau.

Eitem 2 – rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn Trosglwyddo Asedau Cymunedol mewn modd llyfn ac effeithiol

Ni allwn drosglwyddo asedau i gymunedau mewn modd effeithiol oherwydd ...

Mae'n golygu cael gwared ar 'drysorau'r teulu'

Gall awdurdodau fod yn amharod i ildio rheolaeth dros ased am y rhesymau canlynol:

1. Dewis gwleidyddol neu bolisi hirhoedlog;
2. Gall gwerthoedd cyfalaf helpu i wrthbwysu mantolenni ariannol yr awdurdodau lleol; a
3. Gall yr awdurdod feddwl bod gan y cyhoedd deimladau cymysg ynghylch trosglwyddo asedau o reolaeth yr awdurdod. Yn aml, ni chaiff yr ofn hwn ei brofi.



Nid oes gan grwpiau cymunedol y gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb am yr asedau

Mae angen i awdurdodau helpu i feithrin awydd, gallu a hyder grwpiau cymunedol i fod yn fwy hunanddibynnol ac i ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau cymunedol. Mae hyn yn golygu newid rôl yr awdurdodau o fod yn 'wneuthurwyr' i fod yn 'alluogwyr'. Gall agwedd ddwyochrog gadarnhaol, grantiau, hyfforddiant a chanllawiau o ansawdd da, oll helpu.



Mae angen i ni wneud arbedion ar unwaith

Nid yw Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn ffordd gyflym o wneud arbedion trwy waredu asedau diangen. Dylai Trosglwyddo Asedau Cymunedol fod yn gyfle i helpu cymunedau a chynnal gwasanaethau mewn cymunedau gwledig ledled Cymru. Mae angen dull sydd wedi'i gynllunio'n dda er mwyn gwneud hyn. Gall dull sydd ag ôl panig arwain at broblemau a throsglwyddiadau anaddas a all arwain at grwpiau cymunedol yn gorfod gwerthu neu drosglwyddo asedau yn ôl.



Nid oes gan grwpiau cymunedol hanes digonol i gynnal asedau


Rhaid i'r broses ymgeisio ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, yn ogystal â'r broses o gymeradwyo achosion busnes, fod yn berthnasol ac yn gymesur â natur/maint y cyfle. Dylai'r telerau ar gyfer trosglwyddo fod o gymorth i'r ddau barti, a dylent fod yn wydn ond yn deg. Gall awdurdodau wneud mwy i helpu i sicrhau bod grwpiau cymunedol yn barod ar gyfer buddsoddiad.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.3 Wrth i ni adolygu polisiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, canfuwyd bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, namyn un, bolisi ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, sydd ar gael ar ei wefan. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi mabwysiadu canllawiau priodol o ran y modd y byddant yn goruchwyllo'r broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol, ac wedi nodi'n glir y modd y mae eu hymagwedd at Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn eu cefnogi i gyflawni amcanion corfforaethol a blaenoriaethau strategol – Eitem 4. Canfu ein hadolygiad o bolisiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yr awdurdodau lleol rai cryfderau cyffredin, gan gynnwys meithrin cysylltiadau rhwng polisiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a pholisiau corfforaethol. Mae awdurdodau lleol yn rhoi mwy o ystyriaeth i ddefnydd mwy hirdymor o'r ased, ac i ddarparu templedi o achosion busnes i'w llenwi gan yr ymgeiswyr. Yn Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf, gwelsom enghreifftiau da o awdurdodau yn gwerthuso effaith bosibl achosion busnes ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol ar genedlaethau'r dyfodol, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Eitem 3 – Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Bolisiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a Chanllawiau ar-lein

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau bolisi mabwysiedig ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n cynnwys canllawiau priodol ar gyfer cefnogi penderfyniadau ynghylch trosglwyddo sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 1.4 Er gwaethaf hyn, mae yna gyfle o hyd i ddarparu help a chymorth gwell, ac sy'n fwy gweledol, a hynny cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses 'trosglwyddo asedau cymunedol'. Er enghraifft, canfuom fod polisïau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn aml yn brin o fanylion am y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar drosglwyddiadau, yn enwedig o ran dangos iechyd ariannol a chofnod o gyflawniad profedig. Dim ond pum awdurdod sy'n cyfeirio at ganllawiau arbenigol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol sydd wedi'u hanelu at grwpiau cymunedol. Yn rhy aml, nid yw awdurdodau yn gwahaniaethu rhwng maint yr asedau sydd i'w trosglwyddo, ac maent yn gweithredu polisi 'un dull ar gyfer pawb'.
- 1.5 Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Tref a Chymuned, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol ac yn ehangu cyfranogiad dinasyddion.
- 1.6 Canfu ein harolwg o Gynghorau Tref a Chymuned mai'r awdurdod lleol sy'n cychwyn ac yn annog y trosglwyddiad mewn bron 60% o achosion. Fodd bynnag, er y teimlir bod yna resymeg glir dros gynnal y trosglwyddiad, nid yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad bob amser yn cael eu nodi. Cawsom lawer o sylwadau gan Gynghorau Tref a Chymuned a oedd yn teimlo nad oedd y rhybudd a gafwyd gan yr awdurdod lleol yn ddigonol o ran amser. At hynny, dywedodd nifer o Gymunedau Tref a Chymuned nad yw awdurdodau yn aml yn gofyn am achos busnes i gefnogi'r broses o waredu ased, yn eu profiad nhw, ac nad ydynt chwaith yn hysbysu'r corff a fydd yn cael yr ased am y sail resymegol dros ei waredu.

Mae anallu awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau a chynnal asedau yn yr un modd ag yn y gorffennol yn golygu bod yn rhaid iddynt ystyried ffyrdd amgen o weithio. Mae gwaredu'r asedau hynny a oedd yn draddodiadol yn cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol yn un ffordd o arbed arian, ac rydym yn gweld mwy o Drosglwyddo Asedau Cymunedol o ganlyniad i hynny.

Roedd 25% o'r rheiny a ymatebodd i'n harolwg o Gynghorau Tref a Chymuned wedi ymwneud â'r broses o drosglwyddo manau agored; roedd 19% wedi ymwneud â'r broses o drosglwyddiad neuadd bentref neu gymuned; roedd 9% wedi ymwneud â'r broses o drosglwyddo cysgodfannau bysiau, ac roedd 2% wedi ymwneud â'r broses o drosglwyddo goleuadau stryd.

Tudalen y pecyn 62


Dewisiadau ac atebion

- 1.7 Canfu ein harolwg o ddinasyddion sy'n byw ledled Cymru wledig, a gynhaliwyd yn 2017-18, mai cymysg oedd yr ymateb i fodelau cyflenwi gwasanaethau amgen posibl, ond bod hanner y dinasyddion yn agored i'r syniad o annog cymunedau i gynnal y gwasanaethau eu hunain, yn enwedig y rheiny yn y grwpiau oedran iau (61% o bobl 16-34 oed). Yn yr un modd, roedd bron 40% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg o Gynghorau Tref a Chymuned yn teimlo bod gan eu sefydliad y gallu i ddarparu mwy o wasanaethau neu fwynderau nag y mae'n eu darparu ar hyn o bryd.
- 1.8 Yn ôl ymchwil gan Locality³, mae yna nodweddion cyffredin ymhlith cyrff cyhoeddus sy'n dda am drosglwyddo asedau, sef canllawiau cefnogol o ansawdd da, ynghyd â phrosesau byr o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer goruchwyllo a chymeradwyo achosion. Yn allweddol, mae llwyddiant trosglwyddiad wedi'i seilio ar gyfrifoldeb a rennir, a hynny gan yr awdurdod lleol sy'n trosglwyddo'r ased, ond hefyd gan y grŵp cymunedol a'r corff sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb.
- 1.9 Mae trosglwyddo asedau'n llwyddiannus a sicrhau dyfodol cynaliadwy yn aml yn dibynnu ar awdurdod sydd â chanllawiau o ansawdd da a phrosesau cymeradwyo ymatebol. Mae argaeledd gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth berthnasol yn cael effaith fawr ar effeithiolrwydd y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol⁴. Mae **Eitem 4** yn crynhoi'r hyn a ystyrir yn elfennau allweddol dull strategol da o Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

3 <http://locality.org.uk/services-tools/support-for-community-organisations/ownership-and-management-of-land-and-buildings/>

4 Gweler locality.org.uk/resources-for-councils-service-providers

Eitem 4 – nodweddion dull strategol effeithiol o drosglwyddo asedau cymunedol



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.10 Mae awdurdodau lleol sydd â dull strategol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i fapio'r asedau sy'n eiddo iddynt neu a reolir ganddynt yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol a chyllidebau rhagamcanol, a hynny er mwyn nodi eu perthnasedd strategol, yr effaith ariannol bosibl ac, o ganlyniad, y cyfleoedd ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae awdurdodau yn gwneud hyn yn gynyddol yn achos Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cael darlun llawn o'r asedau a'r sawl sy'n berchen arnynt. Er enghraifft, y dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint a phartneriaid ei Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd wedi nodi eu holl asedau, ynghyd â'r rhai sy'n addas i'w trosglwyddo⁵. Mewn manau eraill, mae rhai awdurdodau lleol, er enghraifft Cyngor Sir Dyfnaint, yn mynd â hyn gam ymhellach gan fapio pob ased cymunedol megis neuaddau eglwys, cabanau sgowtiaid a theatrau, er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r holl gyfleusterau allweddol sy'n bodoli yn y cymunedau.

Yn ôl adolygiad o gyllid Treftadaeth y Loteri, a gynhaliwyd gan Locality ym mis Medi 2017, cyfanswm gwerth y grantiau yn 2016-17 oedd £74.4 miliwn ar gyfer grwpiau cymunedol yn Lloegr (91% o'r holl gyllid), £4.1 miliwn yn yr Alban (5% o'r holl gyllid), a £3.3 miliwn yng Nghymru (4% o'r cyllid, gan gwmpasu pedwar prosiect). Mae hyn yn awgrymu nad yw grwpiau cymunedol yng Nghymru yn cael manteisio ar ffynonellau cyllid allweddol sy'n cefnogi cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Enghreifftiau o arfer da o ran dull strategol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol

5 Gweler [flintshire.gov.uk/Community-Asset-Transfer-\(CAT\)/AssetsForConsideration](http://flintshire.gov.uk/Community-Asset-Transfer-(CAT)/AssetsForConsideration)

Astudiaeth achos – Canolfan hamdden sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned yng Ngheredigion

Trosglwyddodd Cyngor Sir Ceredigion y cyfrifoldeb am redeg gwasanaethau Canolfan Hamdden Tregaron i grŵp cymunedol lleol. Sefydlwyd y broses yn dilyn gwaith a wnaed gan Fwrdd Ad-drefnu Gwasanaethau Hamdden y Cyngor, a nododd fod Canolfan Hamdden Tregaron yn addas i'w throsglwyddo i'r gymuned. Yna, gofynnodd y Cyngor am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer darparu gweithgareddau chwaraeon cymunedol o'r ganolfan hamdden. Mae Hamdden Caron Leisure yn grŵp o wirfoddolwyr o Dregaron a'r cyffiniau a ddatganodd ddiddordeb mewn rhedeg y ganolfan hamdden, a hynny yn dilyn ymgynghoriad manwl â defnyddwyr, unigolion nad oeddent yn defnyddio'r ganolfan, a chlybiau chwaraeon yn yr ardal. Bellach, mae les 25 mlynedd wedi'i lofnodi rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Hamdden Caron Leisure. Mae'r Ganolfan Hamdden bellach yn gweithredu fel canolfan gymunedol ar gyfer gweithgareddau hamdden a chwaraeon, gyda chlybiau chwaraeon newydd yn ymuno, ac mae cyfranogiad cyffredinol wedi cynyddu 20%.

Astudiaeth achos – Dulliau effeithiol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol

Nodwyd gennym fod yr awdurdodau canlynol wedi datblygu dulliau da o drosglwyddo asedau cymunedol:

- Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** wedi datgan bod yna nifer o asedau nad oes arno eu hangen (y cyfeirir atynt fel 'Asedau Gwerth Cymunedol'). Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys canllawiau, templedi ar-lein, disgrifiad manwl o'r adeiladau ac un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth, a hynny oll gyda'r nod o helpu i sicrhau proses drosglwyddo lefn.
- Mae **Cyngor Sir Powys** yn hysbysebu asedau tir ac adeiladu a allai gael eu trosglwyddo, o bosibl. Mae ffurflenni datganiad o ddiddordeb i'w cael ar-lein, yn ogystal â thempled o achos busnes sy'n annog dealltwriaeth fanwl ac a rennir o risgiau'r prosiect.
- Mae gan **Gyngor Bro Morgannwg** becyn cymorth cynhwysfawr sy'n cynnwys canllawiau a thempledi, ac sy'n cyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth bellach a chyllid posibl.

Astudiaeth achos – Rhaglen trosglwyddo asedau rhagweithiol yng Nghernyw

Yn 2011, casglodd Cyngor Cernyw wybodaeth fanwl am yr holl asedau a oedd ganddo ar y pryd, a chyhoeddodd feini prawf addasrwydd ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol. Dewiswyd 25 o asedau oddi ar restr hir ar gyfer y cam cyntaf yn 2011-14, a hynny yn seiliedig ar eu haddasrwydd i gael eu trosglwyddo ar sail eu sgôr mewn perthynas â dadansoddiad Cyngor Cernyw o'r cyd-anghenion cymunedol a'r modd yr oeddent yn bodloni'r amcan corfforaethol. Yna, nodwyd y deg uchaf ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd manwl. Cafodd y prosiectau hyn eu dynodi a'u hyrwyddo gan gynghorwyr lleol, ac fe'u cefnogwyd o ran costau proffesiynol a chyfreithiol er mwyn ymgymryd â'r broses o'u trosglwyddo i'r sefydliad cymunedol a fyddai'n ysgwyddo cyfrifoldeb amdanynt. Wedi i'r prosiectau gael eu trosglwyddo, cawsant eu gwerthuso'n annibynnol a chyfunwyd y gwersi i'w dysgu mewn cyfres o ddogfennau polisi, gweithdai meithrin gallu cymunedol, pecynnau ariannol, a chanllawiau.

Astudiaeth achos – Gweithredu ar sail system gyfan i Drosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae Cyngor Norwich yn darparu llinell amser ar-lein ynghyd â set o safonau gwasanaeth y gall grwpiau cymunedol eu disgwyl. Mae hyn yn rhoi trosolwg realistig o'r amserlen a'r camau allweddol. Mae'r llinell amser yn cynnwys adolygiad blynyddol o dargedau a buddion y cytundeb gwasanaeth mewn perthynas â lles y gymuned. Mae polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yr awdurdod lleol yn nodi ei feini prawf Asesu, ynghyd â'r modd y mae'n disgwyl i'r gymuned gael y budd mwyaf ohono. Mae Norwich hefyd yn darparu ffrwd newyddion ar-lein penodol i grwpiau cymunedol a dinasyddion, yn eu hysbysu am gyfleoedd a chynnydd o ran trosglwyddiadau.

Astudiaeth achos – Ystyriaethau o ran cynaliadwyedd a llesiant wrth Drosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae Cyngor Dwyrain Sir Dunbarton yn yr Alban yn cydnabod bod y sector cymunedol a gwirfoddol yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd yn ei gymunedau. Mae Cofrestr Asedau Dwyrain Sir Dunbarton yn cynnwys manylion am bob ased sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a phob ased cyhoeddus, ac mae'n cynnwys meini prawf sy'n dangos a yw'r ar gael i'w drosglwyddo. Mae'r canllawiau ar baratoi ceisiadau yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ynghyd â phroses sgrinio amgylcheddol i amlygu ffyrdd o warchod adnodd naturiol. Gofynnir i'r ymgeiswyr ddangos y modd y bydd y trosglwyddiad yn gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae cefnogaeth barhaus, cynnwys y gymuned, ystyriaethau o ran iaith, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain, a monitro canlyniadau hirdymor yn nodweddion arbennig o gryf o Bolisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol newydd 2018.

Rhan 2 – Mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda chymunedau er mwyn meithrin eu gallu a'u sgiliau i allu ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau a'u rheoli yn y dyfodol

2.1 Yn **Rhan 1**, rydym yn ystyried nodweddion dull strategol da o gefnogi cynllun llwyddiannus i drosglwyddo asedau i gymunedau. Mae angen i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod yna ddigon o sgiliau a gallu yn eu cymunedau i sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus. Yn yr adran hon, rydym yn archwilio'r her o feithrin gallu mewn cymunedau i'w cefnogi i ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys helpu grwpiau cymunedol i feithrin sgiliau rheoli eiddo ac arian, marchnata a masnachol. Rydym hefyd yn archwilio rhesymau awdurdodau lleol dros orfod rhoi systemau effeithlon ac effeithiol ar waith i gefnogi trosglwyddiadau a'u galluogi i lwyddo, ynghyd â'r modd y maent yn sicrhau hynny.

Heriau

2.2 Bydd angen i sefydliadau cymunedol sy'n gwneud cais i reoli ased awdurdod lleol, ac sy'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw, sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i reoli arian, ymgymryd â gweithgareddau codi arian, bodloni atebolrwydd a rhwymedigaethau o ran iechyd a diogelwch, diogelu ac yswiriant, a'u bod yn gweithio yn unol â'r gyfraith. Gall hyn fod yn frawychus, ac mae angen help a chymorth i'w wneud. Amlygodd adolygiad o gynlluniau i Drosglwyddo Asedau Cymunedol, a gynhaliwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree⁶ fod angen mathau gwahanol o sgiliau a gwybodaeth er mwyn sicrhau bod asedau'n cael eu trosglwyddo mewn modd effeithiol, yn arbennig sgiliau ariannol a gwybodaeth weithredol am reoliadau elusennau, gan gynnwys rhwymedigaethau.

2.3 Yn y pen draw, mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni eu hunain fod yr ased yn mynd i'r corff cywir, a bod gan y corff hwnnw y sgiliau angenrheidiol i ysgwyddo cyfrifoldeb am yr ased. O ganlyniad, mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi'r rheiny y trosglwyddir asedau cymunedol iddynt. Er enghraifft, darparu canllawiau ar godi arian, rheoliadau elusennau a modelau datblygu cymunedol amgen, er enghraifft mentrau cymdeithasol.


6 See jrf.org.uk/report/community-asset-transfer-northern-ireland

- 2.4 Nodir ein hadolygiad o wefannau a chanllawiau awdurdodau lleol yn **Eitem 5** isod. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad fod yna ragor y gallai awdurdodau lleol ei wneud i helpu cyrff cymunedol. Er enghraifft, canfu ein hadolygiad o bolisiau a deunyddiau cyfarwyddyd mai dim ond saith awdurdod sy'n darparu cyfleoedd penodol a gweithredol i grwpiau cymunedol a darpar drosglwyddeion feithrin gallu, er enghraifft mentora, cymorth ariannol, hyfforddiant a gweithdai i hyrwyddo arfer da a dysgu o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol llwyddiannus. Er enghraifft, mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu canllawiau ar fodelu busnes er mwyn helpu grwpiau cymunedol i wneud cais am gyllid allanol i gefnogi camau cychwynnol y broses o drosglwyddo asedau⁷, ac i sicrhau'r cyllid hwnnw.
- 2.5 At hynny, dim ond chwe awdurdod sy'n amlinellu'r modd y byddant yn rheoli ac yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â Throsglwyddo Asedau Cymunedol unigol, a dim ond tri sy'n nodi pwysigrwydd rhoi gwybodaeth dda am gostau rhedeg a chyflwr asedau i gyrff y trosglwyddir asedau iddynt. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r awdurdodau yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau trosglwyddiad llyfn a chreu etifeddiaeth gynaliadwy. Nododd nifer o Gynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn teimlo bod yn rhaid iddynt gytuno i'r trosglwyddiad hyd yn oed pan oeddent yn cydnabod nad oedd ganddynt y sgiliau na'r adnoddau i gynnal yr ased.

7 Gweler [flintshire.gov.uk/en/Community-Asset-Transfer-\(CAT\)](http://flintshire.gov.uk/en/Community-Asset-Transfer-(CAT))

Eitem 5 – Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Bolisiâu Trosglwyddo Asedau Cymunedol a Chanllawiau ar-lein

Mae gan fwyafrif yr awdurdodau fylchau sylweddol yn eu polisiâu Trosglwyddo Asedau Cymunedol, ac nid ydynt yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi grwpiau cymunedol i ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau, a'u cynnal.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Dewisiadau ac atebion

- 2.6 Gall grwpiau cymunedol ei chael hi'n anodd gwneud cais am fuddsoddiad cynnar, a sicrhau'r buddsoddiad hwnnw, er mwyn i ased gael ei drosglwyddo, ond mae yna lawer o ddeunydd ar gael i'w cefnogi nhw a'r awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- **Canllawiau Llywodraeth Cymru** sy'n yn annog awdurdodau lleol i gydweithio â grwpiau cymunedol er mwyn meithrin galluoedd a rhoi'r hyder a'r sgiliau iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli asedau. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cynhyrchu deunyddiau defnyddiol, gan gynnwys pecynnau cymorth adnoddau, rhestrau gwirio a chyfeiriadau at amrywiaeth o opsiynau o ran cyllid⁸.
 - **Y Gronfa Loteri Fawr**⁹ sy'n darparu cyfoeth o wybodaeth i helpu grwpiau i feithrin y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol i wneud cais am grantiau, a sicrhau'r grantiau hynny¹⁰.
- 2.7 Mae cytundebau rheoli byrdymor yn un ffordd o gynnig blas ar gynnal ased cymunedol i grwpiau cymunedol cyn i'r ased gael ei drosglwyddo'n llawn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Amwythig, fel ei gilydd, yn cynnig cytundebau rheoli 12 mis sy'n helpu grwpiau cymunedol i feithrin profiad a sgiliau. Mae trefniadau byrdymor yn gam da ymlaen i weld a fyddai trosglwyddiad tymor hwy gyda chytundeb mwy sylweddol yn bosibl yn y dyfodol¹¹. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dewis trosglwyddo ar sail lesddaliad yn hytrach na rhydd-ddaliad, fel bod yr eiddo yn parhau i fod yn eiddo i'r cyhoedd. Bydd lesddaliad hir (dros 25 mlynedd) yn dderbyniol i fwyafrif yr arianwyr, er bod rhai sy'n ariannu benthyciadau yn disgwyl les hirach.

Dywedodd grŵp cymunedol wrthym: "Roedd y cyngor sir wedi trosglwyddo'r rhwymedigaethau yn hytrach nag ased".

Dywedodd awdurdod lleol wrthym: "Mae'r cyngor wedi ceisio gwneud peth gwaith lechyd a Diogelwch ar unwaith ar gyfer rhai asedau, er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r ased. Mae gan bob eiddo arolygon llawn, ynghyd â datganiad o sefyllfa cywir ynghylch pob agwedd ar yr ased."

Dywedodd un awdurdod lleol wrthym: "Nid oeddem am i'r grwpiau cymunedol deimlo bod yn rhaid iddynt ysgwyddo cyfrifoldeb am ased, ac nad oeddent yn cael eu cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaethau".

8 Gweler gov.wales/c-a-t-checklist


9 Gweler biglotteryfund/making-the-most-of-funding/building-capacity

10 Gweler gov.wales/topics/community-asset-transfer/community-banks-and-finance

11 Gweler shropshire.gov.uk/community-asset-transfer

- 2.8 Yn yr un modd, gall buddsoddi'n uniongyrchol mewn asedau cyn iddynt gael eu trosglwyddo hefyd sicrhau bod yr asedau'n fwy deniadol i dderbynwyr, lleihau ansicrwydd a lleihau risgiau o ran trosglwyddo. Gall y buddsoddiad hwn amrywio o atgyweirio cydrannau, gwaredu unrhyw ddeunydd peryglus, neu lanhau'r adeilad. Yn yr un modd, mae darparu band eang o ansawdd uchel mewn ased yn helpu i annog cynllun Trosglwyddo Ased Cymunedol. Mae band eang yn galluogi'r sefydliad cymunedol i gysylltu'n well, ac yn annog busnesau i leoli yn yr ased neu i ddarparu gwasanaethau o'r ased. Mae negodi mynediad at fand eang cyn, yn ystod, neu ar ôl trosglwyddo ased yn ystyriaeth bwysig, ynghyd â sicrhau bod yr holl wasanaethau cyfleustodau eraill yn addas i'r diben
- 2.9 Mae **Eitem 6** yn amlygu nodweddion gwaith effeithiol o ran meithrin gallu cymunedau i gefnogi trosglwyddiadau llwyddiannus. Mae amrywiaeth o ddewisiadau ar gael i alluogi awdurdodau lleol i feithrin gallu cymunedau mewn modd rhagweithiol, a hynny er mwyn sicrhau'r sgiliau a'r galluoedd y mae eu hangen i ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau a'r gwasanaethau y maent yn eu lletya, a datblygu'r asedau hynny.

Eitem 6 – helpu i feithrin gallu cymunedau



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Engbreiffiau o arfer da o ran gweithio gyda grwpiau cymunedol i gefnogi a galluogi cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Astudiaeth achos – Cyfraniad cryf gan y gymuned wrth drosglwyddo cyn-lyfrgell y Sblot, Caerdydd

Roedd yr eiddo hwn yn llyfrgell bwrpasol a reolwyd gan y Cyngor o ddechrau'r 1900au hyd nes iddi gau yn 1994. Gan na nodwyd unrhyw ddefnydd gweithredol amgen gan y cyngor, datganwyd yn 2012 nad oedd angen yr adeilad mwyach. Ar y pryd, roedd y cysyniad o Drosglwyddo Ased Cymunedol yn newydd i'r Cyngor, ond mabwysiadwyd yr ymagwedd hon gan fod nifer o sefydliadau cymunedol lleol wedi mynegi diddordeb mewn ysgwyddo cyfrifoldeb am yr adeilad a'i ddefnyddio at ddibenion cymunedol. Mae'r prosiect bellach wedi'i hen sefydlu, ac mae'r adeilad wedi cael ei adnewyddu'n helaeth. Mae llwyddiant hyn yn bennaf o ganlyniad i ddiddordeb a chefnogaeth wleidyddol a chymunedol gref. Y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y llwyddiant hwn yw sicrhau bod yr adeilad yn cael ei feddiannu, cefnogaeth gan gynghorwyr, arweinyddiaeth gymunedol ymrwymedig, cefnogaeth gyhoeddus gref a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, mynediad at gyllid allanol, a'r gallu i ddenu defnyddwyr rheolaidd.

Astudiaeth achos – Meithrin gallu cymunedau yng Nghaerdydd

Mae Camu Ymlaen yn fenter a gefnogir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Pecyn cymorth ar-lein yw'r fenter, a luniwyd i gefnogi trigolion a chymunedau wrth iddynt ddatblygu a rheoli gwasanaethau ac asedau (e.e. cyfleusterau cymunedol). Mae'r pecyn cymorth wedi cael ei ysgrifennu ar gyfer pobl a sefydliadau cymunedol, ac mae'n nodi'r camau sy'n gysylltiedig ag ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli gwasanaethau ac asedau; rhestrau gwirio i dywys pobl trwy'r broses; ffynonellau gwybodaeth a chynngor pellach; a thempledi defnyddiol i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes, creiwio gwirfoddolwyr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ati.

Astudiaeth achos – Gwiriadau iechyd sefydliadau cymunedol ym Manceinion

Mae Tîm Meithrin Gallu Manchester Community Central yn darparu gwybodaeth a chymorth i feithrin gallu a chynaliadwyedd mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol ym Manceinion. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos â sefydliadau lleol eraill i gynnig dull gweithredu cydlynol wrth ddatblygu sgiliau a galluoedd i gefnogi cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a mentrau eraill. Cynigir coetsio, mentora a hyfforddiant wedi'i deilwra ar reoli prosiectau, llywodraethu, sicrhau cyllid, marchnata a rheoli risgiau.

Astudiaeth achos – Cydweithredu â Grwpiau Gweithredu Gwirfoddol er mwyn meithrin gallu

Mae gan lawer o sefydliadau y potensial i reoli adeiladau mewn modd effeithiol, ond nid ydynt yn bodloni'r meini prawf llawn ar gyfer trosglwyddo asedau. Mae Croydon Voluntary Action¹² yn darparu gweithgareddau meithrin gallu ar gyfer y sefydliadau hyn, gan gynnwys: archwiliad sgiliau; cynllun meithrin gallu y cytunir arno wrth drosglwyddo'r ased; safonau gweladwy (neu safonau arfer da cyfatebol); a chyngor arbenigol ar gyllid ac adnoddau tebyg i fenthyciadau masnachol, arian loteri, Adeiladwyr y Dyfodol a chyllid angori cymunedol. At hynny, efallai y bydd Cyngor Croydon yn gallu darparu benthyciadau di-log o hyd at £100,000, yn amodol ar argaeledd yr arian.

12 Gweler croydon.gov.uk/community_capacity/advice/transfers

Rhan 3 – Yn aml, mae ar grwpiau cymunedol angen cymorth parhaus gan awdurdodau lleol yn dilyn trosglwyddo ased, ond mae hyn yn amrywio

3.1 Gall Trosglwyddo Ased Cymunedol fod yn broses hir a chymhleth, ac nid trosglwyddo'r ased yw diwedd y mater. Mae cynllun Trosglwyddo Ased Cymunedol llwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad a chymorth gan yr awdurdod lleol ac uchelgais ac ymroddiad gan y gymuned. Mae dull system gyfan yn ofynnol, ynghyd â chefnogaeth trwy gydol y llwybr trosglwyddo, yn ogystal â chymorth a chynghor parhaus gan yr awdurdod lleol, a fydd yn parhau ar ôl y trosglwyddiad.

Heriau

3.2 Mae'r hyn sy'n digwydd ar ôl Trosglwyddo Ased Cymunedol yr un mor bwysig â'r gweithgarwch sy'n arwain at y broses. Ni ddylai awdurdodau adael llwyddiant menter i ffawd. Bydd deialog adeiladol a pharhaus â'r sawl y bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo iddo nid yn unig yn helpu i sicrhau bod nodau gwreiddiol y cynllun Trosglwyddo Ased Cymunedol yn cael eu cyflawni, ond hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd bod unrhyw fuddsoddiad parhaus yn fwy diogel ac y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd yn y dyfodol.

3.3 Gall cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol aflwyddiannus olygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol wario arian i adennill perchenogaeth ar yr ased neu fod yn rhaid iddynt waredu neu werthu'r ased, a gall hyn gael effaith negyddol ar y gymuned lle mae'r ased wedi'i leoli. Gall hyn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol, yn ogystal â rhwystro grwpiau cymunedol rhag eu cynnig eu hunain i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli asedau cymunedol eraill.

3.4 Yn ôl ein hadolygiad o ganllawiau ar-lein a pholisïau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, dim ond tri awdurdod a oedd â pholisïau ar waith i nodi a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod ar ôl trosglwyddo ased, ynghyd â'i gynaliadwyedd, a dim ond Cyngor Caerdydd a oedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i gymorth, cefnogaeth a dysgu ôl-drosglwyddo. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd awdurdodau am weld cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn llwyddo, ac mae angen iddynt gydnabod bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod hyn yn digwydd.

Dyweddod un grŵp cymunedol wrthym: “Ar ôl trosglwyddo'r ased, canfuwyd ar y diwrnod cyntaf nad oedd y trydan yn cydymffurfio. Roedd y gost o uwchraddio yn £70,000 ac mae'r elusen yn chwilio am gyllid i dalu am hyn dros amser.”

Dyweddod cyngor tref a chymuned wrthym: “Gallai'r awdurdod lleol wella ei ddulliau cyfathrebu a'i gefnogaeth o ran trosglwyddo asedau, yn enwedig ar ôl i'r ased gael ei drosglwyddo.”

- 3.5 Mae gormod o awdurdodau lleol yn defnyddio dull 'un ateb ar gyfer pawb' i reoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau. Er enghraifft, ni fydd angen yr un lefel o reoli risgiau wrth drosglwyddo'r cyfrifoldeb am oleuadau stryd ag a fydd wrth drosglwyddo canolfan hamdden. Mae yna nifer o ffyrdd o ymdrin â'r broses rheoli risgiau wrth drosglwyddo ased. Er enghraifft, diben yr ased y gwnaed cais amdano, maint yr ased, a hefyd allu'r sefydliad a fydd yn cael yr ased i'w reoli.
- 3.6 Yn ôl ein harolwg o Gynghorau Tref a Chymuned, mae yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Er enghraifft, dim ond 10% o'r Gynghorau Tref a Chymuned hynny a oedd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am ased yn eu hardal a oedd yn cael cefnogaeth barhaus ar ôl y trosglwyddiad.

Dewisiadau ac atebion

- 3.7 Mae gan aelodau etholedig rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, ac efallai y bydd arnynt angen cymorth i ddeall yr holl risgiau posibl.¹³ Mae'r astudiaethau achos sydd yn **Atodiad 3** yn amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth wrth sicrhau bod asedau'n cael eu trosglwyddo mewn modd llyfn. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu ffordd o ymdrin â chynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru, ac wedi cynnal cynhadledd a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar adeiladu capasiti a chynnal sgiliau'r Aelodau etholedig.

13 Gweler locality.org.uk/COMMUNITY-ASSETS-COUNCILLOR-GUIDE.pdf

Astudiaeth achos – Trefniadau trosglwyddo Cyngor Bradford

Mae'r Cyngor yn ystyried bod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn bartneriaeth hirdymor rhyngddo a'n grŵp cymunedol. Mae gan y Cyngor Dîm pwrpasol ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, sy'n cynnig help a chymorth parhaus, gan gynnwys ymweliadau ddwywaith y flwyddyn â phob eiddo a drosglwyddwyd, er mwyn nodi cymorth pellach y gallai fod ar y cyrff neu'r grwpiau y trosglwyddwyd yr eiddo iddynt ei angen. Mae ymweliad cymorth hefyd yn gyfle i drafod materion tebyg i gydymffurfiaeth statudol, iechyd, ac ati, ac i sicrhau bod yr eiddo wedi'i yswirio'n ddigonol. Mae Pecyn Trosglwyddo Bradford¹⁴ yn cynnwys yr holl ddogfennau cyfreithiol, yr arolwg diweddaraf o gyflwr yr adeilad, rhestr eiddo o'r holl gyfarpar, canllawiau iechyd a diogelwch, yr holl dystysgrifau ar gyfer cydymffurfiaeth, yn ogystal â'r dogfennau yswiriant.

- 3.8 Mae'n cymryd peth amser i rai prosiectau sicrhau cyllid cynaliadwy, a gallai fod arnynt angen cymorth refeniw parhaus trwy gyfrwng grantiau, benthyciadau neu ffynonellau cyllid eraill, er enghraifft Ariannu Torfol¹⁵, i'w galluogi i ddatblygu fel eu bod yn gwneud elw. Mae cymorth parhaus gan awdurdodau lleol yn cynnwys cyfeirio at grantiau allanol a chyflwyno dewisiadau ariannol i grwpiau cymunedol. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ffynhonnell gyllid boblogaidd ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n mynd trwy broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Fodd bynnag, gall gymryd hyd at ddwy flynedd i wneud cais am grant gan y Gronfa Loteri Fawr, ac, o bosibl, bydd angen cymorth yn y cyfamser. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ragorol i gefnogi sefydliadau sy'n mynd ati i ysgwyddo cyfrifoldeb am asedau a drosglwyddir, ac i'w cyfeirio at adnoddau defnyddiol¹⁶.

14 Gweler bradford.gov.uk/your-community-asset-transfer

15 Crowdfunding is a method of generating funding for a service or project from a number of people, normally through social media. See Welsh Government guidance [community-asset-transfer/crowdfunding_and_Crowdfunding_and_Civic_Assets_-_learning_from_the_USA](#)


16 See <https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-asset-transfer/resources/?lang=en>

- 3.9 Mae awdurdodau yn ei chael hi'n anodd monitro a mesur effaith Trosglwyddo Asedau Cymunedol, yn arbennig llesiant ac effaith gymdeithasol y trosglwyddiad. Mae hyn yn bwysig gan fod rhannu'r hyn sy'n gweithio'n dda yn helpu i annog grwpiau cymunedol i ysgwyddo cyfrifoldeb am ased, ac i reoli'r ased hwnnw, gan eu bod yn teimlo bod rhywun yn eu cefnogi. Defnyddir y model Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad¹⁷ (SROI) yn eang gan y trydydd sector, a gall helpu i egluro gwerth cymdeithasol Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae rhai awdurdodau lleol wedi gwneud eu hymgais eu hunain i fesur gwerth cymdeithasol: mae Cyngor Sir Dyfnaint a Chyngor Dinas Birmingham, er enghraifft, ar y cyd â'r felin drafod Rich Regeneration, wedi llunio pecyn cymorth ar werth cymdeithasol, a hynny yn benodol ar gyfer cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymdeithasol¹⁸.
- 3.10 Mae **Eitem 7** isod yn crynhoi rhai o'r materion allweddol y mae angen i awdurdodau eu hystyried wrth ddarparu cymorth parhaus i fynd i'r afael â heriau a risgiau cyffredin o ran trosglwyddo asedau. Mae **Atodiad 3** yn nodi matrices risgiau a hunanwerthuso manylach, wedi'i anelu at y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau sy'n trosglwyddo asedau.

¹⁷ Mae enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad yn ddull sy'n seiliedig ar egwyddorion o fesur gwerth y tu hwnt i werth ariannol, (h.y. gwerth amgylcheddol a chymdeithasol nas adlewyrchir ar hyn o bryd mewn cyfrifon ariannol confensiynol) mewn perthynas â'r adnoddau a fuddsoddwyd.

¹⁸ Gweler communityassettransfer.com/valuing-worth

Eitem 7 – Darparu cymorth parhaus



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Appendices

Atodiad 1 – Methodoleg yr Astudiaeth

- Dadansoddiad manwl o ddata a dynnwyd o [StatsCymru](#), [Hwb Meincnodi Uned Ddata Llywodraeth Leol](#), [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), NOMIS, Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a Chofrestrfa Tir EM.
- BDRC Continental, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a DEFRA.
- Dadansoddiad o sampl o Gynlluniau ac Asesiad o Lesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Arolwg o 711 o Gynghorau Tref a Chymuned, er mwyn nodi'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth reoli, cynnal a datblygu gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig, ynghyd â pha mor dda y maent yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac yn gweithio mewn partneriaeth â nhw mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol. Cawsom ymatebion gan 355 o gyrff.
- Arolwg ansoddol o 750 o ddinasyddion i ddarganfod i ba raddau y mae llywodraethau lleol yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn deall canfyddiadau cyhoeddus o ran llunio gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig. Cafodd fframwaith cwestiynau'r arolwg ei lunio i gysylltu ag ymchwil flaenorol i wasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig, yn benodol adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru, *Coping with Access to Services*¹⁹, a gyhoeddwyd yn 2007, sy'n nodi pum dimensiwn pwysig o ran darparu gwasanaethau mewn lleoliadau gwledig: digonol, hygyrch, ar gael, fforddiadwy a derbyniol.
- Cyfweiliadau â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyrff y trydydd sector, Tai Cymunedol Cymru, y Gronfa Loteri Fawr, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, sefydliadau academaidd, busnesau preifat ac asiantaethau'r llywodraeth.
- Gwaith maes manwl yn Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg, Awdurdodau'r tri Pharc Cenedlaethol, Heddlu Dyfed Powys ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd ein gwaith maes yn cynnwys cynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws â swyddogion ac aelodau, ynghyd ag ymgysylltu â phartneriaid lleol.
- Ymgysylltu â chymunedau gwledig trwy fod yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o sioeau sir lleol yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg ac ar Ynys Môn.

¹⁹ http://www.walesruralobservatory.org.uk/sites/default/files/12_CopingAccessServices.pdf

Atodiad 2 – Diffinio Cymru ‘Wledig’

Yr hyn a olygwn wrth ‘Gymru Wledig’:

Nid oes yna un diffiniad cytunedig o Gymru wledig. Mae'r dosbarthiad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn diffinio tua 20% o boblogaeth Cymru gyfan fel rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. At ddibenion yr astudiaeth hon, ac yn unol â fforwm polisi gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym yn dosbarthu naw awdurdod yn ardaloedd gwledig, 11 o awdurdodau yn rhai lled-wledig, a dau awdurdod yn rhai trefol, nad ydynt yn wledig.

GWLEDIG YN BENNAF

- 1 Sir Gaerfyrddin
- 2 Ceredigion
- 3 Conwy
- 4 Sir Ddinbych
- 5 Gwynedd
- 6 Ynys Môn
- 7 Sir Fynwy
- 8 Sir Benfro
- 9 Powys




LLED-WLEDIG/TREFOL

- 10 Blaenau Gwent
- 11 Pen-y-bont ar Ogwr
- 12 Caerffili
- 13 Sir y Fflint
- 14 Merthyr Tudful
- 15 Castell-nedd Port Talbot
- 16 Rhondda Cynon Taf
- 17 Abertawe
- 18 Torfaen
- 19 Wrecsam
- 20 Bro Morgannwg



CWBL DREFOL

- 21 Caerdydd
- 22 Casnewydd



Atodiad 3 – Rheoli risgiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol – hunanwerthusiad

Mae'r matrices hunanwerthuso a risgiau canlynol wedi'i anelu at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau sy'n trosglwyddo.

Y Risg	Sgôr y risg Uchel; Canolig; Isel	Eich camau lliniaru
Mae'r awdurdod lleol yn gwybod lle y mae ei holl asedau cymunedol wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig		
Mae gan yr awdurdod lleol y gallu i gefnogi cynlluniau trosglwyddo asedau cymunedol		
Mae'r awdurdod lleol wedi nodi ym mha ardaloedd gwledig y mae'r risg uchaf o ran unigedd cymdeithasol		
Mae'r awdurdod lleol wedi mapio capasiti, galluoedd, sgiliau ac adnoddau cymunedol mewn ardaloedd gwledig		
Mae'r awdurdod lleol yn cydweddu'r ased a drosglwyddir ag angen lleol, y galw yn y dyfodol a galluoedd cymunedol		
Mae'r amcanion a gynigir gan y sefydliad cymunedol ar gyfer yr ased yn glir ac yn cyd-fynd ag amcanion yr awdurdod lleol sy'n trosglwyddo'r ased		
Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr wybodaeth lawn sydd ganddi am yr ased ar gael yn rhwydd, e.e. ei gyflwr, y costau rhedeg, hawliau tramwy, diddordeb hanesyddol, ei werth, ei hygyrchedd a'i ffiniau		
Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi yn yr ased fel y gellir ei drosglwyddo'n gyflym		
Mae gan y sefydliad cymunedol sydd am gael yr ased y capasiti, y sgiliau a'r galluoedd i'w reoli		
Nid yw'r sefydliad cymunedol sydd am gael yr ased yn dibynnu'n ormodol ar nifer bach o wirfoddolwyr		

Y Risg	Sgôr y risg Uchel; Canolig; Isel	Eich camau lliniaru
Gall mudiadau cymunedol gyrchu cyllid allanol i brynu, adnewyddu a chynnal yr ased		
Aethpwyd i'r afael â threfniadau trosglwyddo staff, er enghraifft Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE), ac mae canlyniadau'r asesiad wedi cael eu cyfleu i'r holl bartïon		
Mae'r awdurdod lleol wedi ei sicrhau ei hun bod gan y sefydliad cymunedol sydd am gael yr ased drefniadau priodol ac effeithiol ar waith o ran materion cyfreithiol a llywodraethu		
Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â throsglwyddo'r ased yn glir ac yn hysbys		
Mae'r sefydliadau cymunedol yn ymwybodol o'r hyn y mae angen ei wneud i gynnal yr ased yn y dyfodol		
Mae gan yr ased cymunedol gyfleustodau da a mynediad band eang (lle bo hynny'n berthnasol)		
Mae'r sefydliadau cymunedol sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am yr ased yn sefydlog yn ariannol		
Mae cytundebau ar waith i ddelio ag unrhyw broblemau a all godi mewn perthynas â'r ased, gan gynnwys trefniadau addas ar gyfer datrys achosion o wrthdaro		

Tudalen y pecyn 84

Tudalen y pecyn 85

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Nick Ramsay AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Drwy e-bost

20 Tachwedd 2018

Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) Comisiwn y Cynulliad 2018

Annwyl Nick,

Yn ymddangosiadau'r Comisiwn gerbron y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddar, gofynnwyd i mi am y posibilrwydd o gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES). Rwyf nawr yn ysgrifennu i gadarnhau, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd, y cytunodd y Comisiwn i gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) i'r holl staff.

Bydd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn helpu i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol a ddaw yn sgîl Brexit a Newid Cyfansoddiadol, tra'n parhau i weithio, cyhyd ag sy'n bosibl, o fewn cap cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi.

I grynhoi, nodau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol fydd:

- caniatáu i'r Comisiwn ymateb i newidiadau yn y gofynion o ran sgiliau ac arbenigedd;
- hwyluso newid sefydliadol, gan gynnwys o fewn timau penodol;
- gwella effeithlonrwydd y gweithlu; a
- phan fo hynny'n bosib, darparu arbedion hirdymor ac osgoi cynyddu maint y sefydliad wrth ddiwallu anghenion o ran adnoddau.

Rydym yn bwriadu lansio'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol ar 22 Tachwedd 2018, a bydd y cyfle i wneud cais yn agored tan ddechrau mis Ionawr 2019. Bydd y cynllun yn cael ei gynnal yn unol â rheolau'r Swyddfa Gabinet / Trysorlys a bydd ganddo feini prawf asesu a



phrosesau penderfynu cadarn. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth lawn yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad archwilio mewnol o'n cynlluniau blaenorol ac o adolygiad ehangach Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau ymadael. Mae ochr yr Undebau Llafur (TUS) wedi cael gwybod am ein bwriad i gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a bydd yn cael ei wahodd i arsylwi ar waith y panel dethol.

Ystyriwyd y goblygiadau ariannol yn ofalus ac rydym wedi nodi cyllideb o hyd at £800,000. Gallaf gadarnhau y gellir cyllido'r gyllideb hon o danwariant o gyllideb staffio weithredol y Comisiwn, sydd, i raddau helaeth iawn yn deillio o lefelau uwch na'r arfer o drosiant staff. Mae'r gyllideb hon yn debyg i'r gyllideb o £850,000 a bennwyd ar gyfer Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2015, a neilltuwyd £650,000 o hon. Pennodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £5.5 miliwn ar gyfer ei Chynllun Ymadael Gwirfoddol diweddaraf.

Yn olaf, bydd costau'r cynllun yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, ym mis Gorffennaf 2019.

Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth.



Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

RHEOLI APWYNTIADAU CLEIFION ALLANOL AR DRAWS CYMRU HYDREF 2018



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Andrew Doughton, Emily Howell, Katrina Febry, Delyth Lewis, Matthew Brushett a Sara Utley o dan gyfarwyddyd David Thomas.


Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

CRYNODEB	3
CANFYDDIADAU MANWL	5
ARGYMHELLION	15

Mae gan wasanaethau cleifion allanol ran holl bwysig i'w chwarae yn y rhan fwyaf o lwybrau gofal y GIG

Mae adrannau cleifion allanol yn gweld mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran arall yn yr ysbyty, gydag oddeutu 3.1 miliwn o gleifion yn mynychu bob blwyddyn ar draws Cymru.

Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith fawr ar amgyffrediad y cyhoedd o ansawdd, ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau iechyd yn gyffredinol.



Apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd i gyfrif am gyfran fawr o weithgaredd cleifion allanol ond dros y blynyddoedd diwethaf bu pryderon ynglŷn â'r modd y caiff yr apwyntiadau hyn eu rheoli

- Apwyntiad dilynol yw un sy'n dilyn ar ôl i gleifion fod yn yr apwyntiad cleifion allanol cyntaf.
- Mae dros dwy ran o dair o'r holl apwyntiadau cleifion allanol yn apwyntiadau dilynol.
- Yn 2014, cyhoeddodd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru (RNIB) adroddiad o'r enw **Real patients coming to real harm**. Tynnai'r adroddiad hwn sylw at y risg bod cleifion offthalmoleg yn colli eu golwg oherwydd oedi cyn iddynt gael apwyntiad dilynol.

- Y pryderon a godwyd gan RNIB oedd yr ysgogiad ar gyfer gwella'r systemau ar gyfer rheoli apwyntiadau dilynol ym maes offthalmoleg, dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol, a'r angen, wedi hynny, i fyrddau iechyd lunio adroddiad misol ar eu sefyllfa o ran apwyntiadau dilynol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau'r byrddau iechyd ar gyfer rheoli apwyntiadau cleifion allanol yn 2015-16. Canfu'r gwaith hwn...

- Fod niferoedd mawr o gleifion ar restrau aros am apwyntiadau dilynol, a bod nifer o gleifion yn wynebu oedi cyn cael apwyntiadau.
- Nad oedd y risgiau posibl oherwydd oedi mewn apwyntiadau dilynol yn cael eu hasesu'n effeithiol.
- Bod trefniadau byrddau iechyd ar gyfer adolygu perfformiad apwyntiadau dilynol cleifion allanol heb ddatblygu'n ddigonol yn gyffredinol.
- Er bod yr holl fyrddau iechyd yn gweithio i wella cywirdeb eu rhestrau aros am apwyntiadau dilynol, nad oedd y rhan fwyaf yn bodloni gofynion adrodd Llywodraeth Cymru.
- Mai esgor ar atebion byrdymor yn bennaf yr oedd y camau gweithredu i wella gwasanaethau cleifion allanol.




Cyflwynwyd adroddiadau'n lleol ac yn genedlaethol ar ganfyddiadau gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015-16...

Cafodd pob bwrdd iechyd adroddiad ag ynddo argymhellion ar gyfer gwneud gwelliannau.

Fe wnaethom rannu crynodeb o'r canfyddiadau o waith archwilio lleol mewn byrddau iechyd, ynghyd â meysydd gweithredu allweddol, gyda Bwrdd cenedlaethol y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu ym mis Mai 2016.

Yn 2017-18, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol waith pellach i asesu'r cynnydd ar lefel leol a chenedlaethol mewn ymateb i'r heriau a'r problemau a welodd yn ei waith yn 2015. Canfu hwn...

- Fod byrddau iechyd wedi gwneud rhyw gymaint o gynnydd ond fod y gwelliannau'n araf ac yn gyfyngedig eu heffaith, a bod yr oedi mewn apwyntiadau dilynol yn amrywio'n fawr iawn ar draws Cymru.
- Bod trefniadau gwella cenedlaethol yn dechrau canolbwyntio ar gleifion allanol, ond mai at ychydig o welliannau gwirioneddol y maent wedi arwain cyn belled.
- Er 2015, mae nifer y cleifion allanol ar restrau aros am apwyntiadau dilynol a'r rheini sy'n hwyr yn cael apwyntiad wedi cynyddu'n sylweddol.



Tudalen y pecyn 96



Mae'r ffaith bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers ein gwaith gwreiddiol yn 2015-16 yn peri cryn bryder ac mae angen gweithredu mewn nifer o feysydd ...


- Mae angen i fyrddau iechyd asesu a rheoli'n well y risgiau clinigol i gleifion oherwydd oedi cyn iddynt gael eu hapwyntiadau dilynol.
- Mae angen rhoi sylw ar frys i'r amrywiad di-esboniad mewn apwyntiadau gohiriedig ar draws byrddau iechyd.
- Mae angen canolbwyntio mwy ar reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol mewn trefniadau rheoli perfformiad cenedlaethol a lleol.
- Mae angen i drefniadau gweithgorau cenedlaethol ysgogi newid a gwelliannau'n lleol yn fwy effeithiol.
- Mae angen i'r gwaith i foderneiddio a gwella'r system cleifion allanol ddigwydd ynghynt, a chael cefnogaeth arweinyddiaeth glinigol gadarn ac ymrwymedig.
- Mae angen cael strategaeth gliriach ar gyfer cefnogi modelau gwasanaeth cleifion allanol newydd gan ddefnyddio technoleg, a honno wedi'i seilio ar gynlluniau sydd wedi'u costio ac sy'n cael adnoddau digonol.

CANFYDDIADAU MANWL

- 1 Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac amlweddol, ac mae ganddynt ran hollbwysig i'w chwarae yn llwybrau gofal cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith fawr ar amgyffrediad y cyhoedd o ansawdd, ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd byrddau iechyd yn gyffredinol.
- 2 Mae gwasanaethau dilynol cleifion allanol yn rhan ganolog o ffordd o roi triniaeth barhaus i gyfran fawr a chynyddol o'r boblogaeth. Bydd gan gleifion lu o anghenion gwahanol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) adolygu ar ôl llawdriniaeth, rheoli neu gynnal cyflyrau cronig, neu fonitro am arwyddion o ddirywiad, cyn ymyrraeth.
- 3 Mae byrddau iechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol sy'n ffurfio rhan o'r llwybr o'r atgyfeiriad i'r driniaeth ac mae'r rhain yn rhwym wrth darged Llywodraeth Cymru o 26 wythnos. Fodd bynnag, mae apwyntiadau dilynol i lawer o gleifion yn syrthio'r tu allan i'r llwybr o'r atgyfeiriad i'r driniaeth. Caiff yr apwyntiadau dilynol hyn eu rheoli o fewn canllawiau clinigol os oes rhai ar gael ac o fewn dyddiadau a osodir gan glinigwyr ar gyfer apwyntiadau dilynol. Bydd y dyddiadau hyn yn wahanol, yn ddibynnol ar yr arbenigedd, y cyflwr a barn y clinigydd. Caiff oedi ei fesur ar sail hyd yr oedi y tu hwnt i'r dyddiad targed a osodir gan glinigwyr, fel canran. Cesglir data ar gleifion sy'n wynebu oedi 100% hy cleifion sy'n aros, fan leiaf, ddwywaith cyn hired ag y dylent.
- 4 Mae risgiau clinigol hysbys yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig, a gall cleifion ddiodef niwed diwrthdro tra ar restr aros. Amlygodd adroddiad RNIB y risgiau y gallai cleifion offthalmoleg golli eu golwg oherwydd apwyntiadau dilynol gohiriedig, ond ceir hefyd nifer o arbenigeddau risg uchel eraill lle gallai cleifion gael eu niweidio i'r un graddau oherwydd oedi cyn iddynt gael gofal dilynol.
- 5 Mae angen system dda i reoli gwasanaethau dilynol cleifion allanol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus drwy:
 - sicrhau mai ond y rheini sydd ag angen glinigol i weld arbenigwr aciwt sy'n cael eu rhestru am apwyntiadau dilynol;
 - mabwysiadu dulliau gweithredu gweld pan geir symptomau¹ a rhith-glinigau²;
 - defnyddio cyfleoedd i ddefnyddio technoleg³ er enghraifft drwy ganiatáu i gleifion reoli eu cyflwr eu hunain, osgoi teithio diangen, a chofnodi a thracio canlyniadau;
 - gweddnewid y llwybr a'r model gwasanaethau, drwy ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned ac mewn sefydliadau gofal sylfaenol, gan ddibynnu llai ar fodelau gofal traddodiadol yn yr ysbyty.

■ TROEDNODIADAU

- 1 Mae dull 'gweld pan geir symptomau' yn arwain at ryddhau cleifion pan fydd yn glinigol ddiogel gwneud hynny, ac yna ddibynnu ar fod y claf yn hunan-gyfeirio os caiff unrhyw broblemau â'i gyflwr.
- 2 Nid oes un diffiniad i'w gael ar gyfer cwmpas a swyddogaeth rhith-glinig. Fodd bynnag, gallai'r rhain fod yn glinigau sy'n arwain at fod penderfyniad clinigol yn cael ei wneud heb fod angen i'r claf fod yn bresennol. Gallai'r rhain gynnwys adolygu nodiadau achos, adolygu canlyniadau profion diagnostig neu cysylltu â'r claf drwy ffôn neu fideo.
- 3 Mae'n cynnwys defnyddio e-bost a/neu neges destun i lwytho canlyniadau profion neu ddarlleniadau pwysedd gwaed er mwyn lleihau'r angen i fynychu apwyntiad claf ariannol.



Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol

- 6 O ganlyniad i bryderon cenedlaethol cynyddol ynglŷn â rheoli cleifion allanol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal adolygiadau cychwynnol a dilynol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn helpu i ddiffinio maint yr heriau a wynebwr a'r cynnydd a wnaed i roi sylw iddynt.
- 7 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi:
 - y cynnydd a wnaeth bob bwrdd iechyd ers adolygiad cychwynnol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015-16, a ganolbwyntiai ar ddilysu data a gwneud adroddiadau ar ddata, trefniadau i ganfod y risgiau i gleifion, a maint y gwelliant gweithredol a'r gwaith mwy hirdymor o foderneiddio gwasanaethau.
 - trefniadau cenedlaethol i wella dulliau rheoli a pherfformiad apwyntiadau dilynol cleifion allanol; a
 - newidiadau yn y rhestr aros, gan gynnwys nifer y cleifion sy'n aros ar y rhestr aros am apwyntiadau cleifion allanol dilynol, a'r rheini sy'n wynebu oedi.

Mae'r Byrddau Iechyd wedi gwneud rhyw gymaint o gynnydd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn 2015-16, ond bod cyflymder ac effaith y gwelliannau hynny'n gyfyngedig, a bod y graddau y mae cleifion yn wynebu apwyntiadau gohiriedig yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru

- 8 Yn 2015-16, canfu'r archwilwyr:
 - fod y rhestrau aros am apwyntiadau yn fawr, a bod oedi yn dal i beri pryder sylweddol ar draws Cymru;
 - nad oedd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd yn cyflawni'n gyson ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio adroddiadau;
 - bod pob bwrdd iechyd yn gweithio i wella cywirdeb rhestrau aros am apwyntiadau dilynol;
 - nad oedd byrddau iechyd yn asesu'n effeithiol y risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi;
 - nad oedd y gwaith o lunio adroddiadau a chraffu ar berfformiad apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn y byrddau iechyd yn ddigonol; a
 - bod y byrddau iechyd yn cymryd llawer o gamau byrdymor i wella gwasanaethau cleifion allanol, ond fod cynlluniau mwy hirdymor i lunio modelau gwasanaethau newydd yn llai datblygedig.
- 9 Ym mhob bwrdd iechyd, mae archwilwyr wedi gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o wella'r ffordd y rheolir apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Dangosodd ein hadolygiadau dilynol yn y byrddau iechyd yn 2017-18 y gwnaed rhyw gymaint o gynnydd mewn ymateb i'n hargymhellion gwreiddiol, ond mai araf y bu'r cynnydd mewn meysydd allweddol.



- 10 Mae gan rai byrddau iechyd well dealltwriaeth o'r risg glinigol sy'n gysylltiedig â niwed oherwydd oedi ond mae angen gwneud mwy o waith. Canfuom:
- fod byrddau iechyd wedi gweithredu mewn ffyrdd gwahanol i ganfod y risg glinigol o niwed sy'n gysylltiedig ag oedi.
 - bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi llunio dull mwy systematig ar gyfer nodi'r arbenigeddau a'r cyflyrau sy'n peri'r risg fwyaf o niwed a bod gwaith tebyg yn mynd rhagddo ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Bu byrddau iechyd eraill yn arafach yn ymateb.
 - nad yw'r systemau i nodi achosion o niwed sy'n gysylltiedig ag oedi yn effeithiol eto.


ASTUDIAETH ACHOS:

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu asesiad o risg glinigol i adnabod yr arbenigeddau neu'r cyflyrau clinigol sydd â risg glinigol uwch yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol gohiriedig. Mae eu dadansoddiad yn nodi'r arbenigedd, y cyflwr clinigol penodol a'r niwed posibl y gallai oedi ei achosi. Caiff yr asesiad ei ddefnyddio i hysbysu sut caiff adnoddau eu cyfeirio at y meysydd lle ceir y risg fwyaf o niwed.

- 11 Mae'r holl fyrdau iechyd yn gweithio i wella effeithiolrwydd gweithredol cyffredinol y gwasanaethau i gleifion allanol. Canfuom:
- fod byrddau iechyd yn cyflwyno gwasanaethau atgoffa drwy negeseuon testun i leihau nifer y cleifion sydd 'ddim yn mynychu';
 - darlun sy'n gwella o safbwynt defnyddio amser clinigau drwy adolygu templedi clinigau i sicrhau y ceir cydbwysedd priodol rhwng slotiau apwyntiadau newydd a rhai dilynol;
 - gwell prosesau ar gyfer dadansoddi'r galw a'r capasiti ar gyfer rhoi triniaethau i gleifion allanol; a
 - gwell defnydd o 'ddilysu' yn glinigol restrau aros am apwyntiadau dilynol er mwyn sicrhau mai ond y cleifion hynny sydd ag angen clinigol sy'n cael apwyntiad dilynol.


- 12 Fodd bynnag, ychydig o effaith hyd yma y mae'r cynlluniau uchod wedi'i chael ar y twf yn y galw. Canfu'r Archwilwyr:
- fod angen datblygu ymhellach rai agweddau ar y gwaith o wella gweithrediad apwyntiadau cleifion allanol, megis lleihau nifer yr atgyfeiriadau clinigol amhriodol, llunio llwybrau clinigol effeithlon, a chyflwyno ar draws y system lwybrau 'gweld pan geir symptomau';
 - nad oedd dim un o'r argymhellion a wnaeth yr archwilwyr yn 2015-16 ynglŷn â moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol wedi'u cyflawni a bod y cynnydd yn dal i fod yn araf ac yn heriol; ac
 - y ceid ymwybyddiaeth bod angen gwneud mwy i roi sylw i amrywiadau mewn ymarfer clinigol megis gweithredu'n llwybr cataractau yn gyson ar draws Cymru.
- 13 Mae byrddau iechyd yn gwneud rhai gwelliannau i ansawdd a dibynadwyedd data a gwybodaeth am gleifion allanol. Canfuom:
- Fod Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Aneurin Bevan wedi datrys y problemau'n ymwneud â pheidio ag adrodd yn gyflawn am y cleifion sydd ar y rhestr aros am apwyntiadau dilynol a oedd ag apwyntiad wedi'i drefnu, er i hyn barhau i fod yn broblem i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hyd at 2018; a
 - bod gwybodaeth o well ansawdd a lefelau yn cael ei defnyddio'n fewnol yn awr gan fyrdau iechyd er mwyn gallu rheoli'n effeithiol y gweithgaredd gwella gweithredol a'r perfformiad
- 14 Mae nifer y cleifion sy'n gorfod aros mwy na dwywaith yn hwy nag y dylent yn amrywio ar draws byrddau iechyd ac arbenigeddau (**Arddangosyn 1 a 2**). Er bod rhyw gymaint o'r amrywiad hwn yn adlewyrchu maint cyffredinol y gweithgareddau mewn byrddau iechyd mwy, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn esbonio'r amrywiad a welwyd mewn byrddau iechyd a rhyngddynt. Mae'r data yn dangos yn glir bod angen cymryd camau unioni wedi'u targedu a gwneud cynlluniau gwasanaethau cynaliadwy sydd wedi'u diogelu at y dyfodol.

Arddangosyn 1: nifer y cleifion allanol dilynol sy'n gorfod aros mwy na dwywaith yn hwy nag y dylent, yn ôl bwrdd iechyd, fel ym mis Ebrill 2018



Ffynhonnell: Cyflwyniadau gan y Byrddau Iechyd i Lywodraeth Cymru

Arddangosyn 2: nifer y cleifion allanol dilynol sy'n gorfod aros mwy na dwywaith yn hwy nag y dylent, yn ôl arbenigedd a bwrdd iechyd, fel ym mis Ebrill 2018




Ffynhonnell: Cyflwyniadau gan y Byrddau Iechyd i Lywodraeth Cymru

Mae trefniadau gwella cenedlaethol yn dechrau canolbwyntio ar gleifion allanol, ond hyd yma ychydig o welliannau gwirioneddol y maent wedi arwain atynt

- 15 Ceir gwell cydnabyddiaeth o faint y broblem, ynghyd ag uchelgais gynyddol i ddelio â'r broblem hon ar lefel genedlaethol:
- er 2016, mae Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu wedi bod yn canolbwyntio fwyfwy ar apwyntiadau dilynol cleifion, drwy greu Grŵp Llywio ar gyfer Cleifion Allanol.
 - mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynnu bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â sialensiau gwella apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws pedwar arbenigedd, sef orthopedeg, offthalmoleg, ENT ac wroleg. Sefydlwyd grwpiau cefnogi dan Fwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu i adlewyrchu'r pedwar arbenigedd hwn.
 - bu gwaith yn mynd rhagddo er 2016 i lunio casgliad o arferion da, arweiniad arferion da a digwyddiadau dysgu cenedlaethol, ond mae'n ymddangos bod y graddau y mae'r rhain wedi'u mabwysiadu ar lefel glinigol mewn byrddau iechyd yn amrywiol iawn.
 - mae gweledigaeth lefel uchel ar gyfer cleifion allanol yn datblygu, ond ceir hefyd ddiffyg eglurder ynglŷn ag i ba raddau y mae'r byrddau iechyd yn gytûn ynglŷn â'r weledigaeth, ac i ba raddau y maent yn ei mabwysiadu, a hefyd ynglŷn â'r cynlluniau i'w chyflawni.
 - ceir ymrwymiad i ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion i wella effeithlonrwydd, ond nid yw'r camau gweithredu yn y meysydd hyn eto'n cael eu gweithredu ar raddfa ddigon cyflym nac i raddau digonol.

- 16 Mae'r trefniadau perfformiad hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar y targed amser 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth:
- mae'r ffocws ar wella perfformiad yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth, yn enwedig ar ddiwedd blwyddyn, yn esgor ar gynydd mewn apwyntiadau newydd ond mae hefyd yn arwain at alw cynyddol am waith dilynol, oherwydd y bydd ar y rhan fwyaf o gleifion newydd angen apwyntiad dilynol. Nid yw'r cyllid ychwanegol a ryddhawyd i wella perfformiad amseroedd aros yn cynnwys cyllid ar gyfer y galw ychwanegol am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Mae hyn yn ymestyn y bwlch rhwng y galw a'r capasiti sy'n cael adnoddau ar gyfer rhestrau aros am apwyntiadau dilynol cleifion allanol.
 - ni fu apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn un o'r targedau perfformiad allweddol mewn trefniadau rheoli perfformiad cenedlaethol a lleol. Yn fwy diweddar, er hynny, mae'r agweddau ansawdd a diogelwch ar apwyntiadau dilynol yn dechrau cael eu trafod mewn cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni cenedlaethol â byrddau iechyd.
 - mae targed rheoli perfformiad newydd ar gyfer offthalmoleg, sy'n integreiddio'r llwybr o'r atgyfeiriad i'r driniaeth â gofal dilynol cleifion allanol, wrthi'n cael ei gyflwyno. Gallai hwn alluogi gwell ffocws ar ganlyniadau cleifion ac ar niwed ataliadwy.



- 17 Mae mwy o ddata ar gael, ond nid yw'n gwbl ddibynadwy eto ac nid yw'r wybodeg eto'n ddigonol i alluogi i welliannau gael eu gwneud i lwybrau cleifion allanol:
- nid yw'r cyfleoedd sydd ar gael drwy ddefnyddio mwy ar wybodeg eto'n cael eu cymryd i alluogi atebion 'cyflym i'w cyflwyno' er mwyn gwella trefniadau rheoli cleifion allanol.
 - mae'n ymddangos bod y systemau clinigol ar wahân ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd yn annog trefniadau gweithio annibynnol. Nid yw hyn eto'n galluogi proses o reoli llwybrau'n integredig ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd – mae hyn yn bwysig dros ben ar gyfer rheoli cleifion â chyflyrau cronig.
 - ni chaiff gwybodeg ei chynnwys ac ni cheir adnoddau digonol mewn rhai o strwythurau'r grwpiau gofal wedi'i drefnu.
 - oddi ar linell sylfaen isel yn 2014, mae ansawdd data ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn gwella. Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth bob amser ei chofnodi yn yr un ffordd (megis 'gweld pan geir symptomau' a rith-glinigau), a chaiff y broses o asesu risg glinigol cleifion ei llesteirio gan ddiffyg codau ar gyfer cyflyrau clinigol. Mae'r grŵp llywio ar gyfer cleifion allanol wrthi'n gweithio ar safoni diffiniad o rith-glinig.
- 18 Er bod parodrwydd clinigol i newid, mae angen gwneud mwy i osod y cyfeiriad clinigol ar draws Cymru:
- ceir diffyg arweinyddiaeth glinigol yn y Grŵp Llywio cenedlaethol ar gyfer Cleifion Allanol. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar welliannau gweithredol megis cyfraddau 'ddim yn mynychu' ond ceir cyfleoedd i ganolbwyntio mwy ar y newidiadau gofynnol mewn llwybrau ac ymarfer clinigol.
 - ceir rhwystrau sy'n llesteirio cynnydd cyflym i wella effeithlonrwydd apwyntiadau cleifion allanol, gyda rhai clinigwyr yn amharod i newid ymarfer clinigol ynghyd â diffyg dull systematig o fabwysiadu llwybrau clinigol darbodus y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, er enghraifft, llwybrau pen-gliniau a chataractau.
- ceir cyfle i ymgysylltu mwy â chyfarwyddwyr meddygol, fel ffordd o arwain newid clinigol a mabwysiadu llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn y byrddau iechyd.
- 19 Nid yw trefniadau'r Rhaglen genedlaethol Gofal wedi'i Drefnu yn ffafriol i ysgogi newid amserol na gwella perfformiad:
- dealltwriaeth amrywiol a geir ymysg rhanddeiliaid allweddol o rôl a swyddogaeth y grwpiau arbenigeddau cenedlaethol ar gyfer gofal wedi'i drefnu. Cred rhai eu bod yn darparu trosolwg diagnostig, tra bo eraill yn credu bod y grwpiau'n gyfrifol am gyflawni newid ar draws Cymru.
 - ac ystyried maint yr her i wella a moderneiddio gwasanaethau'n genedlaethol, nid oes gan y grwpiau'r capasiti na'r awdurdod angenrheidiol i ysgogi newidiadau rhwng cyfarfodydd. Nid yw'r grwpiau ychwaith yn cwrdd yn ddigon aml, ac ar bod ganddynt aelodaeth fawr, ceir nifer fawr o ymddiheuriadau.
 - tan yn ddiweddar, cafwyd diffyg achosion o ddwyn byrddau iechyd i gyfrif am gyflawni'r gwelliannau i wasanaethau a'r newid a nodwyd drwy gyfrwng Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu a'i grwpiau arbenigedd ategol. Mae cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu, fodd bynnag, yn awr yn cael lle amlycach yng nghyd-gyfarfodydd rheolaidd y Timau Gweithredol â byrddau iechyd.
 - nid yw diffyg capasiti ar lefel genedlaethol o anghenraid yn golygu bod cyllid refeniw ychwanegol yn ofynnol, ond fe allai'r capasiti presennol ar draws y seilwaith cenedlaethol gael ei gydlynu'n well.
 - mae'r Grŵp Llywio ar gyfer Cleifion Allanol yn ddiweddar wedi cryfhau ei aelodaeth a'i ffocws, ond ceir diffyg arweinyddiaeth glinigol o hyd, ac mae angen iddo ddangos ei fod yn cael dylanwad positif ar wella a gweddnewid perfformiad gwasanaethau mewn byrddau iechyd.
- 20 Mae'n ymddangos bod y materion a nodir uchod yn cymedroli maint yr uchelgais i'r 'hyn a allai fod yn gyraeddadwy' yn hytrach na'r 'hyn sydd angen ei wneud'.

Tudalen y pecyn 102

Er 2015, mae nifer y cleifion allanol sydd ar restrau aros am apwyntiadau, a'r rheini sy'n hwyr yn cael apwyntiad wedi cynyddu'n sylweddol

- 21 Mae dadansoddi cyflwyniadau data'r byrddau iechyd i Lywodraeth Cymru wedi peri cryn bryder gyda nifer gynyddol o gleifion yn aros, twf mewn apwyntiadau dilynol gohiriedig, ac yn benodol twf yn y nifer sy'n aros ddwywaith cyn hired ag y dylent fod.
- 22 Gwelwyd twf cyffredinol yn nifer y cleifion a oedd yn aros am apwyntid cleifion allanol rhwng mis Ebrill 2015 ac Ebrill 2018. Caiff y twf hwn ei adlewyrchu ar draws nifer o arbenigeddau prysur iawn (**Arddangosyn 3**).

TWF O 12%

Mae nifer gyfartalog y cleifion allanol ar y rhestr aros am apwyntiad dilynol wedi codi o 941,000 i 1,059,000 rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2018

- 23 Mae nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol gohiriedig wedi tyfu'n sylweddol rhwng 2015 a 2018 (**Arddangosyn 4**):
- ym mis Ebrill 2015, roedd 240,108 o gleifion allanol yn aros am apwyntiadau dilynol gohiriedig. Mae'r ffigur hwn wedi codi i 376,229 erbyn Ebrill 2018.
 - ym mis Ebrill 2015, roedd 128,000 o gleifion allanol yn aros ddwywaith cyn hired ag y dylent fod. Erbyn Ebrill 2018, mae'r ffigur hwn wedi codi i ychydig o dan 200,000 o gleifion.











TWF O 55%

Cleifion sy'n aros ddwywaith cyn hired ag y dylent (oedi 100%)



Tudalen y pecyn 103

Arddangosyn 3: nifer y cleifion allanol sy'n aros am apwyntiad dilynol ym mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2018, yn ôl arbenigedd

Arbenigedd	Cleifion allanol sy'n aros am apwyntiad dilynol Ebrill 2015	Cleifion allanol sy'n aros am apwyntiad dilynol Ebrill 2018
 ORTHOPEDEG	131,105	150,283
 OFFTHALMOLEG	97,784	116,758
 LLAWDRINIAETH GYFFREDINOL	63,564	69,706
 CARDIOLEG	54,578	65,064
 ENT	53,194	66,299
 WROLEG	44,731	51,592
 PEDIATREG	34,047	46,131
 GYNAECOLEG	40,481	42,636
 DERMATOLEG	38,104	38,996
 GASTROENTEROLEG	27,678	34,208

Ffynhonnell: Cyflwyniadau gan y Byrddau Iechyd Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 104

24 O'i gymharu â'r rhestr aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ceir llawer mwy o gleifion sy'n wynebu apwyntiadau cleifion allanol dilynol gohiriedig:

- drwyddi draw, mae nifer y cleifion ar y rhestr aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth wedi cynyddu 0.7% i 431,872, ac mae nifer y cleifion ar y rhestr aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol wedi cynyddu 12% i 1,059,610 rhwng mis Ebrill 2015 ac Ebrill 2018; ac
- ym mis Ebrill 2018, roedd 88% o gleifion yn aros o fewn 26 wythnos ar y rhestr aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar yr un pryd dim ond 65% o gleifion allanol dilynol sydd o fewn eu dyddiad apwyntiad targed.

25 Wrth baratoi a thrafod yr adroddiad hwn â rhanddeiliaid, cyfeiriwyd at nifer o esiamplau da o waith a fydd yn cael effaith bositif ar reoli apwyntiadau dilynol. Mae hyn yn galonogol, er y bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw arferion da o'r fath yn cael eu rhannu, eu lledaenu a'u cynyddu i ysgogi'r newid sy'n ofynnol.


Arddangosyn 4: nifer y cleifion sy'n gorfod aros ddwywaith cyn hired ag y dylent rhwng mis Ebrill 2015 ac Ebrill 2018, yn ôl arbenigedd

Arbenigedd	Nifer y cleifion sy'n gorfod aros ddwywaith cyn hired ag y dylent			
	Ebrill 2015	Ebrill 2016	Ebrill 2017	Ebrill 2018
Orthopedeg	17,294	19,723	23,881	33,063
Offthalmoleg	16,412	17,143	21,438	28,009
Wroleg	11,056	11,019	9,938	11,593
Cardioleg	7,529	6,954	9,231	11,464
ENT	7,939	8,491	8,322	11,089
Gastroenteroleg	5,819	7,229	9,171	10,488
Llawdriniaeth gyffredinol	9,273	7,552	8,688	10,331
Gynaecoleg	6,057	6,528	7,744	9,794
Pediatreg	2,939	4,991	5,805	6,710
Dermatoleg	3,973	3,877	4,047	6,112

Ffynhonnell: Cyflwyniadau gan y Byrddau Iechyd i Lywodraeth Cymru


Ym mis Ebrill 2018, roedd dros 13 gwaith cynifer o bobl yn aros ddwywaith yn hwy nag y dylent ar y rhestr apwyntiadau dilynol o'i gymharu â nifer y cleifion a oedd yn aros ar y rhestr rhwng atgyfeirio a thriniaeth am dros 36 wythnos.

RHWNG ATGYFEIRIO A THRINIAETH >36 WYTHNOS



(14,797)

CLEIFION ALLANOL DILYNOL OEDI 100%



(199,968)

Tudalen y pecyn 106

26 Mae'r twf parhaus yn rhestrau aros cleifion allanol am apwyntiadau dilynol a nifer y cleifion sy'n aros y tu hwnt i'w dyddiad targed am adolygiad dilynol yn pwyntio at yr angen am gydweithredu pellach i atal a gwyrddroi'r tueddiad hwn. Yn ychwanegol at yr argymhellion a roesom i'r byrddau iechyd drwy ein hadroddiadau archwilio lleol, gwnawn yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru.

R1 Gosod uchelgais glir – gosod targed a ffrâm amser clir i leihau nifer y cleifion sy'n aros ddwywaith cyn hired ag y dylent fod (hy oedi 100%).

R2 Cryfhau'r strwythur cyflawni cenedlaethol – addasu Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu a'i strwythur sylfaenol i sicrhau ei fod yn cyflawni gwelliannau sy'n gwella perfformiad apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn sylweddol, ac ysgogi datblygiad modelau a llwybrau gwasanaethau sydd wedi'u gweddnewid sy'n effeithlon ac sy'n bodloni'r twf disgwyliedig yn y galw. Drwy wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau:

- bod aelodaeth Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu a'i grwpiau ategol yn briodol.
- bod y llinellau atebolrwydd ar gyfer cyflawni camau gweithredu er mwyn gwella ar lefel genedlaethol ac ar lefel y byrddau iechyd yn glir ac yn gweithio fel y dylent.
- y ceir capasiti digonol i arwain newid rhwng cyfarfodydd o'r amrywiol grwpiau, a ddylai gynnwys ystyried amllder cyfarfodydd, defnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen rhwng cyfarfodydd, a chapasiti aelodau i arwain ar welliannau rhwng cyfarfodydd.
- sicrhau bod gwybodeg yn rhan annatod o'r ateb. Mae angen i NWIS fod yn un o'r rhanddeiliaid allweddol sy'n caffael, yn datblygu ac yn rheoli atebion er mwyn gwella gwasanaethau cleifion allanol a modelau gofal newydd. Dylai'r gwasanaeth fod yn un o aelodau allweddol Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu. Os oes gofyn cael atebion technolegol, gallai caffael yn hytrach na datblygu arwain at gyflawni mwy yn well ac ynghynt.

R3 Datblygu cynllun clir i gefnogi datblygiadau ar lefel genedlaethol mewn gwasanaethau – pennu cynllun gweithredu clir sy'n angenrheidiol ar lefel genedlaethol i gynyddu a chyflymu'r broses o weddnewid apwyntiadau cleifion allanol drwy gyfrwng strwythur Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Drefnu, sydd wedi'i gostio ac sy'n cael adnoddau digonol, ac sy'n defnyddio'r technolegau sydd ar gael i'r eithaf.

R4 Cynllunio gwasanaethau cynaliadwy – sicrhau y ceir cynlluniau clir i wella perfformiad apwyntiadau dilynol a moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol yng nghynlluniau blynyddol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) byrddau iechyd.

R5 Cysoni blaenoriaethau'r adnoddau cenedlaethol – er mwyn sicrhau bod yr adnoddau cenedlaethol sydd ar gael i hybu gwelliant, megis yr Uned Gyflawni, yn cael yr effaith orau bosibl, sicrhau bod eu rhaglenni gwaith yn gyson er mwyn helpu i weddnewid gwasanaethau cleifion allanol a lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol gohiriedig. Bydd yr adnoddau cenedlaethol yn cynnwys ond ni fyddant yn gyfyngedig i NWIS, yr Uned Gyflawni, a'r tîm 1,000 o fywydau.

R6 Cryfhau a chanolbwyntio ar atebolrwydd perfformiad – datblygu ar y ffocws sy'n datblygu yn y cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni mewn byrddau iechyd, drwy gryfhau'r ffocws ar ddwyn byrddau iechyd i gyfrif am gyflawni gwelliannau i leihau rhestrau aros apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

R7 Cryfhau atebolrwydd clinigol – cynyddu ymwybyddiaeth ymysg Cyfarwyddwyr Meddygol byrddau iechyd o'u cyfrifoldebau a'u rolau proffesiynol i fwrw ymlaen y newidiadau clinigol gofynnol a glynu wrth y canllawiau cenedlaethol ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefon: www.archwilio.cymru

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
Sally.Davies@audit.wales

20 November 2018

Dear Adrian

Auditor General for Wales Report – Follow Up Outpatients

I am writing in response to the report on Follow up Outpatients Appointments. I acknowledge the recommendations and areas highlighted for action and will work in partnership with the NHS to address them. While the report acknowledges that the Planned Care programme is working to support the reduction of follow-up delays, I do recognise that further work to transform outpatients and improve waiting times for outpatients is required. We will work with the Outpatients Steering Group (OPSG) to ensure that the OPSG challenges and drives delivery against the recommendations in your report and those already made to health boards through local audit reports.

I also acknowledge that despite significant past additional investment in this area a greater focus on service redesign is needed to deliver a sustainable service model for the future. This redesign requirement is strengthened through “A Healthier Wales” to care for patients in the most appropriate setting. There are many opportunities for different pathways and innovative multi disciplinary services, in appropriate settings outside the traditional secondary care model.

Following a presentation from the WAO on their report, the national OPSG group has developed a national outpatient performance dashboard. This dashboard will be used to monitor and challenge the progress health boards are making in achieving improvements. The dashboard will support the formal performance management process within Welsh Government which monitors progress against agreed targets, such as to reduce the numbers of patients delayed more than twice as long as their stated target review date.

The introduction of the new eye care measure highlights the impact that national work led by clinicians can have on the service. In this instance it is driving the management and redesign of eye care services.



I can confirm that we accept all the recommendations in the report, and I will now respond to each one in turn.

Recommendation 1

Set a clear ambition – set a clear target and timeframe to reduce the number of patients delayed twice as long as they should be waiting (i.e. 100% delays).

Recommendation – accepted

I have asked the OPSG to make recommendations to Welsh Government for a national target and timeframe for the reduction of the number of patients delayed twice as long as they should. Welsh Government will consider their advice before deciding on the actual target.

Recommendation 2

Strengthen the national delivery structure – adapt the Planned Care Programme Board and its underpinning structure to ensure it is delivering improvements that materially improve follow-up outpatient performance and drive the development of transformed service models and pathways that are efficient and meet expected growth in demand. In doing so, the Welsh Government should ensure:

- Membership of the Planned Care Programme Board and its supporting groups is appropriate;
- The lines of accountability for delivery of improvement actions at national and health board level are clear and work as required;
- There is sufficient capacity to lead change between meetings of the various groups, which should include consideration of the frequency of meetings, the use of task and finish groups between meetings, and the capacity of members to lead improvements between meetings;
- Ensure informatics is integral to the solution. NWIS needs to be a key stakeholder in procuring, developing and project managing solutions to improve outpatient services and new models of care. The service should be a key member of the Planned Care Programme Board. Where technological solutions are required, procurement rather than development may achieve better scalability and pace of delivery.

Recommendation - accepted

Membership and accountability of the programme is regularly reviewed. The next review of the programme role and function will form part of the “A Healthier Wales” recommendation looking at the role of programme boards and networks.

The review (due in early 2019) will also consider other aspects of this recommendation around resources and the role of digital support which is another key area of focus in the A Healthier Wales.

Recommendation 3

Develop a clear plan to support national level service developments – set out a clear plan of action needed at a national level to accelerate the scale and pace of outpatient transformation through the Planned Care Programme Board structure, which is costed and resourced, and makes maximum use of available technologies.

Recommendation - accepted

This will form part of the review of the role of national programmes and the linkage with the national transformation programme and fund, as covered in the response to recommendation two.

The OPSG are also in the process of developing an action plan that will accelerate a number of key actions to support the transformation required.

Recommendation 4

Plan sustainable services – ensure there are clear plans to improve follow-up performance and modernise outpatient services within health board Integrated Medium Term Plans (IMTP) and annual plans and we will revisit the detail of each organisations plans and commitments.

Recommendation – accepted

The need to improve follow-up performance and modernise outpatient services has been identified as a priority within the planning framework. I expect this to be fully addressed within health board Integrated Medium Term Plans (IMTP) and annual plans.

Recommendation 5

Align the priorities of the national resources – to maximise the impact of the national resources available to support improvement, such as the Delivery Unit, ensure that their programmes of work are aligned to support the transformation of outpatient services and reductions in follow-up delays. The national resources will include but not be limited to NHS Wales Informatics Services, the Delivery Unit, and the 1,000 lives team.

Recommendation – accepted

As part of the A Healthier Wales plan, work is in train to create a National Executive Function which will strengthen the national approach in key areas, including the transformation of the outpatient service. Whilst this is underway, my officials are aligning priorities across the support functions to ensure better alignment of the work of the Delivery Unit, NWIS and 1,000 Lives.

Recommendation 6

Strengthen and focus performance accountability – build on the developing focus at Quality and Delivery meetings with health boards, by strengthening the focus on holding health boards to account for delivering improvements to reduce follow-up outpatient waiting lists in the short, medium and long-term.

Recommendation – accepted

The outpatient dashboard described in our response to recommendation one will be formally used as part of the Welsh Government's accountability arrangements with health boards to ensure they achieve the required improvements and the appropriate redesign of services.

The national OPSG will be used to add additional challenge but and to support the sharing of good practice and national adoption where possible of evidence service redesign.

Recommendation 7

Strengthen clinical accountability – raise awareness amongst health board Medical Directors of their professional roles and responsibilities in driving through the required clinical changes and adherence to national follow-up outpatient guidance.

Recommendation – accepted

Through the Chief Medical Officers national group, NHS medical directors will be tasked with ensuring that local clinical leadership is fully engaged in the national OPSG as well as local outpatient improvement arrangements. This will accelerate and support the required drive in system changes. The clinical leads within the national planned care groups and the national planned care clinical lead will play an important role in providing visible clinical leadership.

Yours sincerely



Dr Andrew Goodall

cc: Cabinet mailbox – Government.Committee.business@wales.gsi.gov.uk
The PAC Chair via the PAC mailbox – SeneddPAC@Assembly.Wales
CGU mailbox - CGU@gov.wales
Simon Dean
Olivia Shorrocks
Frank Atherton
Chris Jones
Andrew Sallows

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Elaine Matthews, Fflur Jones, Katrina Febry, Phillip Jones, Rachel Harries, Tracey Davies ac Urvisha Perez dan gyfarwyddyd David Thomas.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys


	Adroddiad cryno	5
	Cefndir	5
	Y prif ganfyddiadau	7
	Y prif heriau ac argymhellion	11
1	Er gwaethaf y cynnydd yn y galw, mae'r targedau o ran yr amseroedd aros i gael archwiliad radioleg diagnostig yn cael eu bodloni i raddau helaeth ar hyn o bryd, ond mae rhai cleifion yn aros am gyfnod hir i gael canlyniadau eu harchwiliadau	16
2	Mae heriau o ran y gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i hyfforddi ac i arfarnu staff	25
3	Gan fod cyfarpar yn heneiddio a chan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, mae'n anoddach i'r byrddau iechyd ateb y galw, ac nid oes gan y byrddau iechyd ddigon o adnoddau staff i gynyddu eu horiau agor	31
4	Mae'r heriau o ran system TG radioleg Cymru gyfan a'r gwendidau o ran y seilwaith TG lleol yn llesteirio effeithlonrwydd gwasanaethau radioleg	37
5	Mae gwasanaethau radioleg yn cael eu rheoli'n dda o safbwynt gweithredol, ond mae lle i gryfhau'r gwaith craffu ar lefel y bwrdd a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau'n strategol	41
	Atodiadau	
	Methodoleg	50
	Y tueddiadau o ran yr amseroedd aros dros gyfnod o bum mlynedd	53

Adroddiad cryno

Cefndir


- 1 Gwasanaeth diagnostig ac ymyriadol pwysig a ddefnyddir i helpu i wneud diagnosis o glefydau ac anafiadau, eu monitro a'u trin yw radioleg.
- 2 Mae clinigwyr mewn ysbytai a meddygon teulu'n atgyfeirio cleifion i adrannau radioleg i gael archwiliadau radiolegol neu i gael gwneud delweddau. Mae radiograffwyr yn defnyddio cyfarpar radioleg soffistigedig i gynhyrchu gwahanol fathau o ddelweddau, gan ddibynnu ar y mater y maent yn ymchwilio iddo. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r prif dechnegau radioleg a ddefnyddir yn gyffredin ar draws y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).

Arddangosyn 1: y prif dechnegau delweddu radiolegol



Tomograffeg gyfrifiadurol (CT):

Defnyddir pelydrau X a chyfrifiadurol i greu delweddau manwl o strwythurau tu mewn i'r corff, gan gynnwys organau mewnol, pibellau gwaed ac esgyrn. Bydd cleifion yn gorwedd ar wely sy'n symud drwy sganiwr sydd yr un siâp â thoesen.




Delweddu cyseinnedd magnetig (MRI):

Defnyddir meysydd magnetig cryf a thonau radio i gynhyrchu delweddau manwl o'r tu mewn i'r corff. Gellir ei ddefnyddio i archwilio bron i unrhyw ran o'r corff, gan gynnwys esgyrn a chymalau, y galon a phibellau gwaed, ac organau mewnol fel yr afu/iau. Tiwb mawr y mae cleifion yn gorwedd ynddo yn ystod y sgan yw sganiwr MRI.



Uwchsain (US):

Defnyddir tonnau sain amledd uchel i greu delwedd o ran o'r tu mewn i'r corff. Mae chwiliedyddion uwchsain yn cynhyrchu tonnau sain amledd uchel. Mae'r tonnau sain yn adlamu oddi ar wahanol rannau o'r corff, gan greu 'atsain' y mae'r chwiliedydd yn ei chlywed a'i thro'i'n ddelwedd sy'n symud. Mae'r ddelwedd yn ymddangos ar fonitor tra mae'r sgan yn cael ei gynnal.



Pelydr X:

Defnyddir ymbelydredd sy'n pasio drwy'r corff. Caiff ynni'r pelydrau X eu hamsugno ar wahanol gyfraddau gan rannau o'r corff. Defnyddir pelydrau X yn bennaf i edrych ar esgyrn a chymalau, ond gellir eu defnyddio hefyd i ganfod problemau sy'n effeithio ar feinwe meddal, fel problemau yn y galon a thiwmorau.

Ffynhonnell: NHS Choices

- 3 Ar ôl cynnal archwiliad, bydd radiolegydd clinigol¹ yn edrych ar y ddelwedd neu'r delweddau ac yn paratoi adroddiad deongliadol. Mae radiolegwyr yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli cyflwr claf yn glinigol, rhoi cyngor ar y dechneg ddelweddu orau i sicrhau bod modd gwneud diagnosis, dethol y dechneg ddelweddu orau, a sicrhau bod y claf yn dod i gysylltiad â chyn lleied o ymbelydredd â phosibl. Mae radiolegwyr ymyriadol yn chwarae rôl fwy uniongyrchol o ran trin cleifion, gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n ymyrryd cyn lleied â phosibl, gyda chymorth delweddu radiolegol, i wneud diagnosis ac i drin clefydau amrywiol.
- 4 Ni ellir gwneud llawer o benderfyniadau clinigol ynghylch rheoli claf heb i radiolegydd gyfrannu at y diagnosis. Os oes trefn ddiagnostig gyflym ar waith, gellir gwneud penderfyniadau clinigol yn gyflym.
- 5 Yn yr adroddiad **Cyflenwi Gwasanaethau Delweddu Diagnostig yng Nghymru yn y Dyfodol** (2009)², nodwyd bod y galw am rai mathau o archwiliadau radiolegol yn cynyddu rhwng 10% a 15% y flwyddyn.
- 6 Yn 2010, crëwyd Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu ar gais Prif Weithredwyr y GIG i fod yn brif ffynhonnell cyngor, gwybodaeth ac arbenigedd ar gyfer cynllunio gwasanaethau radioleg diagnostig yng Nghymru. Drwy Brif Weithredwyr y GIG, dirprwywyd awdurdod i Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu fynd ati i ddatblygu a gweithredu rhaglen o waith strategol ym maes radioleg ac i fabwysiadu safonau a phrotocolau ar gyfer gwasanaethau radioleg ledled Cymru. Ers hynny, er gwaethaf cynnydd ar lefel genedlaethol, ceir nifer o heriau mawr nad ydynt wedi cael sylw manwl hyd yma.
- 7 Derbynnir yn eang fod anawsterau parhaus o ran recriwtio staff radioleg cyffredinol ac arbenigol. Ceir pryderon hefyd ynghylch gallu systemau gwybodaeth radiolegol i ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfarpar radioleg yn ddrud i'w brynu a'i gynnal. Mae'r perfformiad o ran amseroedd aros dros y pum mlynedd diwethaf yn awgrymu nad yw capasiti presennol ein gwasanaethau radioleg yn gynaliadwy.

1 Yn yr adroddiad hwn, mae cyfeiriadau at radiolegwyr yn cynnwys radiolegwyr ymgynghorol, meddygon graddfa ganol, cofrestryddion arbenigol a meddygon iau. Os byddwn yn gwyrto oddi wrth hyn, bydd cynnwys yr adroddiad yn egluro hynny, er enghraifft, drwy ddweud 'radiolegwyr ymgynghorol'.

2 [Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyflenwi Gwasanaethau Delweddu Diagnostig yng Nghymru yn y Dyfodol \(Saesneg yn unig\), 2009](#)

- 8 Dangosodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am **Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru** (Ionawr 2015)³ nad yw'r targedau o ran amseroedd aros i gael profion diagnostig yn cael eu bodloni. Yn yr un modd, dangosodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am yr **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg** (Mehefin 2015)⁴ fod amseroedd aros hir i gael archwiliadau radioleg yn cyfrannu at arosiadau hir i gael triniaeth orthopedeg gyffredinol.
- 9 O ystyried yr heriau, cychwynnodd yr Archwilydd Cyffredinol ar adolygiad o wasanaethau radioleg pob un o fyrddau iechyd Cymru ddiwedd 2016. Bu'r gwaith yn pwysu a mesur trefniadau pob un o'r byrddau iechyd i ateb y galw am archwiliadau radioleg, a gwnaed argymhellion i wella gwasanaethau. Ni chafodd radioleg therapiwtig ei chynnwys yn yr adolygiad. Mae **Atodiad 1** yn amlinellu'r dull archwilio a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith hwn.
- 10 Yn ystod 2016-17, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad gwerth am arian o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru⁵. Bu'r adolygiad yn ystyried y camau i roi prif systemau gwybodaeth y GIG ar waith, gan gynnwys y camau i gyflwyno RADIS⁶ ledled Cymru. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith nad yw staff rheng flaen yn fodlon â'r modd y mae RADIS yn gweithio.
- 11 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif negeseuon gwaith lleol yr Archwilydd Cyffredinol o ran gwasanaethau radioleg, ac mae'n cyfeirio at y canfyddiadau a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru lle bo'n berthnasol.

Y prif ganfyddiadau

- 12 Mae'r targedau o ran yr amseroedd aros i gael archwiliadau radioleg yn cael eu bodloni ar hyn o bryd ac mae ein gwaith wedi dangos bod gwasanaethau radioleg yn cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y galw, yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff, y cyfarpar sganio hen ac annigonol, ynghyd â'r gwendidau TG, yn rhoi pwysau ar wasanaethau, ac maent yn awgrymu bod angen cymryd camau clir a phendant i sicrhau bod modd i wasanaethau radioleg ymdopi â'r galw yn y dyfodol.
- 13 Rydym yn ymhelaethu ar ein prif ganfyddiadau yn y paragraffau isod.

3 [Swyddfa Archwilio Cymru, Amseroedd aros y GIG ar gyfer gofal dewisol yng Nghymru, Ionawr 2015](#)

4 [Swyddfa Archwilio Cymru, Gwasanaethau Orthopedeg, Mehefin 2015](#)

5 [Swyddfa Archwilio Cymru, Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru, Ionawr 2018](#)

6 RADIS – System Gwybodaeth Radioleg Cymru

Er gwaethaf y cynnydd yn y galw, mae'r targedau o ran yr amseroedd aros i gael archwiliad radioleg diagnostig yn cael eu bodloni i raddau helaeth ar hyn o bryd, ond mae rhai cleifion yn aros am gyfnod hir i gael canlyniadau eu harchwiliadau

- 14 Mae'r galw am archwiliadau radioleg yn cynyddu bob blwyddyn, yn enwedig y galw am archwiliadau sy'n defnyddio'r technegau sganio mwyaf cymhleth. Mae'r galw'n cynyddu am nifer o resymau.
- 15 Os bydd meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn penderfynu bod ar glaf angen archwiliad radiolegol, caiff y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio fel cleifion allanol eu hychwanegu at restr aros. Canfu ein hadolygiad fod rhestrau aros yn cael eu blaenoriaethu yn ôl angen, a bod pob bwrdd iechyd yn adolygu pa mor briodol yw statws blaenoriaeth atgyfeiriadau.
- 16 Gall fod angen i gleifion mewnlol mewn ysbyty a chanddynt anghenion iechyd brys gael archwiliadau radioleg ar fyrder. Yn ystod oriau gwaith arferol, bydd ysbytai'n neilltuo nifer fach o apwyntiadau ar gyfer cleifion mewnlol sy'n achosion brys. Fodd bynnag, canfuwyd bod mynediad tu allan i oriau at archwiliadau radiolegol ar gyfer cleifion ag anghenion brys yn amrywio. Er bod archwiliadau CT a phelydr X ar gael tu allan i oriau yn y rhan fwyaf o'r ysbytai, nid yw'r un peth yn wir yn achos archwiliadau MRI ac uwchsain.
- 17 Mae'r perfformiad o ran yr amseroedd aros wedi gwella yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda nifer y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos i gael archwiliad radioleg wedi gostwng, a hynny gyda chymorth arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r byrddau iechyd wedi sicrhau gwelliannau i'w hamseroedd aros drwy ddefnyddio unedau symudol o'r sector preifat i gynnal archwiliadau a thrwy ddefnyddio capasiti nad yw'n cael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd eraill.
- 18 Ar ôl cynnal archwiliad radioleg, paratoir adroddiad am y ddelwedd. Yn gyffredinol, caiff y targedau o ran paratoi adroddiadau eu bodloni, ond mae rhai cleifion yn aros am gyfnod hir i gael eu canlyniadau, ac nid oes adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer pob archwiliad.
- 19 Er mai radiolegwyr sy'n adrodd ar y rhan fwyaf o'r archwiliadau, gall radiograffwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbennig adrodd ar ddelweddau llai cymhleth. Fodd bynnag, mae prinder staff yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i wneud mwy o ddefnydd o adroddiadau gan radiograffwyr. O'r herwydd, mae'r byrddau iechyd wedi dibynnu ar gomisiynu adroddiadau gan gyflenwr allanol i helpu i sicrhau bod modd paratoi adroddiadau radioleg yn brydlon.

Mae'r anawsterau o ran recriwtio a chadw staff ac oedran y gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i hyfforddi staff

- 20 Canfuwyd bod pob bwrdd iechyd, ac eithrio un, yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw radiolegwyr a radiograffwyr. Mae'r byrddau iechyd wedi bod yn dibynnu'n gynyddol ar ddefnyddio staff locwm i gau'r bwlch sy'n bodoli oherwydd bod swyddi'n wag. Ar yr un pryd, mae'r gweithlu radioleg yn heneiddio ac, ar adeg ein hadolygiad, roedd mwy na thraean y radiolegwyr a'r radiograffwyr yn 50 oed neu'n hŷn. Felly, gallai nifer y swyddi gwag gynyddu os na chymerir camau priodol.
- 21 I helpu i fynd i'r afael â'r diffyg capasiti adrodd, sefydlwyd Academi Genedlaethol i greu canolfan hyfforddi ar gyfer radiolegwyr dan hyfforddiant. Bydd y cohort cyntaf o hyfforddeion yn cychwyn ar eu hyfforddiant ym mis Medi 2018.
- 22 Canfuwyd bod prinder staff yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i hyfforddi eu staff, a bod pob bwrdd iechyd yn ei chael yn anodd sicrhau bod staff yn parhau i gydymffurfio â'r modiwlau hyfforddi statudol a gorfodol.

Gan fod cyfarpar yn heneiddio a chan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, mae'n anoddach i'r byrddau iechyd ateb y galw, ac nid oes gan y byrddau iechyd ddigon o adnoddau staff i gynyddu eu horiau agor

- 23 Mae angen trefniadau cynhwysfawr i sicrhau bod modd cynnal a chadw cyfarpar radioleg a'i ddisodli. Mae'n costio mwy o arian i gynnal a chadw cyfarpar delweddu hŷn ac mae mwy o berygl y bydd yn methu. Ar adeg ein hadolygiad, roedd gan bob bwrdd iechyd gyfarpar a oedd yn nesáu at ddiwedd ei oes. Mae angen arian sylweddol ar y rhaglen disodli cyfalaf ar gyfer cyfarpar radioleg ac, o'r herwydd, darperir arian cyfalaf ar sail Cymru gyfan, ond nid o reidrwydd ar y lefel sydd ei hangen i ddisodli'r holl gyfarpar sydd wedi dyddio. Ers ein hadolygiad, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i brynu cyfarpar delweddu radiolegol ychwanegol yn 2016-2017 a 2017-18, ac mae'n cydweithio â'r byrddau iechyd i bennu ac i flaenoriaethu buddsoddiad ychwanegol mewn cyfarpar delweddu rhwng 2018-19 a 2020-21.
- 24 Canfuwyd bod cyfle i wneud mwy o ddefnydd o'r cyfarpar sganio ym mhob bwrdd iechyd. Fodd bynnag, byddai angen mwy o staff radioleg i wneud hyn. Un o'r cymhlethdodau eraill yw y byddai cynyddu'r oriau gweithredu hefyd yn arwain at gostau cynnal a chadw uwch, ac yn lleihau oes y cyfarpar.

Mae'r heriau o ran system TG radioleg Cymru gyfan a'r gwendidau o ran y seilwaith TG lleol yn llesteirio effeithlonrwydd gwasanaethau radioleg

- 25 Canfu ein hadolygiad nad yw'r system radioleg graidd, RADIS, yn diwallu anghenion y byrddau iechyd. Mae diffygion yn y system yn creu anawsterau i rai byrddau iechyd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau radioleg ac yn arwain at aneffeithlonrwydd. Canfuwyd hefyd fod diffygion mewn seilwaith TG lleol hefyd yn dwysáu aneffeithlonrwydd.
- 26 Ar adeg ein hadolygiad, mae'r ffaith nad oes system atgyfeirio electronig ar gael, ynghyd â'r gwendidau o ran y Systemau Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) a'r systemau adnabod llais, yn creu aneffeithlonrwydd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau radioleg. Fodd bynnag, ers ein hadolygiad, cafodd camau graddol eu cymryd i gyflwyno system atgyfeirio electronig fel rhan o'r broses ehangach i gyflwyno Porth Clinigol Cymru.

Mae gwasanaethau radioleg yn cael eu rheoli'n dda o safbwynt gweithredol, ond mae lle i gryfhau'r gwaith craffu ar lefel y bwrdd a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau'n strategol

- 27 Canfuwyd bod angen cryfhau'r gwaith o gynllunio gwasanaethau radioleg o safbwynt strategol a gweithredol yn y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd. Dim ond tri o'r byrddau iechyd oedd yn ymgymryd â gwaith i fodelu galw a chapasiti. Ar adeg ein hadolygiad, dim ond un bwrdd iechyd oedd wedi paratoi cynllun ariannol manwl ar gyfer radioleg.
- 28 Mae data perfformiad a chanlyniadau archwiliadau yn helpu'r byrddau iechyd i fonitro ac i werthuso perfformiad gwasanaethau radioleg. Fodd bynnag, canfuwyd bod cyfleoedd ar gael i'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd gynyddu nifer y mesurau perfformiad y maent yn eu cyflwyno i'w byrddau a'u pwyllgorau o ran radioleg. Ni cheir un mesur safonol i fesur gweithgareddau radioleg ar hyn o bryd ychwaith. Nid yw'r byrddau iechyd yn cofnodi gweithgareddau radioleg yn gyson ledled Cymru. O'r herwydd, mae'n anodd cymharu gweithgarwch a pherfformiad y byrddau iechyd yn gywir.
- 29 Canfu ein hadolygiad fod y trefniadau atebolrwydd a rheolaeth weithredol ar gyfer gwasanaethau radioleg yn glir ac yn briodol. Canfuwyd bod bron i bob un o'r byrddau iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i leihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol, ond byddai modd cyfeirio atgyfeirwyr yn well at y canllawiau atgyfeirio lleol. Fodd bynnag, ers ein hadolygiad, mae mynediad at y canllawiau atgyfeirio cenedlaethol wedi gwella.

- 30 Canfu ein hadolygiad hefyd nad oes gan bob bwrdd iechyd arweinydd gweithredol ar gyfer radioleg sy'n aelod o'r Bwrdd. Oherwydd nad oes arweinydd gweithredol ar gyfer radioleg yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd mewn rhai byrddau iechyd, mae'n bosibl eu bod yn colli cyfle i dynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg a'u monitro.
- 31 O ystyried natur rhai o'r materion y mae gwasanaethau radioleg yn eu hwynebu, ni fydd y camau a gymerir gan fyrddau iechyd ar eu pennau eu hunain yn ddigon i sicrhau bod gwasanaethau radioleg yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae angen cynllun strategol cenedlaethol i fynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaethau radioleg yn eu hwynebu. Ers inni adolygu gwasanaethau radioleg ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu Delweddu i lunio **Datganiad o Fwriad o ran Delweddu**⁷ ar lefel uchel, a'i roi ar waith. Nod y Datganiad o Fwriad yw mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau radioleg diagnostig Cymru. Wrth lunio'r Datganiad o Fwriad, bu'r Tasglu Delweddu'n ystyried canfyddiadau ein gwaith lleol. Cyhoeddwyd y Datganiad o Fwriad ym mis Mawrth 2018. Mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu y mae angen i GIG Cymru roi sylw iddynt.

Y prif heriau ac argymhellion

- 32 Mae canfyddiadau ein gwaith yn pennu nifer o'r prif heriau y mae'r byrddau iechyd yn eu hwynebu, ac maent yn galw am weithredu lleol a chenedlaethol gan GIG Cymru neu weithredu lleol gan rai o'r byrddau iechyd neu bob un ohonynt. Fe'u nodir yn **Arddangosyn 2**.

⁷ [Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad o ran Delweddu, Mawrth 2018](#)

Arddangosyn 2: y prif heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn genedlaethol ac yn lleol

Y prif heriau	Angen gweithredu cenedlaethol gan GIG Cymru	Angen gweithredu lleol gan rai o'r byrddau iechyd neu bob un ohonynt
Gweithlu		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod nifer y radiolegwyr a'r radiograffwyr dan hyfforddiant yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a'r cynnydd yn y galw. 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cyfleoedd i wneud y gorau o'r cyfraniad y gall staff cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill ei wneud tuag at wasanaethau radioleg yn cael eu pennu a'u gwireddu. 		✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan y byrddau iechyd gynlluniau ar gyfer y gweithlu radioleg sy'n pennu'r capasiti a'r cymysgedd o sgiliau sydd eu hangen i ateb y galw am wasanaethau radioleg yn awr ac yn y dyfodol mewn ffordd amserol a diogel. 		✓
Cyfarpar		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod dull cenedlaethol cydgysylltiedig yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r anghenion o ran cyfarpar, a bod digon o arian ar gael i ddisodli cyfarpar ac i brynu technoleg newydd i ateb y galw cynyddol ac i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol. 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan y byrddau iechyd raglenni disodli cyfarpar sy'n amlinellu'r blaenoriaethau, y gofynion a'r costau cysylltiedig. 		✓

Y prif heriau	Angen gweithredu cenedlaethol gan GIG Cymru	Angen gweithredu lleol gan rai o'r byrddau iechyd neu bob un ohonynt
Galw		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod lefelau'r galw rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol yn wybyddus i sicrhau bod modd cydgysylltu'r gwaith o gynllunio capasiti ychwanegol ar draws rhanbarthau. 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y byrddau iechyd yn gwybod beth yw lefelau'r galw am bob un o'r arbenigeddau atgyfeirio yn awr ac yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau, fel newidiadau i lwybrau cleifion. 		✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan y byrddau iechyd gynlluniau gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn bodloni'r targedau o ran amseroedd aros a pharatoi adroddiadau yn y tymor byr, a sut y byddant yn cynnal hyn yn y dyfodol. 		✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y byrddau iechyd yn gallu dangos eu bod yn mynd i'r afael â gwasanaethau radioleg drwy ddull sy'n seiliedig ar werth drwy wneud gwell defnydd o wybodaeth feincnodi ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig. 		✓
TGCh		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod systemau gwybodaeth yn effeithlon a bod modd cynhyrchu gwybodaeth reoli a pherfformiad sy'n ddibynadwy, a hwyluso dull priodol o rannu gwybodaeth am gleifion a delweddau o fewn byrddau iechyd a rhyngddynt. 	✓	
Rheoli gwasanaethau		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y trefniadau o ran atebolrwydd rheolwyr a throsolwg strategol yn briodol i hybu gwelliannau i wasanaethau. 		✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y canllawiau atgyfeirio'n rhoi digon o wybodaeth a'u bod yn hygyrch i glinigwyr sy'n atgyfeirio. 		✓

Y prif heriau	Angen gweithredu cenedlaethol gan GIG Cymru	Angen gweithredu lleol gan rai o'r byrddau iechyd neu bob un ohonynt
Ansawdd		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod codau cyffredin ar waith a'u bod yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei fesur yn gyson o fewn byrddau iechyd a rhyngddynt. 	✓	✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod dangosyddion perfformiad cyffredin ar waith i hybu cysondeb o ran meincnodi a gwella gwasanaethau. 	✓	✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod mesurau ansawdd perfformiad priodol a chadarn ar waith sy'n cynnwys adolygiadau o brofiadau cleifion ac o ansawdd gwasanaethau. 		✓
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod trefniadau monitro priodol ar waith ar lefel y bwrdd a'r pwyllgorau. 		✓

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 33 Mae ein hadroddiadau archwilio lleol yn gwneud argymhellion penodol ar gyfer y byrddau iechyd. Mae pob bwrdd iechyd wedi paratoi ymatebion rheoli sy'n amlinellu'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion archwilio. Mae ein hadroddiadau lleol a'r ymatebion perthnasol gan reolwyr i'w gweld ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru).
- 34 Mae'r heriau y mae angen ymateb iddynt ar lefel genedlaethol yn cydweddu'n agos â'r camau a bennir yn y Datganiad o Fwriad. O'r herwydd, nid ydym yn tybio bod gwerth ailadrodd y camau gweithredu hynny ar ffurf argymhellion yma.

- 35 Gan ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, mae'r Tasglu Delweddu'n llunio cynllun gweithredu cenedlaethol o ran delweddu ar gyfer GIG Cymru i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a bennir yn y Datganiad o Fwriad. Felly, rydym yn seilio ein hargymhellion ar sicrhau bod y camau gweithredu cenedlaethol yn rhoi sylw digonol i'r heriau a bennwyd drwy ein gwaith a'r Datganiad o Fwriad.

Argymhellion

Mae'r Datganiad o Fwriad o ran Delweddu yn trafod yr heriau cenedlaethol y mae gwasanaethau radioleg yn eu hwynebu ledled Cymru ac mae'n pennu camau gweithredu priodol. Fodd bynnag, i gyflawni'r camau gweithredu hyn, bydd rhaid llunio cynllun gweithredu cenedlaethol amserol o ran delweddu a bydd rhaid gweithredu ar ei sail.

- A1 Drwy'r Tasglu Delweddu, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynllun gweithredu cenedlaethol o ran delweddu yn rhoi sylw i bob un o'r camau gweithredu a bennir yn y Datganiad o Fwriad o ran Delweddu, yn ogystal â'r prif heriau a nodir yn yr adroddiad hwn.
- A2 Dylai'r cynllun gweithredu cenedlaethol gynnwys dyddiadau gweithredu clir i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn y tymor byr i ganolog, a dylid pennu'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau hyn.
- A3 Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i gostio'r cynllun gweithredu'n briodol a sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gefnogi'r broses o'i roi ar waith.
- A4 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r broses o roi'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar waith.

Rhan 1

Er gwaethaf y cynnydd yn y galw, mae'r targedau o ran yr amseroedd aros i gael archwiliad radioleg diagnostig yn cael eu bodloni i raddau helaeth ar hyn o bryd, ond mae rhai cleifion yn aros am gyfnod hir i gael canlyniadau eu harchwiliadau



Mae'r galw am ddelweddu radiolegol yn cynyddu bob blwyddyn, ac yn enwedig y galw am y sganiau mwyaf cymhleth

- 1.1 Gan fod radioleg yn chwarae rôl gynyddol o ran gofal clinigol, ceir galw cynyddol am archwiliadau radiolegol. Mae nifer o ffactorau'n gyrru'r cynnydd yn y galw. Yn eu plith mae newidiadau demograffig, canllawiau clinigol newydd, trothwyon atgyfeirio is, a datblygiadau o ran technoleg ac o ran ein dealltwriaeth o'r modd y mae nodweddion clefydau yn ymddangos mewn delweddau diagnostig.
- 1.2 Yng Nghymru, cafwyd cynnydd o 9% yng nghyfanswm yr archwiliadau radioleg diagnostig a wnaed bob blwyddyn rhwng 2013-14 a 2016-17⁸ (**Arddangosyn 3**). Mae'r sganiau hefyd yn dod yn fwy cymhleth. Gellir priodoli'r cynnydd canrannol mwyaf o ran archwiliadau radiolegol i ddelweddu CT ac MRI, a hynny oherwydd eu bod yn chwarae mwy o rôl yn y broses o wneud diagnosis cynnar ar gyfer llawer o glefydau. Rhwng 2013-14 a 2016-17, cafwyd cynnydd o 33% yn nifer y sganiau CT a wnaed bob blwyddyn a chynnydd o 28% yn nifer y sganiau MRI (**Arddangosyn 3**). Mae archwiliadau MRI a CT yn gymhleth a gallant gynnwys delweddau lluosog. O'r herwydd, mae pob archwiliad yn fwy llafurddwys i'r radiolegwyr hynny sy'n dehongli'r delweddau o'u cymharu ag archwiliadau eraill fel pelydrau X.

Arddangosyn 3: cynnydd yn y galw am ddelweddu CT, MRI, uwchsain a phelydr X rhwng 2013-14 a 2016-17

	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	Cynnydd canrannol 2013-14 – 2016-17
CT	235,861	256,935	284,672	313,947	33%
MRI	97,929	109,506	119,066	126,335	29%
Pelydr X plaen	1,291,395	1,279,348	1,299,609	1,281,067	-1%
Uwchsain i gyd	409,363	419,378	444,540	468,361	14%
Pob sgan arall	120,532	143,956	144,203	153,941	28%
Cyfanswm yr archwiliadau	2,155,080	2,209,123	2,292,090	2,343,651	9%

Ffynhonnell: Rhwydwaith Meincnodi'r GIG

8 Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan y pum bwrdd iechyd a fu'n rhan o adolygiad Rhwydwaith Meincnodi'r GIG o wasanaethau radioleg. Ni wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda na Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gymryd rhan ynddo.

- 1.3 Nid dim ond yng Nghymru y mae'r galw am archwiliadau radiolegol wedi cynyddu. Yn Lloegr rhwng 2013 a 2016, cafwyd cynnydd o 33% mewn archwiliadau CT a chynnydd o 31% mewn archwiliadau MRI. Mae hyn yn gyfwerth â chynnydd blynyddol cymedrig o ychydig dros 10%⁹.

Mae'r cleifion ar restrau aros yn cael eu blaenoriaethu ar sail brys clinigol, ac mae mynediad brys at archwiliadau radiolegol yn ystod oriau gwaith arferol yn dda, ond mae mynediad brys tu allan i oriau yn amrywio

- 1.4 Er bod y rhan fwyaf o'r adrannau radioleg yn darparu rhyw fath o fynediad agored i gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at yr adran fel cleifion allanol, mae hyd a lled y mynediad hwn yn amrywio, ac fel rheol dim ond mynediad at archwiliadau pelydr X sydd ar gael. Os nad oes mynediad agored ar gael, bydd cleifion yn cael eu rhoi ar restr aros. Dylai'r atgyfeiriad bennu maint y brys. Bydd hyn yn sicrhau mai'r cleifion â'r anghenion mwyaf critigol sy'n cael eu gweld gyntaf. Yr atgyfeiriwr sy'n pennu maint y brys.
- 1.5 Mae pob un o'r byrddau iechyd yn defnyddio tair lefel blaenoriaeth ar gyfer cleifion allanol: brys, brys – amheuaeth o ganser, a chyffredin. Mae atgyfeiriadau brys yn cael eu blaenoriaethu ac mae'r cleifion yn cael archwiliad cyn gynted â phosib.
- 1.6 Ym mhob bwrdd iechyd, mae radiolegwyr neu radiograffwyr ymarfer estynedig sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn adolygu statws blaenoriaeth pob atgyfeiriad gan ddefnyddio'r wybodaeth glinigol a ddarparwyd gan yr atgyfeiriwr. Ar ôl ei adolygu, gellir newid statws blaenoriaeth atgyfeiriad. Mae'r system hon yn sicrhau bod rhestrau aros yn seiliedig ar flaenoriaethau clinigol.
- 1.7 Fodd bynnag, dim ond dau fwrdd iechyd sy'n defnyddio rhestr aros ganolog o fewn y bwrdd iechyd. Mae gan bum bwrdd iechyd restrau aros ar wahân ar gyfer archwiliadau radiolegol mewn gwahanol rannau o'r sefydliad. Oherwydd bod ganddynt fwy nag un restr aros, nid yw'r byrddau iechyd yn rheoli'r galw ar draws y sefydliad. O'r herwydd, gall rhai cleifion fod yn aros yn hirach nag y byddent pe baent wedi'u rhoi ar un restr aros.

9 [NHS England, Diagnostic Imaging Dataset \(cyrchwyd ar 24 Awst 2017\)](#).

- 1.8 Gall fod ar gleifion mewnol ag anghenion iechyd brys angen mynediad prydlon i gael archwiliad radiolegol yn ystod oriau gwaith arferol a thu allan i oriau gwaith. Yn ystod oriau gwaith arferol, dywedodd pob bwrdd iechyd wrthym ei fod yn neilltuo nifer fach o apwyntiadau ar gyfer cleifion mewnol sy'n cael atgyfeiriadau brys, a hynny ar sail galw hanesyddol. Fodd bynnag, oherwydd nad oes modd rhagweld maint y galw brys, gall fod gormod neu ddim digon o amser wedi'i neilltuo yn yr amserlen apwyntiadau.
- 1.9 Mae'r ddarpariaeth tu allan i oriau'n seiliedig ar drefniadau rota lle mae'r staff yn gweithio yn ôl y galw. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y mynediad at archwiliadau tu allan i oriau ar gyfer cleifion mewnol ag anghenion iechyd brys yn amrywio ar draws y byrddau iechyd. Roedd sganiau CT a phelydr X ar gael tu allan i oriau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd ysbyty, ac roedd o leiaf un safle ysbyty ym mhob bwrdd iechyd yn darparu darpariaeth gyflenwi. Fodd bynnag, nid oedd sganiau MRI na sganiau uwchsain ar gael tu allan i oriau mewn tri bwrdd iechyd.

Mae canran y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos i gael archwiliad wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r capasiti sganio ychwanegol a ddarperir gan y sector preifat wedi helpu i wella'r perfformiad o ran amseroedd aros

- 1.10 Mae'n ofynnol i bob un o gyrff y GIG yng Nghymru gydymffurfio â tharged Llywodraeth Cymru o ran amseroedd aros diagnostig sy'n nodi na ddylai cleifion aros mwy nag wyth wythnos i gael prawf diagnostig¹⁰.
- 1.11 Ers 2009, mae'r amseroedd aros ar gyfer archwiliadau radiolegol hefyd wedi bod yn rhan o'r targed amser rhwng atgyfeiriad a thriniaeth¹¹ os yw'r atgyfeiriad i gael archwiliad radiolegol wedi'i wneud fel rhan o lwybr y claf. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd Cymru sicrhau bod 95% o'r holl gleifion sy'n aros i gael triniaeth ddewisol yn cael triniaeth cyn pen 26 wythnos ar ôl y dyddiad y mae'r atgyfeiriad yn dod i law. I lawer o'r cleifion hyn, mae'r profion diagnostig yn helpu i bennu'r driniaeth orau.

10 Mae'r targed o ran yr amseroedd aros diagnostig yn berthnasol i bob archwiliad diagnostig, gan gynnwys MRI, CT, uwchsain anobstetrig, fflworosgopi, enema bariwm, a meddygaeth niwclear. Nid yw targed Llywodraeth Cymru'n cynnwys pelydr X.

11 Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 014 – Mynediad 2009 – Mesur Amser Rhwng Atgyfeiriad a Thriniaeth, Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 051 – Mynediad 2009 – Darparu Llwybr Claf 26 Wythnos – Cynllun Darparu a Gweithredu Integredig, a Chylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 075 – Mynediad 2009 – Canllawiau Atodol i Ddarparu Llwybrau Cleifion 26 Wythnos

1.12 Ym mis Mawrth 2018, nid oedd unrhyw gleifion yn aros mwy nag wyth wythnos i gael archwiliad radioleg diagnostig mewn tri bwrdd iechyd. Fodd bynnag, roedd cleifion yn aros mwy nag wyth wythnos i gael archwiliad radioleg ym Myrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr, a Chaerdydd a'r Fro, ac ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys¹². Mae **Arddangosyn 4** yn dangos nifer y cleifion a oedd wedi bod yn aros mwy nag wyth wythnos ar adeg ein hadolygiad, ac ym mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2018.

Arddangosyn 4: amseroedd aros Cymru gyfan ar gyfer sganiau CT, MRI ac uwchsain anobstetrig¹

		Cyfanswm y cleifion sy'n aros i gael archwiliad					Y cyfanswm sy'n aros	Canran y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos
		Hyd at 8 wythnos	Dros 8 wythnos a hyd at 14 wythnos	Dros 14 wythnos a hyd at 24 wythnos	Dros 24 wythnos			
Sgan CT	Mawrth 2013	6,777	159	61	5	7,002	3%	
	Awst 2016 ²	7,301	63	51	11	7,426	2%	
	Mawrth 2018	8,054	9	1	1	8,065	0%	
Sgan MRI	Mawrth 2013	11,087	2,520	2,241	278	16,126	31%	
	Awst 2016 ²	11,662	913	66	163	12,804	9%	
	Mawrth 2018	10,662	121	59	62	10,904	2%	
Sgan uwchsain anobstetrig	Mawrth 2013	19,454	3,110	867	7	23,438	17%	
	Awst 2016 ²	18,944	1,999	626	133	21,702	13%	
	Mawrth 2018	20,097	13	0	0	20,110	0%	

Nodiadau:

- 1 Nid yw'r amseroedd aros yn berthnasol i archwiliadau pelydr X gan fod y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd yn darparu mynediad agored at archwiliadau pelydr X.
- 2 Data am amseroedd aros a nodir yn ein hadroddiadau lleol.

Ffynhonnell: Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi, StatsCymru, Mai 2018

12 Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn darparu archwiliadau pelydr X plaen ac uwchsain yn unig. Mae'n comisiynu archwiliadau delweddu eraill a gweithdrefnau ymyriadol gan amryw o ddarparwyr mewn byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru ac ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.

- 1.13 Mae Arddangosyn 4 yn dangos bod y perfformiad o ran yr amseroedd aros wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae'r perfformiad wedi amrywio yn ystod y cyfnod hwnnw (Atodiad 2). Yn gyffredinol, mae'r perfformiad ym mis 12 yn well na pherfformiad y flwyddyn gyfan ar ei hyd. Mae'r perfformiad wedi gwella drwy i'r byrddau iechyd weithio'n galed i fodloni'r targedau o ran yr amseroedd aros, a hynny'n aml gyda chymorth arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Er bod y targed o ran yr amseroedd aros yn berthnasol gydol y flwyddyn, mae'r gwaith o fonitro perfformiad yn dueddol o ganolbwyntio ar y perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn hytrach na'r perfformiad gydol y flwyddyn.
- 1.14 Mae'r byrddau iechyd wedi llwyddo i leihau'r amseroedd aros i gael archwiliadau radioleg dros y pum mlynedd diwethaf drwy ddefnyddio capasiti sganio ychwanegol drwy gomisiynu gwasanaethau delweddu gan unedau CT ac MRI symudol yn y sector preifat, a thrwy ddefnyddio capasiti nad yw'n cael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd eraill. Yn 2014, darparodd Llywodraeth Cymru £840,000 i wasanaethau radioleg ledled Cymru i leihau nifer y cleifion oedd yn aros mwy nag wyth wythnos i gael archwiliad MRI¹³. Ers hynny, mae'r byrddau iechyd wedi ariannu mentrau i sicrhau bod yr amseroedd aros yn parhau i fodloni'r targed wyth wythnos, a hynny drwy gomisiynu gwasanaeth gan gyflenwr allanol a chynyddu oriau agor yr adrannau radioleg.

Er bod y targedau adrodd cyfartalog yn cael eu bodloni i raddau helaeth, roedd rhai cleifion yn aros mwy na chwe mis i gael canlyniadau, ac nid oedd y byrddau iechyd yn gallu defnyddio eu capasiti adrodd i'r eithaf

- 1.15 Rhaid paratoi adroddiad sy'n dehongli'r ddelwedd ar ôl cynnal archwiliad radiolegol. Defnyddir yr adroddiad hwn i wneud penderfyniadau eraill ynghylch sut i ofalu am y claf.

13 Ym mis Ionawr 2014, roedd 41% (7,179) o'r cleifion oedd yn aros i gael archwiliad MRI wedi bod yn aros mwy nag wyth wythnos. Roedd 1,463 yn aros ers dros 24 wythnos.


- 1.16 Rhaid paratoi adroddiad am bob archwiliad, a rhaid darparu'r adroddiad i'r clinigydd sydd wedi atgyfeirio'r claf o fewn cyfnod priodol ar sail cyflwr clinigol y claf. Lluniwyd Safonau Adrodd Cymru ar gyfer Gwasanaethau Radioleg 2011 i egluro'r canllawiau a'r rheoliadau blaenorol¹⁴. Mae'r safonau'n amrywio o ddarparu adroddiad ar yr un diwrnod i ddarparu adroddiad cyn pen deg diwrnod gwaith.
- 1.17 Gofynnwyd i'r byrddau iechyd ddarparu'r amseroedd adrodd cyfartalog a'r amseroedd adrodd hiraf, yn ogystal â nifer yr archwiliadau CT, MRI, uwchsain a phelydr X na pharatowyd adroddiadau ar eu cyfer, fesul ysbyty. Nid yw'r math o atgyfeiriad (er enghraifft brys, claf mewnol, meddyg teulu) ar gael fel mater o drefn. Yr amser adrodd cyfartalog rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 ar gyfer pob math o sgan oedd 10 diwrnod neu lai ym mhob un o'r ysbytai a gymerodd ran yn yr adolygiad, ac eithrio un¹⁵. Fodd bynnag, canfu'r gwaith archwilio lleol fod rhai cleifion yn aros am gyfnod hir i gael adroddiad am eu sganiau. Ar adeg yr archwiliad, y cyfnod hiraf a gymerwyd i baratoi adroddiad oedd dros chwe mis. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos nifer yr archwiliadau nad oedd adroddiad wedi'i baratoi ar eu cyfer ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Er bod y rhain yn gyfwerth â llai nag 1% o'r holl archwiliadau a wnaed, mae'n dangos bod oedi wedi digwydd o ran paratoi adroddiadau ar gyfer nifer drawiadol o archwiliadau, neu na pharatowyd adroddiadau ar eu cyfer o gwbl, ac mae i hyn risgiau o ran ansawdd y gofal i gleifion oherwydd bod oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth.

14 Fe'u lluniwyd gan yr Is-bwyllgor Delweddu Meddygol (un o is-grwpiau Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru). Yn ôl Safonau Adrodd Cymru ar gyfer Gwasanaethau Radioleg 2011, dylai adrannau radioleg anelu at ddarparu adroddiadau o fewn cyfnod priodol yn ôl y math o atgyfeiriad: brys – ar unwaith/ar yr un diwrnod gwaith; cleifion mewnol – cyn pen un diwrnod gwaith; damweiniau ac achosion brys – cyn pen un diwrnod gwaith; meddyg teulu – cyn pen tri diwrnod gwaith; claf allanol – cyn pen deg diwrnod gwaith.

15 Dywedodd un ysbyty wrthym ei bod yn cymryd 16 diwrnod i adrodd am archwiliadau pelydr X ar gyfartaledd.

Arddangosyn 5: nifer yr archwiliadau na pharatowyd adroddiadau ar eu cyfer ar 31 Mawrth 2016 ledled Cymru¹

Cyfanswm ar gyfer yr ysbytai a gymerodd ran yn yr adolygiad



Nodyn:

- 1 Mae archwiliadau na pharatowyd adroddiadau ar eu cyfer yn cynnwys yr archwiliadau hynny nad oedd adroddiadau wedi'u paratoi ar eu cyfer fwy na 10 diwrnod ar ôl dyddiad yr archwiliad. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro na Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o Safleoedd Ysbyty

- 1.18 Er mai radiolegwyr sy'n paratoi adroddiadau am y rhan fwyaf o'r delweddau, mae radiograffwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbennig yn cynyddu'r capasiti adrodd. Mae radiograffwyr ymarfer estynedig yn cael eu hyfforddi i ddehongli rhai mathau o ddelweddau, ac i baratoi adroddiadau amdanynt. Fel rheol, mae'r rhain yn sganiau llai cymhleth, fel pelydr X. Mae sonograffwyr yn adrodd am sganiau uwchsain.
- 1.19 Er bod pob bwrdd iechyd, ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, wedi buddsoddi mewn radiograffwyr ymarfer estynedig, ar adeg ein hadolygiad, roedd hi'n anodd i'r byrddau iechyd ddefnyddio sgiliau adrodd y radiograffwyr hyn oherwydd prinder gweithwyr yng ngweithlu radioleg Cymru. Canfu ein hadolygiad fod prinder radiolegwyr yn cyfyngu ar y cyfleoedd i hyfforddi ac i gefnogi radiograffwyr ymarfer estynedig. Yn yr un modd, oherwydd prinder radiograffwyr, nid oedd y byrddau iechyd lleol yn gallu rhyddhau'r radiograffwyr ymarfer estynedig rhag eu dyletswyddau cynnal archwiliadau er mwyn iddynt baratoi adroddiadau am ddelweddau. O'r herwydd, roedd capasiti adrodd y byrddau iechyd yn llai.
- 1.20 Oherwydd prinder radiolegwyr a'r gostyngiad cysylltiedig yng nghapasiti adrodd y radiograffwyr ymarfer estynedig, aethpwyd ati ym mis Tachwedd 2014 i gyflwyno contract cenedlaethol i gaffael capasiti adrodd ychwanegol gan gyflenwr o'r sector preifat. Dyfarnwyd contract i Radiology Reporting Online Limited i ddarparu capasiti adrodd ledled Cymru. Contract dwy flynedd ydoedd i gychwyn, gydag opsiwn i'w estyn am flwyddyn arall. Gwerth y contract dros y cyfnod dwy flynedd cychwynnol oedd £1.5 miliwn (ac eithrio TAW). Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn y galw, yn enwedig y galw am adroddiadau CT ac MRI, gwnaed llawer mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth na'r disgwyl, ac fe wariwyd £3.5 miliwn (ac eithrio TAW) yn ystod dwy flynedd gychwynnol y contract. Cafodd y contract ei estyn tan fis Tachwedd 2019 am gost o £11 miliwn dros gyfnod yr estyniad tair blynedd. Ar adeg ein hadolygiad, roedd capasiti adrodd y cyflenwr allanol yn cau'r bwlch a oedd yn bodoli oherwydd prinder staff, ond nid yw'n ateb cynaliadwy yn y tymor hir.

Rhan 2

Mae heriau o ran y gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i hyfforddi ac i arfarnu staff



Mae pob un o'r byrddau iechyd, ac eithrio un, yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff radioleg, felly maent yn ddibynnol ar staff locwm

2.1 Mae lefelau'r swyddi gwag ar gyfer radiolegwyr, radiograffwyr a sonograffwyr yn llesteirio'r gallu i ateb y galw cynyddol am archwiliadau radiolegol. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 112 swydd wag cyfwerth ag amser llawn (FTE) mewn adrannau radioleg mewn pedwar bwrdd iechyd yng Nghymru (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: nifer y swyddi gwag yn adrannau radioleg Cymru ar 31 Mawrth 2016¹

	Radiolegwyr	Radiograffwyr/ sonograffwyr	Staff radioleg eraill ³
Nifer y swyddi gwag FTE	22	58	32
Swyddi gwag FTE fel canran o'r sefydliad FTE ²	15%	9%	6%

Nodiadau:

- 1 Mae'r ffigurau'n seiliedig ar bedwar bwrdd iechyd. Ni wnaeth Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf, na Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ddatgelu nifer eu swyddi gwag.
- 2 Y sefydliad staffio FTE yw nifer y staff y mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau ac y mae arian wedi'i ddarparu ar eu cyfer.
- 3 Mae staff radioleg eraill yn cynnwys staff fel nyrsys, staff gwyddonol a thechnegol, gweithwyr cymorth gofal iechyd a staff gweinyddol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o Safleoedd Ysbytai

2.2 Er bod lefelau'r swyddi gwag yn weddol gyson ar draws y byrddau iechyd a ddarparodd ddata inni, roedd lefelau'r swyddi radiolegwyr sy'n wag yn arbennig o uchel ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gyda 42% o swyddi'r sefydliad cyfwerth ag amser llawn yn wag. Mae'r gyfradd swyddi gwag gymharol uchel ar gyfer radiolegwyr a ddangosir yn **Arddangosyn 6** yn creu heriau penodol. Mae llawer o radiolegwyr yn arbenigo mewn maes penodol, felly os bydd un radiolegydd yn gadael, gall gael effaith fawr ar yr adran radioleg. Er enghraifft, ar adeg ein hadolygiad, roedd dwy swydd radiolegydd ymyriadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ond roedd un ohonynt yn wag. Roedd y swydd wag yn rhoi cryn bwysau ar y gwasanaeth radioleg ymyriadol, ac roedd yn cyfyngu ar y ddarpariaeth radioleg ymyriadol tu allan i oriau. Ledled Cymru, ceir prinder radiolegwyr ymgynghorol ym meysydd arbenigol radioleg ymyriadol, radioleg y fron, radioleg bediatrig, a radioleg niwclear. Nid dim ond yng Nghymru y ceir cynifer o swyddi gwag ym maes radioleg. Ledled y DU, roedd 9% o'r swyddi radiolegwyr ymgynghorol yn wag yn 2016 o'i gymharu ag 13% yng Nghymru¹⁶.

2.3 Er bod lefelau'r swyddi gwag yn uchel ar adeg yr archwiliad, mae proffil oedran staff y gwasanaethau radioleg yn creu mwy o heriau o ran ymddeoliadau a chynllunio olyniaeth. Ym mis Mehefin 2018, roedd 38% o radiolegwyr ymgynghorol a 34% o radiograffwyr a sonograffwyr Cymru yn 50 oed neu'n hŷn (**Arddangosyn 7**).

Arddangosyn 7: nifer a chanran y radiolegwyr ymgynghorol a'r radiograffwyr yng Nghymru fesul grŵp oedran ym mis Mehefin 2018

	Oedran					
	Under 39	40–44	45–49	50–54	55–59	60+
Radiolegwyr ymgynghorol ¹	27 (16%)	36 (21%)	41 (24%)	23 (14%)	15 (9%)	26 (15%)
Radiograffwyr ²	535 (49%)	98 (9%)	84 (8%)	147 (14%)	133 (12%)	86 (8%)

Nodiadau:

- 1 Diffiniad o weithlu'r GIG: staff â chod gradd neu swydd meddyg ymgynghorol ym maes radioleg – sylwer bod hyn yn cynnwys radiolegwyr diagnostig a therapiwtig.
- 2 Diffiniad o weithlu'r GIG: Bandiau staff 5–9 gyda chod galwedigaeth radiograffeg diagnostig (S*F).

Ffynhonnell: Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu GIG Cymru, data cyfrifiad gweithlu'r GIG, Mehefin 2018

16 Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, Adroddiad Cyfrifiad Gweithlu Radioleg Clinigol y DU, 2017

- 2.4 Rhwng 2016-21, mae'n debygol y bydd cyfradd adael radiolegwyr ymgynghorol oherwydd eu bod yn ymddeol yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Disgwylir i oddeutu 30% o radiolegwyr ymgynghorol Cymru ymddeol o'i gymharu â 22% ar draws y DU i gyd (ar sail oedran ymddeol tybiedig o 60)¹⁶.
- 2.5 Ar adeg ein hadolygiad, dywedodd pob bwrdd iechyd, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, wrthym ei fod yn ei chael yn anodd recriwtio radiolegwyr a radiograffwyr. Dywedodd mwy nag un bwrdd iechyd na fu i unrhyw ymgeiswyr â chymwysterau addas ymateb i rai hysbysebion swyddi radioleg.
- 2.6 Canfu ein hadolygiad fod byrddau iechyd ledled Cymru'n defnyddio staff locwm i gau bylchau staffio, ond nid oedd hyn yn gwneud iawn am bob swydd wag, gyda 35 aelod staff locwm cyfwerth ag amser llawn yn cael eu recriwtio mewn cyd-destun lle ceir 112 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn¹⁷.
- 2.7 Mae GIG Cymru wedi wynebu problemau penodol o ran recriwtio digon o radiolegwyr dan hyfforddiant a chadw'r staff hynny yng Nghymru ar ôl eu hyfforddi. Yn 2015, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, roedd gan Gymru'r gyfran isaf o hyfforddeion i radiolegwyr ymgynghorol; 25% yng Nghymru o'i gymharu â 38% ledled y DU¹⁶, ac yn flaenorol mae dau o bob pum hyfforddai wedi gadael GIG Cymru i weithio yn Lloegr neu mewn gwledydd tu allan i'r DU¹⁸.
- 2.8 Yn wyneb yr heriau y mae'r gweithlu radioleg yn eu hwynebu, aeth Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu ati i lunio achos busnes i sefydlu Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (yr Academi) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Menter ar y cyd gan y byrddau iechyd i greu canolfan hyfforddi bwrpasol ar gyfer o leiaf 20 radiolegydd dan hyfforddiant y flwyddyn yw'r Academi. Bydd yr hyfforddeion yn treulio eu hamser yn yr Academi ac ar leoliadau clinigol mewn ysbytai ledled y De. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r costau sefydlu cychwynnol, a bydd y byrddau iechyd yn talu'r costau rhedeg blyneddol. I gychwyn, bydd yr Academi'n hyfforddi radiolegwyr; ond, yn y pen draw, bydd hefyd yn hyfforddi radiograffwyr ymarfer estynedig, sonograffwyr a gweithwyr delweddu proffesiynol eraill er mwyn iddynt baratoi adroddiadau am ddelweddu.

16 Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, Adroddiad Cyfrifiad Gweithlu Radioleg Clinigol y DU, 2017.

17 Cyfrifir cyfradd cyfwerth ag amser llawn staff locwm ar sail cyfradd cyfwerth ag amser llawn cyfartalog staff locwm a ddefnyddiwyd rhwng 1 Hydref 2015 a 31 Mawrth 2016, a lefelau'r swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2016. Mae'n cynnwys pob grŵp staff, ac mae'n seiliedig ar bum bwrdd iechyd, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o Safleoedd Ysbytai.

18 GIG Cymru, Rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Diagnostig, Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, Rhagfyr 2015.

- 2.9 Mae'r Academi'n darparu hyfforddiant a chyfleuster adrodd i bob rhan o Gymru. Bwriedir i'r Academi fynd i'r afael â'r heriau recriwtio ledled Cymru, a gall helpu i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau adrodd cyflenwyr allanol yn y dyfodol. Fodd bynnag, er bod yr Academi wedi agor yn 2018, bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd cyn i'r hyfforddeion cyntaf gwblhau eu hyfforddiant. Cafodd y cohort cyntaf o hyfforddeion eu recriwtio, ac mae'r Academi wedi penodi cohort cyfan o 22 hyfforddwr hefyd.
- 2.10 Dylai'r Academi gynyddu nifer y radiolegwyr hyfforddedig yng Nghymru yn y tymor hir, ond canfu ein gwaith lleol fod gwasanaethau radioleg hefyd yn bwriadu newid eu modelau staffio i gynyddu'r capasiti adrodd. Mae'r byrddau iechyd yn bwriadu hyfforddi mwy o radiograffwyr a grwpiau staff priodol eraill, fel cardiolegwyr, i baratoi adroddiadau am archwiliadau. Os bydd cyfuniad gwahanol o staff yn paratoi adroddiadau, bydd yn helpu i leihau dibyniaeth y byrddau iechyd ar radiolegwyr. Canfuwyd hefyd fod y byrddau iechyd yn adolygu cymysgedd sgiliau eu staff i bwysu a mesur cyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o raddau nad ydynt yn rhai proffesiynol, fel ymarferwyr cynorthwyol, i helpu i ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer delweddu (gan weithio dan oruchwyliaeth) i helpu i gau'r bwlch sy'n bodoli oherwydd prinder staff radiograffeg.

Mae pwysau gweithredol a chyfyngiadau staffio yn cyfyngu ar allu'r byrddau iechyd i hyfforddi staff

- 2.11 Mae arfarniadau staff blynyddol ac adolygiadau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn rhan bwysig o'r broses o gynnal ansawdd gwasanaethau radioleg ac o sicrhau bod anghenion hyfforddi'r staff yn cael sylw priodol. Gofynnwyd i'r byrddau iechyd ddarparu ffigurau inni ynghylch canran y staff a oedd wedi cael arfarniad ac adolygiad DPP. Ledled Cymru, roedd o leiaf 75% o'r radiolegwyr, y radiograffwyr a'r staff radioleg eraill wedi cael arfarniad neu adolygiad DPP yn 2015-2016.

2.12 Fodd bynnag, nid yw'r holl staff yn cydymffurfio â'r modiwlau hyfforddi statudol¹⁹. Yn 2015-2016, roedd y cyfraddau cydymffurfio'n amrywio o'r naill grŵp staff i'r llall, ac o'r naill modiwl i'r llall, ar draws y byrddau iechyd. Dywedodd un bwrdd iechyd wrthym mai dim ond 48% o'r radiograffwyr oedd yn cydymffurfio o ran Hyfforddiant Symud a Chodi, a dywedodd bwrdd iechyd arall wrthym mai dim ond 33% o'r radiograffwyr oedd wedi cael Hyfforddiant Cydymffurfiaeth Gwybodaeth yn ôl y gofyn. Dywedodd rhai byrddau iechyd wrthym na fu modd iddynt barhau i gydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol a'u bod yn ei chael yn anodd cynyddu cyfraddau'r arfarniadau blynyddol a'r adolygiadau DPP oherwydd cyfyngiadau staffio. O beidio â chydymffurfio â'r hyfforddiant statudol a gorfodol, gallai beri risg i aelodau staff, i gleifion ac i'r byrddau iechyd eu hunain yn y pen draw.

19 Nodir y modiwlau hyfforddi statudol a gorfodol yn Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant y DU. Y modiwlau yw: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol; Iechyd, Diogelwch a Lles; Diogelwch Tân; Atal a Rheoli Haint; Symud a Chodi; Diogelu Oedolion; Diogelu Plant; Dadebru; a Llywodraethu Gwybodaeth.

Rhan 3

Gan fod cyfarpar yn heneiddio a chan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, mae'n anoddach i'r byrddau iechyd ateb y galw, ac nid oes gan y byrddau iechyd ddigon o adnoddau staff i gynyddu eu horiau agor



- 3.1 Rhaid i'r byrddau iechyd sicrhau bod capasiti a manylebau eu cyfarpar radioleg yn ateb y galw cynyddol a'u bod yn manteisio ar ddatblygiadau o ran ymarfer clinigol a thechnoleg.

Mae gan bob bwrdd iechyd gyfarpar sy'n nesáu at ddiwedd ei oes

- 3.2 Mae angen trefniadau cynhwysfawr i sicrhau bod modd cynnal a chadw cyfarpar radioleg a'i ddisodli. Mae'n costio mwy o arian i gynnal a chadw cyfarpar delweddu hŷn ac mae mwy o berygl y bydd yn methu. Mae ansawdd y delweddau hefyd yn dirywio wrth i'r cyfarpar heneiddio. Fel rheol, tybir nad yw cyfarpar radioleg sy'n fwy na deg oed yn gyfarpar o'r radd flaenaf mwyach, ac mae'n peidio â bod yn gyfredol oherwydd datblygiadau technegol²⁰. Mae oes cyfarpar delweddu radiolegol hefyd yn byrhau os caiff ei ddefnyddio'n amlach.
- 3.3 Ym mis Tachwedd 2015, roedd GIG Cymru'n amcangyfrif y byddai angen disodli 87% o sganwyr yr adrannau delweddu erbyn 2017²¹. Gofynnwyd i'r byrddau iechyd roi gwybod inni am oedran eu sganwyr CT, MRI ac uwchsain ym mis Medi 2016 (**Arddangosyn 8**).

Arddangosyn 8: oedran cyfarpar delweddu CT, MRI ac uwchsain ledled Cymru ym mis Medi 2016¹

	CT	MRI	Uwchsain
Oedran cymedrig y sganiwr (blynyddoedd):	5	7	4
Nifer y sganwyr:			
hyd at 6 oed	17	9	105
rhwng 6 a 10 oed	6	7	9
dros 10 oed	1	2	1
cyfanswm	24	18	115

Nodyn:

- 1 Ar sail cyfarpar pum bwrdd iechyd ar gyfer sganwyr CT ac MRI, a chwech ar gyfer sganwyr uwchsain. Ni wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddarparu data. Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sganwyr uwchsain, ond nid oes ganddo sganwyr CT nac MRI.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o Oedran Cyfarpar Radioleg; a Chymdeithas Radioleg Ewrop

- 20 Mae Cymdeithas Radioleg Ewrop yn dadlau bod cyfarpar hyd at bump oed yn defnyddio'r dechnoleg gyfredol a bod modd ei uwchraddio, bod cyfarpar rhwng chwech a deg oed yn addas i'w ddefnyddio os caiff ei gynnal yn briodol, ond bod angen strategaethau i'w ddisodli, a bod angen disodli cyfarpar 11 oed a hŷn.
- 21 Rhaglen Gwasanaethau Diagnostig GIG Cymru, All Wales Gantry (MRI, CT, Gamma Camera and Ultrasound) Usage/Capacity, Tachwedd 2015.

- 3.4 Ym mis Medi 2016, roedd 17% o sganwyr uwchsain Cymru yn chwech oed neu'n hŷn. Fodd bynnag, roedd 29% o'r sganwyr CT a 50% o'r sganwyr MRI yn chwech oed neu'n hŷn. Canfu ein hadolygiad ddau sganiwr MRI 13 oed ac un sganiwr CT 11 oed. Pennodd staff ym mhob bwrdd iechyd gyfarpar radioleg sy'n heneiddio ac y mae angen ei ddisodli. Soniodd un bwrdd iechyd wrthym am sganiwr CT sy'n heneiddio ac sy'n torri'n rheolaidd (bron i bob wyth wythnos). Gan mai hwn yw'r unig sganiwr CT yn yr ysbyty, mae'r ffaith ei fod yn torri'n effeithio ar y gofal a ddarperir i gleifion sy'n ddirifol wael, ac mae'n arwain at ganslo apwyntiadau cleifion allanol. Ers inni gwblhau ein gwaith lleol, cafodd y sganiwr CT ei ddisodli.
- 3.5 Mae'n hanfodol bod gan fyrddau iechyd gynlluniau disodli cyfarpar i bennu sut a phryd y byddant yn disodli cyfarpar delweddu. Er bod gan chwe bwrdd iechyd gynlluniau ar gyfer cyfarpar radioleg, canfu ein hadolygiad fod pob bwrdd iechyd yn ei chael yn anodd cael gafael ar arian i ddisodli hen gyfarpar ac i brynu cyfarpar radioleg ychwanegol.
- 3.6 Mae sganwyr MRI a CT yn costio mwy nag £800,000. Yn hanesyddol, mae'r byrddau iechyd wedi dibynnu ar arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i brynu cyfarpar delweddu radiolegol newydd ac ychwanegol. Yn 2014, darparodd Llywodraeth Cymru £8.5 miliwn i'w rannu rhwng pum bwrdd iechyd i brynu cyfarpar CT, MRI a mamograffeg newydd ac ychwanegol.
- 3.7 Ar ddiwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £16 miliwn i brynu cyfarpar delweddu radiolegol newydd ac i ddisodli hen gyfarpar. Dyrannwyd yr arian ar draws pob un o'r byrddau ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre er mwyn iddynt brynu cyfarpar CT, MRI, mamograffeg, uwchsain a phelydr X.
- 3.8 Ers ein hadolygiad, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £9 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer cyfarpar delweddu mewn byrddau iechyd, ac i gefnogi'r camau i ddatblygu'r Academi Ddelweddu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â sefydliadau'r GIG i bennu ac i flaenoriaethu buddsoddiad ychwanegol mewn delweddu rhwng 2018-19 a 2020-21.
- 3.9 Pan fyddant yn disodli cyfarpar sy'n heneiddio, mae'n hanfodol bod y byrddau iechyd yn gwneud cynlluniau digonol i osod y cyfarpar newydd. Mae sganwyr CT ac MRI yn fawr, a gall gostio cymaint â chost y sganiwr i'w osod. Os oes angen sganiwr newydd i ddisodli hen sganiwr, gall fod cyfnod sylweddol pan nad yw'r sganiwr yn gweithredu. Os yw'r sganiwr newydd yn ychwanegol at y sganwyr presennol, gall fod angen ystafell ychwanegol i osod y sganiwr ynddo, a gall hyn fod yn drafferthus ac yn ddrud. Yn 2016, roedd dau o'r sganwyr CT a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014 yn dal i gael eu storio oherwydd bod y byrddau iechyd a oedd yn cael y sganwyr hynny wedi'i chael yn anodd cael hyd i arian i addasu eu hadeiladau er mwyn gosod y cyfarpar newydd. Ers ein hadolygiad, mae'r ddau sganiwr CT wedi'u rhoi ar waith.

Tudalen y pecyn 150

3.10 Mae'r Datganiad o Fwriad yn cydnabod bod angen cydweithio ar lefel genedlaethol i gynllunio ar gyfer anghenion cyfarpar delweddu, i bennu'r anghenion hynny ac i fynd i'r afael â nhw. Mae'r Datganiad o Fwriad yn nodi bod angen cynllunio ar lefel ranbarthol i sicrhau bod sganwyr ychwanegol yn cynyddu'r capasiti rhanbarthol, yn hytrach na chapasiti un bwrdd iechyd yn unig. Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £6 miliwn ychwanegol ar gyfer Hwb Diagnostig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf). Roedd yn cynnwys arian i brynu sganiwr CT i ddisodli hen sganiwr, yn ogystal ag arian i brynu sganiwr MRI a sganiwr CT ychwanegol, a hynny i ddiwallu anghenion ardal de Cymru. Agorodd yr Hwb Diagnostig ym mis Chwefror 2018, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn dweud ei fod yn darparu capasiti ychwanegol o oddeutu 7,200 sgan MRI a 6,600 sgan CT y flwyddyn. Mae Grŵp Cynllunio a Chyflenwi Rhanbarthol a sefydlwyd ym mis Hydref 2017 yn goruchwyllo'r Hwb Diagnostig a'r camau i gyflwyno datrysiadau rhanbarthol eraill ar draws rhanbarth canol de Cymru a dwyrain Cymru.

Er bod cyfleoedd i gynyddu'r capasiti delweddu gan ddefnyddio'r cyfarpar presennol drwy gynyddu'r oriau gweithredu, byddai hyn yn cael effaith fawr ar adnoddau

- 3.11 Un ffordd y gallai'r byrddau iechyd leihau'r amseroedd aros i gael archwiliadau radiolegol, yn enwedig sganiau radiograffeg diagnostig, yw drwy gynyddu'r oriau agor cymaint â phosibl a, thrwy hynny, gynyddu nifer yr apwyntiadau sydd ar gael. Po hiraf yw'r oriau gweithredu, po fwyaf o gleifion y gellir eu harchwilio; ond, mae costau ychwanegol ynghlwm wrth hyn.
- 3.12 Yn 2014, cynhaliodd GIG Cymru adolygiad o oriau gweithredu sganwyr CT, MRI ac uwchsain Cymru ([Arddangosyn 9](#)).

Arddangosyn 9: canran y defnydd o'r sganwyr CT, MRI ac uwchsain yn 2014, ar ffurf cyfartaledd Cymru, 2014

Math o sganwyr	Nifer gyfartalog oriau gweithredu pob sganwyr fesul diwrnod		Canran y defnydd o'r cyfarpar ¹
	Llun – Gwener	Sadwrn – Sul	
CT	8.7	0.7	52%
MRI	10.6	2.1	67%
Uwchsain	7.7	0.0	46%

Nodyn:

1 Yn seiliedig ar nifer yr oriau gweithredu a gynlluniwyd fel canran o'r oriau gweithredu posibl (saith diwrnod yr wythnos a 12 awr y dydd).

Ffynhonnell: GIG Cymru, All Wales Gantry Usage/Capacity Report, Tachwedd 2015. Mae'r data'n seiliedig ar oriau gweithredu 2014.


3.13 Yn 2014, pe bai pob un o'r sganwyr CT, MRI ac uwchsain ledled Cymru wedi gweithredu 12 awr y dydd a saith diwrnod yr wythnos, rydym yn amcangyfrif y byddai wedi bod yn bosibl cyflawni o leiaf 1,340 archwiliad CT ychwanegol, 1,110 archwiliad MRI ychwanegol, a 4,630 archwiliad uwchsain ychwanegol yr wythnos²².

22 Mae'r amser sydd ei angen i gynnal archwiliad yn dibynnu ar natur yr archwiliad sydd ei angen. Gall gymryd rhwng 10 a 45 munud i gynnal archwiliad CT, rhwng 15 a 90 munud i gynnal archwiliad MRI, a rhwng 15 a 30 munud i gynnal archwiliad uwchsain. Felly, mae ein hamcangyfrif yn seiliedig ar archwiliad CT sy'n para 45 munud, archwiliad MRI sy'n para 90 munud ac archwiliad uwchsain sy'n para 30 munud.

- 3.14 Ers hynny, mae'r byrddau iechyd wedi cynyddu oriau gweithredu archwiliadau CT ac MRI ar ddyddiau'r wythnos ac ar benwythnosau. Mae'r byrddau iechyd wedi cynyddu'r oriau gweithredu i raddau helaeth drwy i staff ymgymryd â gwaith sifft. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, dim ond un bwrdd iechyd oedd yn darparu archwiliadau CT ac MRI am o leiaf 12 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, ar bob safle ysbyty. Roedd yr oriau gweithredu safonol ar draws y byrddau iechyd eraill yn amrywio. O blith yr 17 safle ysbyty a oedd yn rhan o'r arolwg, ar ddyddiau'r wythnos, dim ond saith ysbyty oedd yn darparu archwiliadau CT am 12 awr neu ragor y dydd, ac roedd deg ysbyty'n darparu archwiliadau MRI am 12 awr neu ragor y dydd. Ar benwythnosau, dim ond dau safle ysbyty oedd yn darparu archwiliadau CT am 12 awr y dydd, ac roedd yr un nifer yn darparu archwiliadau MRI am 12 awr y dydd (yr un ysbytai). Nid oedd yr un o'r ysbytai'n darparu gwasanaethau uwchsain 12 awr y dydd ar ddyddiau'r wythnos nac ar benwythnosau, a dim ond un ysbyty oedd yn cynnal archwiliadau uwchsain fel mater o drefn ar benwythnosau.
- 3.15 Fodd bynnag, nid yw cynyddu'r oriau gweithredu'n ddewis syml er mwyn cynyddu'r capasiti. I gynyddu'r oriau gweithredu, bydd angen staff ychwanegol, a bydd i hyn gost ychwanegol, a hynny ar adeg pan mae'r byrddau iechyd eisoes yn ei chael yn anodd llenwi'r swyddi gwag presennol ([paragraff 2.2](#)). Pan fydd cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n amlach, mae ei oes hefyd yn byrhau, ac fe all y costau cynnal a chadw fod yn uwch ([paragraff 3.2](#)).

Rhan 4

Mae'r heriau o ran system TG radioleg Cymru gyfan a'r gwendidau o ran y seilwaith TG lleol yn llesteirio effeithlonrwydd gwasanaethau radioleg



Nid yw'r system graidd i reoli radioleg yn diwallu anghenion y byrddau iechyd, ac mae gwendidau yn y seilwaith TG lleol hefyd yn ychwanegu at yr anawsterau

- 4.1 Mae systemau TGCh effeithiol yn hollbwysig o ran darparu gwasanaethau radioleg effeithlon. System genedlaethol a ddatblygwyd ac a weithredir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw'r System Gwybodaeth Radioleg (RADIS). Mae pob un o'r byrddau iechyd yn defnyddio RADIS. Mae RADIS yn helpu i drefnu archwiliadau radioleg, yn darparu cofnod clinigol o'r sganiau y mae cleifion wedi'u cael, ac yn galluogi'r byrddau iechyd i gynhyrchu adroddiadau ac ystadegau am eu perfformiad. Mae systemau eraill wedi'u cysylltu â RADIS er mwyn cyflawni swyddogaethau eraill; rhaid i'r systemau gwahanol hyn integreiddio â'i gilydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo a'i diweddarau'n rhwydd ar draws y systemau.
- 4.2 Canfu ein hadolygiad fod barn y byrddau iechyd am RADIS yn amrywio ledled Cymru. Er bod RADIS 2 wedi'i chyflwyno yn 2005, ar adeg ein hadolygiad, roedd tri bwrdd iechyd yn defnyddio esiamplau gwahanol²³ o RADIS, ac roedd dau fwrdd iechyd arall yn defnyddio cyfuniad o RADIS a systemau craidd eraill ar gyfer radioleg. Gellir priodoli'r gwahanol esiamplau o RADIS a'r systemau eraill i'r gwaith a wnaed i ad-drefnu'r GIG yn ystod ail hanner y 2000au. Mae ysbytai a oedd yn rhan o sefydliadau gwahanol bellach yn rhan o'r un bwrdd iechyd, ond mae'r seilwaith gwahanol yn dal i fod ar waith mewn rhai ardaloedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi un esiampl o RADIS ar waith ym mhob bwrdd iechyd.
- 4.3 Mae defnyddio gwahanol esiamplau o RADIS yn feichus ar glinigwyr o safbwynt eu hamser, ac mae'n ei gwneud yn anodd cynllunio a darparu gwasanaethau ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Er enghraifft, os bydd claf yn cael sgan mewn un ysbyty, ni fydd gan ysbyty arall yn yr un bwrdd iechyd gofnod ohono. O gael sawl esiampl o RADIS, mae hefyd yn anodd cael gafael ar wybodaeth reoli gan fod rhaid gwneud hyn ar wahân ar gyfer pob esiampl cyn cyfuno'r wybodaeth â llaw mewn un adroddiad.

23 Mae 'esiampl' yn cyfeirio at gronfa ddata ar wahân sy'n benodol i leoliad penodol. Fe'i defnyddir i wahaniaethu rhwng 'fersiwn' sy'n cyfeirio at ddiweddariadau ac uwchraddiadau. Er enghraifft, gallai fod gan ddau ysbyty'r un fersiwn o RADIS, h.y. mae'r ddau yr un mor gyfredol â'i gilydd, ond bydd ganddynt esiamplau gwahanol oherwydd na fydd staff mewn un ysbyty yn gallu gweld y cofnodion a gedwir yn yr ysbyty arall. O ddefnyddio esiamplau gwahanol, ni all clinigwyr gael gafael ar wybodaeth am gleifion ar draws ffiniau gweinyddol a daearyddol.

- 4.4 Dywedodd rhai byrddau iechyd wrthym eu bod yn tybio bod RADIS yn ddigonol o ran trefnu cleifion a pharatoi adroddiadau clinigol ac adroddiadau rheoli, ond roedd byrddau iechyd eraill yn amau pa mor ddibynadwy yw'r adroddiadau a gynhyrchir ac yn dweud nad oedd modd iddynt greu adroddiadau pwrpasol yn fewnol. Mynegodd y byrddau iechyd hefyd bryderon nad yw RADIS yn integreiddio â'r systemau eraill a ddefnyddir ganddynt, felly rhaid iddynt fynd ati â llaw i gofnodi unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yn RADIS mewn systemau eraill.

Mae'r ffaith nad oes system atgyfeirio electronig gyflawn ar waith ar hyn o bryd, ynghyd â gwendidau yn y systemau archifo delweddau ac adnabod llais, yn creu aneffeithlonrwydd yn y gwasanaeth

- 4.5 Yn ychwanegol at y system radioleg graidd, mae angen systemau eraill ar gyfer pob cam yn nhaith y claf, gan gynnwys atgyfeiriadau electronig, archifo delweddau, a chofnodi adroddiadau.
- 4.6 Drwy ddefnyddio systemau ceisiadau electronig, gall clinigwyr sy'n atgyfeirio cleifion i gael archwiliad delweddu diagnostig wneud cais i gael diweddariadau a chanlyniadau ceisiadau radioleg, a derbyn yr wybodaeth honno, yn gyflym. Ar adeg ein hadolygiad, yr unig beth yr oedd y feddalwedd ceisiadau'n gallu ei wneud oedd darparu templed cais i'w e-bostio at y gwasanaeth radioleg. Oherwydd nad oes system atgyfeirio electronig ar waith ledled Cymru, mae mwyafrif helaeth yr atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar bapur. Gall ceisiadau ar bapur fod yn drafferthus a chreu mwy o faich gweinyddol gan fod rhaid sganio pob ffurflen atgyfeirio. Mae perygl hefyd nad yw rhai adrannau'n cael eu llenwi'n llwyr neu nad ydynt yn ddarllenadwy.
- 4.7 Ar ôl cynnal archwiliad, bydd radiolegwyr yn creu adroddiad i gofnodi eu dehongliad o'r ddelwedd. Pan fyddant yn paratoi eu hadroddiadau, gall radiolegwyr ddewis defnyddio systemau arddweud i gofnodi eu hadroddiadau. Ledled Cymru, roedd y byrddau iechyd yn gyffredinol anfodlon â'r systemau arddweud. Er bod rhai byrddau iechyd yn defnyddio meddalwedd arddweud sy'n rhan o RADIS, roedd eraill yn defnyddio systemau amgen. Dywedodd staff rhai o'r byrddau iechyd fod y systemau arddweud yn aml yn rhewi a'r sesiwn yn dod i ben oherwydd gwendidau yn y rhwydwaith TG. Pan fydd sesiwn yn dod i ben, caiff yr holl adroddiadau a gafodd eu harddweud yn ystod y sesiwn eu colli ac mae'n rhaid eu hailadrodd. Mae hyn yn creu rhwystredigaeth ac aneffeithlonrwydd.

- 4.8 Rhaid archifo pob delwedd. Mae'r System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) yn caffael ac yn archifo delweddau radioleg, ac mae'n sicrhau bod modd dosbarthu delweddau i weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ddiogel²⁴. Mae'r cofnod clinigol o'r ddelwedd yn cynnwys yr adroddiad am y ddelwedd (sy'n cael ei storio yn RADIS) a'r ddelwedd (sy'n cael ei storio yn PACS). Er inni ganfod bod y byrddau iechyd yn fodlon â PACS ar y cyfan, mae'r graddau y gellir cael mynediad at ddelweddau PACS yn amrywio. Dywedodd pob bwrdd iechyd wrthym fod radiolegwyr a staff eraill sy'n gweithio yn ysbytai'r bwrdd iechyd yn gallu cael mynediad at y delweddau. Fodd bynnag, ni all pob radiolegydd gael mynediad at ddelweddau PACS o bell tu allan i oriau, ac roedd mynediad meddygon teulu a staff eraill y GIG sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill at PACS yn gyfyngedig.
- 4.9 Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno holl swyddogaethau Porth Clinigol Cymru ledled Cymru. Gweithfan ddigidol sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth feddygol yn ddiogel yw Porth Clinigol Cymru. Pan fydd ar waith yn llwyr, bydd y system yn darparu plattform electronig i rannu gwybodaeth ledled Cymru, gan gynnwys canlyniadau profion. Bydd hefyd yn bosibl atgyfeirio cleifion yn electronig. Mae'r system yn cael ei chyflwyno'n raddol, gyda'r byrddau iechyd yn rhoi gwahanol elfennau'r system ar waith yn unol ag amserlen sy'n hwylus i'r sefydliadau unigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Safonau Technegol Cymru i gefnogi camau i greu ac i gynnal catalog o safonau a gofynion i sicrhau bod modd integreiddio'r holl systemau iechyd a gofal, a bod modd iddynt ryngweithredu â'i gilydd, mewn ffordd gyson a diogel.
- 4.10 Mae'r Datganiad o Fwriad yn amlinellu'r weledigaeth o ddatblygu systemau gwybodeg o ansawdd uchel ym maes radioleg, gyda seilwaith TG diogel sy'n gweithredu ledled Cymru. Y weledigaeth yw darparu systemau lle gellir atgyfeirio, adolygu, prosesu ac adrodd yn electronig drwy feddalwedd safonedig a rhyngweithredol i sicrhau bod modd trosglwyddo gofal yn ddiogel o'r naill ysbyty i'r llall a rhannu delweddau ledled Cymru.

24 Trydydd parti, Fujifilm, sy'n darparu PACS. Mae Fujifilm yn darparu caledwedd a meddalwedd i'r byrddau iechyd er mwyn darparu gwasanaethau PACS, gan gynnwys darpariaeth adnabod llais a datrysiaidau adfer ar ôl trychineb. Mae pob bwrdd iechyd yn darparu'r seilwaith sydd ei angen i weithredu'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys rhwydweithiau a gofod ar weinydd.

Rhan 5

Mae gwasanaethau radioleg yn cael eu rheoli'n dda o safbwynt gweithredol, ond mae lle i gryfhau'r gwaith craffu ar lefel y bwrdd a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau'n strategol



Mae angen i'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd gryfhau eu prosesau cynllunio strategol a gweithredol

- 5.1 Dylai'r byrddau iechyd amlinellu'n glir eu strategaethau i ateb y galw am wasanaethau radioleg yn awr ac yn y dyfodol. Dylid seilio cynlluniau gweithredol gwasanaethau radioleg ar ddatblygiadau a newidiadau i wasanaethau yn y sefydliad ehangach. Mae bron i bob un o'r meysydd clinigol arbenigol yn dibynnu'n helaeth ar radioleg i wneud diagnosis o glefyd neu anaf, ei drin neu ei fonitro. Pan fydd y byrddau iechyd yn cynllunio newidiadau i wasanaethau a allai gynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i gael archwiliadau delweddu radiolegol, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r effaith ar adrannau radioleg.
- 5.2 Ar adeg ein hadolygiad, dim ond tri o'r byrddau iechyd oedd yn mynd ati i fodelu galw a chapasiti. Ledled Cymru, canfu ein hadolygiad fod y graddau y mae timau radioleg yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau sy'n effeithio ar y gwasanaethau radioleg yn amrywio.
- 5.3 Dylai fod gan bob gwasanaeth radioleg gynllun cyflawni gweithredol blynyddol cofnodedig y cytunir arno. Dylai'r cynllun(iau) gweithredol nodi'n glir y galw am y gwasanaeth, y capasiti sydd ei angen o ran gweithwyr a chyfarpar i ateb y galw hwnnw, ynghyd â'r arian sydd ar gael ac sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol. Er bod gan un bwrdd iechyd gynllun strategol pum mlynedd, canfu ein hadolygiad nad oedd gan bedwar bwrdd iechyd gynllun o'r fath. Nid oedd gan bedwar bwrdd iechyd gynlluniau gweithredol, ac nid oedd gan ddau fwrdd iechyd gynllun strategol na chynllun gweithredol. Nid oedd pob bwrdd iechyd wedi nodi'n glir ei anghenion o ran y gweithlu. Dim ond un bwrdd iechyd oedd wedi llunio cynllun ariannol manwl a phenodol ar gyfer radioleg. Roedd cynlluniau ariannol y byrddau iechyd eraill yn seiliedig ar wariant y flwyddyn flaenorol. Canfu ein gwaith lleol fod y gwariant mewn pedwar bwrdd iechyd yn fwy na'r gwariant a gyllidebwyd. Gall hyn fod yn symptom o'r ffaith nad oes ganddynt gynlluniau ariannol digonol.

Mae bron i bob un o'r byrddau iechyd yn mynd ati i leihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol, ond byddai modd iddynt gyfeirio atgyfeirwyr yn well at y canllawiau atgyfeirio lleol

- 5.4 Mae meddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn atgyfeirio cleifion i adrannau radioleg. I sicrhau bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio i gael yr archwiliad diagnostig mwyaf priodol, rhaid bod canllawiau a safonau clir ar gael. Mae pob delwedd ymchwiliadol amhriodol a wneir i bob pwrpas yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr y GIG. Mae'n galonogol bod pob un o'r byrddau iechyd wedi dweud wrthym eu bod yn dychwelyd atgyfeiriadau amhriodol at feddygon ymgynghorol, gan egluro'r rheswm dros wrthod yr atgyfeiriad. Mae chwe bwrdd iechyd hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i gynnal archwiliadau i dynnu sylw at batrymau atgyfeirio amhriodol.
- 5.5 Mae pob bwrdd iechyd yn defnyddio canllawiau iRefer²⁵ Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, ond ar adeg ein hadolygiad, dywedodd rhai meddygon ymgynghorol wrthym eu bod yn ei chael yn anodd cael gafael ar ganllawiau iRefer. Ers ein hadolygiad, mae iRefer ar gael drwy e-lyfrgell GIG Cymru i sicrhau bod mod i holl weithwyr proffesiynol GIG Cymru gael gafael ar y canllawiau.
- 5.6 Mae'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd wedi llunio canllawiau lleol atodol hefyd. Serch hynny, dywedodd llawer o'r meddygon ymgynghorol y bu inni eu cyf-weld nad oeddent yn gwybod am y canllawiau lleol. Mae hyn yn awgrymu bod angen codi ymwybyddiaeth o'r dogfennau hyn a chyfeirio atgyfeirwyr atynt.

Mae pob bwrdd iechyd yn adolygu perfformiad clinigol ei wasanaeth radioleg, ond mae cyfleoedd i gynyddu hyd a lled yr adolygiadau a wneir

- 5.7 Rhaid i wasanaethau radioleg sicrhau bod eu perfformiad clinigol bob amser yn bodloni'r safonau priodol o ran trin cleifion a gofalu amdanynt. Mae angen iddynt gydymffurfio â'r **Fframwaith Delweddu Diagnostig Cenedlaethol**²⁶ a monitro'r perfformiad clinigol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag ef. Rhaid i'r gwasanaethau radioleg sicrhau bod eu harferion yn ddiogel ac yn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

25 Offeryn Coleg Brenhinol y Radiolegwyr sy'n rhoi canllawiau ynghylch archwiliadau radiolegol yw iRefer

26 [Llywodraeth Cymru, Fframwaith Delweddu Diagnostig Cenedlaethol \(Saesneg yn unig\), 2009](#)

5.8 Ar adeg ein hadolygiad, roedd pob bwrdd iechyd wedi rhoi trefniadau da ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau, gwallau a chwynion, ac roeddent yn annog camau i roi gwybod am ddigwyddiadau. Mae pob bwrdd iechyd yn cynnal rhaglen reolaidd o archwiliadau i asesu ansawdd gwasanaethau, ond mae cyfleoedd i bob bwrdd iechyd gynyddu hyd a lled yr archwiliadau a wneir ganddo (**Arddangosyn 10**).

Arddangosyn 10: nifer y byrddau iechyd sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd o ansawdd a pherfformiad clinigol

	Nifer y byrddau iechyd sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd¹
Priodoldeb atgyfeiriadau	6
Priodoldeb atgyfeiriadau brys a/neu atgyfeiriadau tu allan i oriau	5
Ansawdd ceisiadau ysgrifenedig	5
Lefelau'r galw yn ôl amser o'r dydd/diwrnod o'r wythnos	4
Lefelau'r galw gan feddygon teulu/ysbytai	6
Cywirdeb adroddiadau	7
Amser paratoi adroddiadau	6
Adroddiadau coll ac adroddiadau hwyr	3

Nodyn:

1. Gofynnwyd i'r byrddau iechyd nodi a ydynt yn cynnal yr archwiliadau a restrwyd yn yr adolygiad

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o'r Byrddau Iechyd

- 5.9 Er bod pum bwrdd iechyd yn cynnal arolygon o brofiadau cleifion yn rheolaidd, nid yw'r ddau fwrdd iechyd arall yn gwneud hynny a dylent adolygu eu trefniadau i ddysgu o brofiadau'r cleifion.
- 5.10 Cynllun achredu sy'n canolbwyntio ar gleifion ac sy'n helpu gwasanaethau delweddu i reoli ansawdd eu gwasanaethau ac i wneud gwelliannau parhaus yw'r Cynllun Achredu Gwasanaethau Delweddu (ISAS). Yng Nghymru, mae Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu yn goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno ISAS. Fodd bynnag, bu'r cynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd unigol yn gyfyngedig oherwydd nad oes digon o adnoddau staff ar gael i gydgyssylltu'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r broses achredu. Ers ein hadolygiad, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cychwyn ar ymarfer pilot dwy flynedd i ennill achrediad ISAS. Defnyddir yr ymarfer hwn i bennu'r ffordd orau o gyflwyno ISAS ledled Cymru.

Yn y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd, pennwyd cyfleoedd i ehangu'r mesurau perfformiad gweithredol sy'n cael eu hadrodd

- 5.11 Mae'n bwysig monitro perfformiad gwasanaeth radioleg, a chraffu arno'n effeithiol, i asesu a yw'r gwasanaeth yn cyflawni ei nodau a'i amcanion sefydliadol, ac i bennu a oes angen cymryd camau unioni. Dylai'r byrddau iechyd ddefnyddio data perfformiad a chanlyniadau archwiliadau i fonitro ac i werthuso perfformiad eu hadrannau radioleg. Dylid monitro ac adolygu perfformiad ar bob lefel yn y sefydliad, o'r lefel weithredol i lefel y bwrdd.
- 5.12 Er bod pob bwrdd iechyd yn adolygu gwybodaeth am berfformiad ei wasanaethau radioleg yn rheolaidd, canfu ein hadolygiad fod hyd a lled y data perfformiad sy'n cael eu hadrodd yn amrywio. Mae pob bwrdd iechyd yn adolygu data am amseroedd aros i gael archwiliad radiolegol a data am ddigwyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu ystod o fesurau o berfformiad y gweithlu drwy'r drefn arfarnu a thrwy wirio cydymffurfiaeth â'r cyfraddau hyfforddiant, lefelau salwch, a lefelau staffio gwirioneddol o'u cymharu â'r lefelau arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw pob bwrdd iechyd yn adrodd am wybodaeth bwysig fel y capasiti o'i gymharu â'r galw, a'r amseroedd paratoi adroddiadau. Mae lle i bob bwrdd iechyd ddatblygu'r ystod o fesurau perfformiad ymhellach i ategu adroddiadau busnes drwy adolygu'r mesurau presennol a phennu bylchau.

- 5.13 Mae pum²⁷ bwrdd iechyd yng Nghymru yn aelodau o Rwydwaith Meincnodi'r GIG ar gyfer radioleg. Mae'r Rhwydwaith Meincnodi'n cynnal arolwg radioleg blynyddol o oddeutu 85 adrodd radioleg ledled y DU. Mae'r arolwg yn casglu data ac yn caniatáu i'r cyfranogwyr gymharu ystod o fesurau sy'n ymwneud â lefelau staffio a lefelau gweithgarwch. Er bod ystod o wybodaeth ar gael, nid oedd y byrddau iechyd yn gwneud defnydd helaeth o ddata meincnodi cymharol mewn adroddiadau busnes.
- 5.14 Un o'r prif heriau i'r byrddau iechyd pan fyddant yn cymharu eu perfformiad â pherfformiad byrddau iechyd eraill yw'r ffaith nad oes un mesur safonol ar gael i fesur gweithgareddau radiolegol. Wrth fesur gweithgareddau radiolegol, mae angen gofalu ein bod yn cymharu'r un pethau. Gall un ddelwedd gyfrif fel un uned o weithgarwch. Fodd bynnag, os bydd claf yn cael archwiliad sy'n cynnwys delweddau cymhleth neu luosog, gallai gyfrif fel un neu ragor o unedau, gan ddibynnu ar farn y bwrdd iechyd dan sylw.
- 5.15 Yn absenoldeb dull safonol o gyfrif gweithgareddau, mae'r system ddsbarthu feddygol, SNOMEDCT (Cyfundrefn Enwi Systematig ar gyfer Termau Clinigol mewn Meddygaeth) yn sicrhau bod modd mesur rhai mathau o weithgareddau. System ddsbarthu ryngwladol yw SNOMEDCT sy'n sicrhau bod modd cofnodi data clinigol mewn ffordd gyson oherwydd ei bod yn defnyddio set safonedig o dermau a chodau clinigol. Mae NHS England yn mabwysiadu SNOMEDCT fel system ddsbarthu a therminoleg gyffredinol ar gyfer pob sefydliad iechyd a phob agwedd ar iechyd. Yng Nghymru, dim ond ym maes radioleg ac mewn nifer fach o feysydd arbenigol eraill y cafodd SNOMEDCT ei mabwysiadu. Mae SNOMEDCT yn darparu dull awtomatig o luosi rhai gweithgareddau, gan ddibynnu ar y cod a ddefnyddir. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth gymharu gweithgareddau gwahanol adrannau radioleg oherwydd bod unrhyw ffigurau gweithgarwch yn dibynnu ar i'r sefydliadau gofnodi gweithgareddau gan ddefnyddio SNOMEDCT mewn ffordd gyson. Ar adeg yr archwiliad, nid oedd hyn yn digwydd yng Nghymru. Felly, er bod SNOMEDCT ar waith, roedd hi'n dal i fod yn anodd cael gafael ar gymariaethau ystyrlon o weithgarwch yr adrannau.
- 5.16 I wella'r systemau gwybodeg ym maes radioleg, mae'r Datganiad o Fwriad yn nodi bod rhaid defnyddio codau rhyngwladol cyffredin i wella'r gwaith o feincnodi gwasanaethau radioleg. Mae'r Datganiad o Fwriad hefyd yn dweud y bydd set gyffredin o ddangosyddion perfformiad yn cael ei pharatoi i ehangu'r ystod o wybodaeth a gesglir i wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau radioleg.

27 Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym nad yw'n cymryd rhan yn y rhwydwaith oherwydd nad oes ganddo'r capasiti gweinyddol i lenwi'r ffurflenni casglu data. Nid yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cymryd rhan ynddo oherwydd bod data cymharol y bwrdd iechyd yn gyfyngedig oherwydd bod ei wasanaeth radioleg yn wahanol.

Mae'r trefniadau atebolwydd a rheolaeth weithredol yn glir yn y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd

- 5.17 Mae arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolwydd clir yn elfennau hollbwysig o unrhyw wasanaeth gofal iechyd. Mae radioleg yn wasanaeth cymhleth sy'n cynnwys radiolegwyr, radiograffwyr a staff nyrsio sy'n cydweithio i gynhyrchu ac i ddehongli delweddau. I ddarparu gwasanaethau radioleg effeithiol, rhaid bod gan unrhyw fwrdd iechyd arweiniad, yn ogystal â strwythur rheoli gweithredol a phroffesiynol gyda llinellau atebolwydd clir.
- 5.18 Mae strwythurau a llinellau atebolwydd y timau radioleg yn wahanol ym mhob bwrdd iechyd. Yn gyffredinol, canfu ein hadolygiad fod y trefniadau rheoli gweithredol a'r trefniadau atebolwydd yn glir.

Gallai'r byrddau iechyd wneud mwy i sicrhau bod eu byrddau'n gwybod am y materion sy'n effeithio ar wasanaethau radioleg


- 5.19 Canfu ein hadolygiad fod y graddau y mae gan wasanaethau radioleg gynrychiolaeth ar lefel y bwrdd yn amrywio ar draws y byrddau iechyd. Nid oes gan bob bwrdd iechyd arweinydd gweithredol ar gyfer radioleg sy'n aelod o'r Bwrdd. Fodd bynnag, canfu ein gwaith lleol fod rheolwyr gwasanaethau'n cael eu gwahodd i roi diweddariadau am faterion a risgiau radioleg yng nghyfarfodydd pwyllgorau'r bwrdd (a chyfarfodydd y bwrdd lle bo'n briodol). Er bod hyn yn sicrhau bod byrddau a phwyllgorau'n cael gwybod am risgiau a heriau pan fo angen, oherwydd nad oes arweinydd gweithredol ar gyfer radioleg yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd mewn rhai byrddau iechyd, mae'n bosibl eu bod yn colli cyfle i dynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg a'u monitro.
- 5.20 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad o Fwriad yn wyneb yr heriau y mae'r gwasanaethau radioleg yn eu hwynebu.
- 5.21 Mae dogfen Llywodraeth Cymru, Cyflenwi Gwasanaethau Delweddu Diagnostig yng Nghymru yn y Dyfodol, ynghyd â'r Fframwaith Delweddu Diagnostig Cenedlaethol, yn darparu set o fesurau i'w rhoi ar waith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i wella gwasanaethau radioleg. Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu yn 2010 i weithredu ar lefel Cymru gyfan, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o blith clinigwyr a rheolwyr y sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau delweddu yn GIG Cymru.

- 5.22 Dirprwywyd awdurdod i Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu fynd ati i ddatblygu a gweithredu rhaglen o waith strategol ym maes radioleg ac i fabwysiadu safonau a phrotocolau ar gyfer gwasanaethau radioleg ledled Cymru. Er bod Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Delweddu wedi gwneud cynnydd, yn enwedig o ran sefydlu'r Academi, mae heriau mawr yn parhau ac mae angen mewnbwn strategol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â nhw.
- 5.23 Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad o Fwriad o ran Delweddu ar gyfer gwasanaethau radioleg. Mae'r Tasglu Delweddu'n paratoi cynllun gweithredu cenedlaethol i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodir yn y Datganiad o Fwriad, ac mae disgwyl i'r Tasglu gyflwyno adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet yn yr haf 2018.
- 5.24 Mae'r Datganiad o Fwriad yn trin a thrafod llawer o'r heriau a bennwyd drwy ein gwaith archwilio lleol ac a grynhoir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys:
- a Gweithlu ([paragraffau 2.8 i 2.10](#))
 - b Cyfarpar ([paragraff 3.9](#))
 - c Systemau gwybodaeth ([paragraff 4.10](#))
 - ch Cofnodi gweithgareddau mewn ffordd gyson ([paragraff 5.16](#))
 - d Dangosyddion perfformiad ([paragraff 5.16](#))

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg

Atodiad 2 – Y tueddiadau o ran yr amseroedd aros dros gyfnod o bum mlynedd



Atodiad 1 – Methodoleg

Cynhaliwyd ein hadolygiad o wasanaethau radioleg ar bob safle ysbyty mawr sy'n darparu ystod o wasanaethau delweddu radiolegol, gan gynnwys archwiliadau CT ac MRI. Ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, cynhaliwyd yr adolygiad mewn chwe ysbyty sy'n darparu archwiliadau pelydr X ac uwchsain²⁸. Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r safleoedd ysbyty a fu'n rhan o'r adolygiad.

Arddangosyn 11: y safleoedd ysbyty a oedd yn rhan o'n hadolygiad

Bwrdd Iechyd	Safleoedd ysbyty a oedd yn rhan o'r adolygiad
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	<ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Treforys• Ysbyty Castell-nedd Port Talbot• Ysbyty Tywysoges Cymru• Ysbyty Singleton
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	<ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Nevill Hall• Ysbyty Brenhinol Gwent
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	<ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Glan Clwyd• Ysbyty Maelor Wrecsam• Ysbyty Gwynedd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	<ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Athrofaol Llandochoau• Ysbyty Athrofaol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	<ul style="list-style-type: none">• Ysbyty'r Tywysog Siarl• Ysbyty Brenhinol Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	<ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Cyffredinol Bronglais• Ysbyty Cyffredinol Glangwili• Ysbyty'r Tywysog Philip• Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

28 Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn comisiynu archwiliadau delweddu a gweithdrefnau ymyriadol eraill, fel sganiau MRI a CT, yn ogystal ag adroddiadau am archwiliadau pelydr X ac uwchsain gan amryw o ddarparwyr mewn byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru ac ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Mae'r trefniadau comisiynu'n cael eu gweithredu drwy gytundebau lefel gwasanaeth sy'n cwmpasu ystod o wasanaethau, gan gynnwys cymorth proffesiynol ar gyfer radiograffwyr, gwasanaethau amddiffyn rhag ymbelydredd, a gwasanaethau TG i archifo delweddau a'u rhannu â gweithwyr iechyd proffesiynol.

Bwrdd Iechyd	Safleoedd ysbyty a oedd yn rhan o'r adolygiad
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbyty Coffa Rhyfel Brycheiniog • Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod • Ysbyty Cymunedol Machynlleth • Ysbyty Sirol Trefaldwyn • Ysbyty Coffa Fictoria • Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais

Dangosir ein methodoleg yn [Arddangosyn 12](#).

Arddangosyn 12: dull archwilio


Dull	Manylion
Casglu gwybodaeth a data	<p>Defnyddiwyd ffurflenni casglu data ar lefel bwrdd iechyd ac ysbyty i gasglu gwybodaeth a data am wasanaethau radioleg.</p> <p>Defnyddiwyd data a gwybodaeth o amryw o ffynonellau eraill hefyd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwydwaith Meincnodi'r GIG - data radioleg 2015 a 2016 (casglwyd y data rhwng 2 Mai ac 8 Gorffennaf 2016); • Adroddiad am Gapasiti Cyfarpar Cymru Gyfan, Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru (Rhagfyr 2015) • StatsCymru: Amseroedd Aros Radioleg Diagnostig • Data'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu: digwyddiadau diogelwch cleifion.

Dull	Manylion
Ceisiadau am ddogfennau	<p>Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd ddarparu dogfennau i'w hadolygu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cylchoedd gwaith ac aelodaeth prif grwpiau radioleg y byrddau iechyd, ynghyd â sampl o gofnodion cyfarfodydd blaenorol; • enghreifftiau o ddogfennau llwybrau cyflyrau (ar gyfer strôc, canser neu glefyd y galon) sy'n dangos y galw am ddarpariaeth y gwasanaeth radioleg; • papurau perthnasol am radioleg i'r bwrdd a'r pwyllgorau, ynghyd â phapurau gweithredol, gan gynnwys adroddiadau diogelwch; • enghreifftiau o brif adroddiadau'r byrddau iechyd am berfformiad y gwasanaeth radioleg, neu gardiau sgorio perfformiad y gwasanaeth dros y chwe mis diwethaf; • yr adroddiadau ariannol diweddaraf sy'n dangos y cynnydd o ran y cynllun arbedion/gwella costau; • cynlluniau disodli cyfarpar radioleg y byrddau iechyd; • cofrestrï risg radioleg y byrddau iechyd; • y canllawiau a ddarperir i atgyfeirwyr mewn ysbytai a meddygon teulu ynghylch y disgwyliadau pan fyddant yn atgyfeirio cleifion at y gwasanaeth; • enghreifftiau o unrhyw waith a wnaed gan y byrddau iechyd dros y ddwy flynedd diwethaf i fesur profiad cleifion radioleg.
Cyfweiliadau	<p>Bu inni gyf-weld staff ym mhob bwrdd iechyd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Radioleg; • y Cyfarwyddwr Clinigol Radioleg; • sampl o feddygon ymgynghorol a ddewiswyd gan y byrddau iechyd o'r adrannau llawfeddygaeth, meddygaeth, damweiniau ac achosion brys, ac anestheteg.
Grwpiau ffocws	<p>Cynhaliwyd grwpiau ffocws ym mhob bwrdd iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Uwch-arweinwyr radiograffeg ar bob safle prif ysbyty; • Arweinwyr meddygon teulu yn yr ardaloedd.

Atodiad 2 – Y tueddiadau o ran yr amseroedd aros dros gyfnod o bum mlynedd


Mae arddangosion 13, 14 ac 15 yn dangos niferoedd y cleifion sydd wedi aros hyd at wyth wythnos a mwy nag wyth wythnos i gael archwiliadau CT, MRI ac uwchsain rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2018.

Arddangosyn 13: y duedd o ran amseroedd aros Cymru gyfan i gael archwiliad CT rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2018




Ffynhonnell: Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi, StatsCymru, Mai 2018

Arddangosyn 14: y duedd o ran amseroedd aros Cymru gyfan i gael archwiliad MRI rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2018



Ffynhonnell: Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi, StatsCymru, Mai 2018

Arddangosyn 15: y duedd o ran amseroedd aros Cymru gyfan i gael archwiliad uwchsain anobstetrig rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2018



Ffynhonnell: Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi, StatsCymru, Mai 2018

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Public Accounts Committee

PAC(5)–31–18 Paper 6

26 November 2018

STATEMENT BY THE WELSH GOVERNMENT

TITLE: Betsi Cadwaladr University Health Board Special Measures Update

DATE: 6 November 2018

BY: Vaughan Gething, Cabinet Secretary for Health and Social Services

I made a statement on 5 June on the progress made in some key areas during the time the Health Board has been in special measures, the significant challenges that remained and plans to work with the Health Board during the next phase of improvement.

My statement today will focus on progress against the expectations I set out to the Health Board in May in the special measure improvement framework. The framework sets out milestones for 18 months in four key areas – leadership & governance, strategic and service planning, mental health and primary care including out-of-hours. The Health Board is required to report on progress every 6 months and the first report was discussed and agreed at its Board meeting held last week.

I met with the new Chair and the Chief Executive for my regular accountability last Tuesday to discuss the progress made and plans to deliver on the challenges and difficulties that remain.

On leadership and governance there has been a strong focus on improving Board capability. During May to September 2018 all Board vacancies were addressed. Mark Polin was appointed as the new Chair and a new Vice Chair and independent members' appointments made. In line with my expectations, an Executive Director of Primary and Community Care has been appointed to drive the required improvements in this area. A new

Executive Director of Planning and Performance has also been recruited and will start in post in November.

More robust appraisal and reporting/ assurance systems are now being introduced by the new Chair to further drive improved good governance. There has also been increased commitment and impetus to partnership working from the Board to support delivery of 'A Healthier Wales' and the transformation agenda. I was pleased to announce last week support from the 'Transformation Fund' for a North Wales project to help people with learning disabilities live more independent lives and get the care they need closer to home. This will involve sharing resources, skills and expertise across health, social care and the third sector.

In relation to finances, the Health Board remains in a challenging position. However, if the control total set for this year is met, it will represent an improvement on the previous year. The Board are in no doubt that achieving this will require focused action over the latter part of this financial year to deliver on the turnaround needed to secure stability and drive the shift to transformation in its future plan. I announced in July additional funding of £1.7million under the special measures arrangements to strengthen the management capacity and analysis capability in the turnaround team.

A key expectation of the improvement framework was that the Board responded promptly and appropriately to the Health and Social Care Advisory Service (HASCAS) investigation findings and the Ockenden Review recommendations. I am content that the plans the Health Board has put in place to implement the recommendations, both with mental health and more widely, are comprehensive and robust – with operational leads identified and being held to account. My focus now is on ensuring there is rapid progress on implementing these plans. We are already verifying the progress so far reported by BCU in their regular reports is recognised by the frontline staff in mental health – this is in addition to the HIW inspection programme which is also reporting progress. Improvements so far include the confirmation of a new and visible senior management team, appointment of a new mental health nursing director, creation of listening leads across front line staff and the launch of the 'Today I Can' approach.

Furthermore, a stakeholder group has been created to further test the improvements being made. I am pleased that some members of the Tawel Fan families have agreed to be part of this group, along with the CHC and other stakeholders.

I met with a number of Tawel Fan Families again last week. Understandably a small number of families are not entirely content with either the process or outcome of the investigation, there was consensus though of the need to ensure the Health Board reports and action plans prepared result in sustainable and meaningful improvements in both mental health services and care of those with dementia across services. My officials have been very clear with the Health Board of the need to ensure it communicates plans and actions effectively to all staff.

The focus of developments in mental health to date has been around immediate improvements to in-patient services, including environmental works. The Health Board is also working to assess and improve community services by implementing its mental health strategy, working closely with local authorities, third sector, services users and the police to deliver local implementation plans. A key focus for the next 6 months will be to improve and maintain performance against the mental Health Measure and CAMHS targets.

To support this work the Delivery Unit is reviewing demand and capacity and my officials are discussing what further support might be needed in this area to rebalance service capacity and demand.

Improvement to engage and involve staff is on-going and the results of the NHS Staff Survey 2018 show positive changes since 2013 and 2016 most notably in staff engagement. This includes an increase of 18% from the 2013 survey to 65% of staff proud to say they worked at BCU.

The strategic and service planning area including performance requires acceleration and more focussed effort. There has been progress in individual specialities strategies with the Sub-Regional Neonatal Intensive Care Centre and primary percutaneous intervention plans implemented and the vascular surgery plan underway. These plans increase success in recruitment and in delivering specialist services in the region for the North Wales population.

Work on other areas including orthopaedics need to be further progressed on a whole system basis and described more clearly in its plans for service transformation and improvement.

In primary care the new Executive Director will provide increased focus to deliver further improvements working in partnership with clusters. Work is continuing to improve GP out of hours services and the Health Board performance is now more in line with the rest of Wales. The ambition of the Health Board is now to transform the service model so that it becomes more fit for purpose and sustainable.

In this statement I have noted areas of progress but also outlined the significant difficulties that remain. I am determined that special measures is not a sticking plaster and delivers sustainable improvements that puts in place the capacity and capability required for the medium and long term. During the next 6 months the Health Board will need to focus on finance, strategic and service planning especially unscheduled care and RTT and delivering on the recommendations from HASCAS and Ockenden. The Chair and the Board is clear on the work needed and committed to making progress. Welsh Government will be working alongside to provide the necessary support and I hope regional partners and key stakeholders will also play a key role in ensuring improved and sustainable health and care services for the North Wales population.